# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>28 TACHWEDD 2016<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>28 NOVEMBER 2016<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mairwen Hughes<br>01248 752516** | Committee Officer |

**Annibynnol / Independent**
R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Lafur/Labour Party**
J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

**Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru /Welsh Liberal Democrat (Heb Ymuno / Unaffiliated)**

Aled Morris Jones

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHRDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO.**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 17 Hydref, 2016
- 7 Tachwedd, 2016 (Cyllideb)

**4** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 13 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AM 2017/18** (Tudalennau 27 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6** **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR AR GYFER 2017/18** (Tudalennau 33 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 2, 2016/17** (Tudalennau 55 - 70)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**8** **MONITRO CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2016/17** (Tudalennau 71 - 84)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **MONITRO CYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2016/17** (Tudalennau 85 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**10** **MABWYSIADU PWERAU GAN Y CYNGOR A DIRPRWYO I SWYDDOGION** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**11** **EITEM RHANBARTHOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU - GROWTH TRACK 360** (Tudalennau 105 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**12** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD** (Tudalennau 121 - 126)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**13** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH DIWYLLIANT** (Tudalennau 127 - 130)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**14** **POLISI YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL** (Tudalennau 131 - 174)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**15** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 175 - 176)

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**16** **MODEL AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU CYNGHORI AR FUDD-DALIADAU LLES** (Tudalennau 177 - 188)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd J Arwel Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones ac Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitemau 8, 9 & 10),<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant (ar gyfer eitem 11),<br>Rheolwr Busnes (Tai) (NM) (ar gyfer eitem 9),<br>Rheolwr Opsiynau Tai (AP) (ar gyfer eitem 8),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr John Griffith, T.V. Hughes, Llinos M. Huws, G.O. Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Dylan Rees. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd H E Jones |

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim datganiadau o ddiddordeb.

### 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim.

### 3 COFNODION

Cyflwynwyd, ar gyfer eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2016.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2016 fel rhai cywir.**

### 4 COFNODION ER GWYBODAETH

Cyflwynwyd ar gyfer eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, gofnodion y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Medi, 2016.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Medi, 2016 fel rhai cywir.**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a oedd yn cynnwys blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2016 i Fehefin 2017, ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sylw at y newidiadau i'r blaen raglen waith ers y cyfnod adrodd diwethaf fel a ganlyn -

### Eitemau newydd i'r Blaen Raglen Waith

- Eitem 9 – Mabwysiadu pwerau gan y Cyngor a dirprwyaeth i Swyddogion wedi'i drefnu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 28 Tachwedd, 2016;
- Eitem 10 – Rhaglen gwelliannau mân-ddaliadau – bydd diweddariad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 28 Tachwedd, 2016;
- Eitem 14 – Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr, 2016;
- Eitem 30 – Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror, 2017.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Tachwedd 2016 i fis Mehefin 2017**.

## 6 CYNLLUN STRATEGOL Y GYLLIDEB GYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r uchod.

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r gwariant cyfalaf posibl yn y dyfodol ac effaith yr elfen arian cyfalaf o'r cyfrif refeniw. Nododd fod y Prosiect Ysgolion 21 Ganrif yn rhaglen hirdymor heriol a fydd angen cyllid cyfalaf o £120 miliwn. Cyfeiriodd at brosiectau bach o fewn yr adroddiad a ystyrir yn sylfaenol ac nad ydynt yn rhoi pwysau gormesol ar y gyllideb. Awgrymir y dylid rhoi rhaglen adnewyddu asedau yn ei lle ar gyfer y prosiectau bach hyn.

Nododd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei fod yn cytuno bod y prosiect Ysgolion 21 Ganrif yn sylweddol ac y bydd yn cael effaith ar y gyllideb addysg a'r gyllideb ysgolion; bydd hefyd yn cynyddu costau refeniw o hyd at £5 miliwn. Os bydd y prosiect yn cael ei ariannu o gyllideb ganolog y Cyngor, byddai'n cael effaith ar wasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

- **Cyflwyno adroddiad pellach i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith yn Ionawr 2017 ynghylch effaith bosib prosiectau mawr Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyllideb y Cyngor;**

- **Bod y cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2017/18 yn cael ei gyfyngu i werth y grant cyfalaf cyffredinol, lefel y benthyca â chymorth, gwerth y cyllid ar gyfer prosiectau a gytunwyd yn flaenorol ond nad oes ei angen mwyach, ynghyd â gwerth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd ond sydd heb eu dyrannu;**
- **Sefydlu'r egwyddor bod yr eitemau a nodir ym mharagraff 6.1. yr adroddiad yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir i bob pennawd yn cael ei gytuno fel rhan o'r broses ar gyfer pennu'r gyllideb gyfalaf bob blwyddyn, gan ddibynnu ar lefel y cyllid sydd ar gael;**
- **Ni fydd prosiectau sy'n cael eu hariannu o fenthyca digefnogaeth ond yn cael eu gweithredu os bydd y gostyngiad yn y costau refeniw neu'r cynnydd yn yr incwm a gynhyrchir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol;**
- **Bod rhywfaint o waith arwynebu ffyrdd yn cael ei ariannu o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn dibynnu ar faint o gyllid sydd ei angen i gwrdd ag unrhyw warantau ynghylch isafswm gwerth contractau, y lefel o arian sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.**
- **Ychwanegu prosiectau a ariennir gan grant at raglen gyfalaf 2017/18 unwaith y bydd lefel y cyllid yn hysbys.**
- **Bod prosiectau sydd angen rhywfaint o arian cyfatebol i allu denu arian grant yn cael eu hasesu ar sail achos wrth achos gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid ymrwymo cyllid ai peidio yn dibynnu ar y prosiect, sut mae'n cydweddu â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r gymhareb o ran faint y byddai angen i'r Cyngor ei gyfrannu a faint fyddai'n arian grant.**
- **Bydd ceisiadau ar gyfer prosiectau newydd yn cael eu hasesu yn unol â'r matrics sgorio a oedd mewn grym yn 2016/17, h.y. rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol, sy'n lliniaru risgiau corfforaethol, sy'n cyflawni arbedion refeniw yn y dyfodol ac sy'n gallu dangos bod prosesau rheoli prosiect digonol wedi cael eu sefydlu.**

## 7 PREMIYMAU TRETH GYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â gweithrediad Premiymau Treth Gyngor o 1 Ebrill, 2017.

Nododd y Cadeirydd y cafwyd trafodaethau mewn perthynas â defnyddio'r cyllid sydd wedi'i greu o ganlyniad i'r premiymau ar dai gwag ac ail gartrefi ar gyfer cynorthwyo'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar Ynys Môn. Ystyriwyd y dylid rhoi cymorth i brynwyr tro cyntaf o'r Premiymau Treth Cyngor er mwyn iddynt allu prynu eu tai cyntaf neu adnewyddu eiddo.

**PENDERFYNWYD:**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r cynllun a'r incwm ychwanegol a ddisgwylir yn sgil cyflwyno Premiymau'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2017.**
- **Cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 2017 yn amlinellu cynigion ynghylch sut orau i ddefnyddio'r swm i ddarparu tai fforddiadwy yn Ynys Môn.**

- **Cymeradwyo defnyddio arian wrth gefn y Cyngor i gwrdd â chost ychwanegol cyflogi swyddog clercyddol dros dro hyd at 31 Mawrth 2017;**
- **Cymeradwyo penodi swyddog Ymholiadau/Refeniw ychwanegol ar sail barhaol a chwrdd â'r gost o'r incwm ychwanegol a gesglir dan gynllun Premiymau'r Dreth Gyngor**

## 8 FFOADURIAID SYRIA

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth y Gwasanaethau Tai i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â darparu'r rhaglen adsefydlu a chymorth ar gyfer Ffoaduriaid Syria.

Nododd y Deilydd Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) fod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno yn Ebrill 2016 i gymryd rhan yn y Cynllun Adsefydlu ar gyfer Unigolion Bregus Syria a chroesawu ffoaduriaid i Ynys Môn o ganlyniad i sefyllfa arswydus dinas Aleppo yn Syria.

Rhoddodd y Rheolwr Opsiynau Tai grynodeb byr am lwyddiant y teulu cyntaf sydd wedi derbyn cartref gan landlord sector rhent preifat yn ardal Porthaethwy. Nododd fod y plant bellach wedi setlo'n dda mewn ysgol leol ac maent yn gwneud cynnydd da. Mae Gweithiwr Cymorth wedi bod yn mynd gyda'r teulu ar ddyddiau allan er mwyn ymweld â'r ynys gan eu cyflwyno i'r diwylliant lleol a'r iaith Gymraeg ac maent yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lleol. Nododd y Swyddog fod trefniadau ar y gweill i groesawu ail deulu i'r Ynys.

Nodwyd fod y Swyddfa Gartref wedi gofyn i awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig i adsefydlu plant sydd ar eu pen eu hunain o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer y rhaglen plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC) a'r Rhaglen Adsefydlu (VCRP). Ystyriwyd na ddylai'r Cyngor gymryd rhan mewn rhaglenni UASC a VCRP ar hyn o bryd a hynny am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn;**
- **Cymeradwyo'r camau nesaf i groesawu ail deulu o Syria cyn y Nadolig;**
- **Peidio â chymryd rhan yn y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches ac adolygu'r mater ymhen 12 mis.**

## 9 LLAWR Y DREF, LLANGEFNI – ACHOS BUSNES

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas ag ailwampio Llawr y Dref, Llangefni.

Nododd y Deilydd Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) bod y rhaglen wella wedi cael ei sefydlu er mwyn gwneud gwaith gwella yn 1-4 a 6-29 Llawr y Dref, Llangefni. Bydd y lle sydd ar gael y tu mewn i'r fflatiau'n cael ei wella a bydd lifft yn cael ei osod ym mloc 6-29 Llawr y Dref. Bydd y materion Iechyd a Diogelwch hefyd yn cael eu gwella drwy uwchraddio'r system fynediad i'r adeilad a'r ardaloedd

cymunedol a fydd yn cynnwys system TCC. Nododd ymhellach y bydd y dynodiad presennol ar gyfer y cynllun yn parhau am gyfnod o 6 mis yn dilyn cwblhau'r gwaith ail-fodelu. Fodd bynnag, os nad fydd modd gosod yr unedau yn dilyn y cyfnod o 6 mis fe fydd dynodiad y cynllun yn cael ei newid i fod yn llety ar gyfer pobl dros 50 oed neu rhai sydd wedi cofrestru'n anabl.

Nododd y Cynghorydd Dylan Rees, Aelod Lleol, ei fod yn fodlon â'r cynllun gwella ar gyfer ailwampio Llawr y Dref, Llangefni. Fodd bynnag, nododd fod colli'r Gwasanaeth Warden yn golygu nad yw pobl eisiau byw yma gan y byddent yn teimlo'n fwy diogel yn byw yn y fflatiau, byddai pobl yn fwy parod i gael eu lletya yn Llawr y Dref petai Gwasanaeth Warden ar gael yn y fflatiau. Gofynnodd i'r Gwasanaethau Tai ystyried lleoli Warden Peripatetig yn Llawr y Dref. Ymatebodd y Pwyllgor Gwaith y bydd system TCC yn cael ei gosod er mwyn monitro gweithgaredd yn Llawr y Dref ac y byddai darparu gwasanaeth warden yn gosod cynsail ar gyfer tai tebyg sydd ym mherchnogaeth yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD**

- **Bwrw ymlaen â'r rhaglen wella ar gyfer rhifau 1 - 4 a 6 - 29 Llawr y Dref, Llangefni sy'n cynnwys sicrhau cymaint o ofod llawr mewnol â phosib o fewn y fflatiau, gan gynnal yr ôl-troed cyfredol, gosod lifft yn y bloc ar gyfer rhifau 6-29, uwchraddio'r cyfleusterau cymunedol a gwneud gwelliannau allanol i'r adeilad;**

- **Gwella trefniadau diogelwch i rifau 1 - 4 a 6 - 29 Llawr y Dref, Llangefni drwy uwchraddio'r system mynediad drws i'r adeilad a'r ardaloedd cymunedol gan gynnwys system camerâu goruchwylio, ynghyd ag uwchraddio'r system diogelwch tân o fewn y ddau floc;**

- **Parhau â'r dynodiad presennol ar gyfer y cynllun am gyfnod o 6 mis ar ôl cwblhau'r gwaith ail-fodelu. Os nad oes modd gosod yr unedau ar ôl y cyfnod hwn caiff dynodiad y cynllun ei newid i fod ar gyfer pobl 50 oed neu hŷn, neu bobl sydd wedi'u cofrestru'n anabl.**

## 10 PROTOCOL GOGLEDD CYMRU AR GYFER Y GYMUNED SIPSIWN A THEITHWYR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Cymru ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Nododd y Deilydd Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) mai bwriad y Protocol yw sefydlu egwyddorion cyffredin ar gyfer delio â gwersylloedd diawdurdod sy'n lleihau tensiynau cymdeithasol lle mae gwersylloedd yn codi, lleihau costau gorfodi a glanhau a sicrhau agwedd gydlynol rhwng y gwasanaethau a fydd efallai'n ymwneud â'r mater hwn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Gwersylloedd Anawdurdodedig gan Sipsiwn a Theithwyr.**

## 11 PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL – DIOGELU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini a'r Rheolwr Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith.

Tynnodd Cadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini sylw at brif adolygiad gwaith y Panel mewn perthynas â chyfrifoldebau Diogelu Corfforaethol y Cyngor. Nododd y bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2015, wedi ystyried ymateb y Cyngor i Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd yr Awdurdod o ran Diogelu Corfforaethol ac awgrymwyd y dylid sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini. Nododd fod y Panel yn fodlon ar y cyfan bod y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn ymgymryd â'r dasg er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni eu dyletswydd ddiogelu fel y nodir ym mholisïau'r Cyngor.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith i'r Panel Canlyniad Sgriwtini am eu gwaith a nododd fod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad wedi cael sylw gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Ystyriodd y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Gwaith yn y flwyddyn newydd mewn perthynas ag argymhellion y Panel.

**PENDERFYNWYD**

- **cymeradwyo'r adroddiad a'r argymhellion ynddo;**
- **cyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor Gwaith yn y Flwyddyn Newydd mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad.**

## 12 PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL – GOSOD TAI AWDURDOD LLEOL (TAI GWAG)

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini a'r Rheolwr Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd Cadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini y prif ganfyddiadau mewn perthynas â'r dangosydd hwn ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy'n tanberfformio yn y Gwasanaethau Tai, sef Gosod Tai Awdurdod Lleol (Tai Gwag). Penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2015 y dylid sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini er mwyn edrych yn fanwl ar y dangosydd sy'n tanberfformio yn y gwasanaeth hwn. Nododd fod y Panel yn ystyried bod y Gwasanaeth Tai yn cymryd 54.3 diwrnod i osod tŷ o gymharu â'r targed o 25 diwrnod. Fodd bynnag, nododd bod angen gwneud gwaith ar rai eiddo gwag pan fyddant yn dod yn wag. Yn ystod 2015-16 gosodwyd cyfanswm o 52 cegin, 34 ystafell ymolchi ac fe ailweiriwyd 91 eiddo.

Diolchodd y Deilydd Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) i'r Panel am eu gwaith a nododd y bydd y targed ar gyfer gosod eiddo yn parhau ar 25 diwrnod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a'r argymhellion ynddo.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Kenneth Hughes, Aled Morris Jones, H. Eifion Jones, Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Rheolydd Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr John Griffith, Llinos Medi Huws, Gwilym O. Jones, Alun Mummery |

---

Croesawodd y Cadeirydd y rheini a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith a gafodd ei gynnull i gymeradwyo'r cynigion cychwynnol mewn perthynas â Chyllideb 2017/18 i bwrpas ymgynghoriad cyhoeddus. Rhoes grynodeb o'r broses a ddilynwyd er mwyn llunio'r cynigion a phwysleisiodd bwysigrwydd derbyn adborth y cyhoedd er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i lunio'r cynigion terfynol ar gyfer cyfarfod y Cyngor Sir ddiwedd mis Chwefror 2017 a fydd yn cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2017/18.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim.

**3 CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb Refeniw ddrafft 2017/18 er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid fod cyhoeddi'r cynigion drafft cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2017/18 yn dod â'r cam cyntaf yn y broses o benderfynu ar y Gyllideb derfynol i ben, proses a gynhaliwyd yn fewnol yn y Cyngor ac sydd wedi golygu derbyn mewnbwn sylweddol gan Swyddogion ac Aelodau Etholedig mewn cyfarfodydd adolygu gwasanaeth a gweithdai cyllideb. Mae'r gwaith wedi profi'n heriol ac mae bwlch cyllido o bron i £3m yn y gyllideb wreiddiol a'r hyn sydd ei angen ar y Cyngor er mwyn cynnal ei sefyllfa bresennol, gan gymryd i ystyriaeth y pwysau ychwanegol y mae'n ei wynebu. Mae'r rhestr ddrafft o argymhellion ar gyfer arbedion yn un sylweddol ond mae'n cynnwys opsiynau hefyd, sy'n golygu bod elfen o hyblygrwydd o ran y penderfyniadau sydd angen eu gwneud. Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn wydn er mwyn ymateb i heriau yn y blynyddoedd ariannol sy'n dilyn. Roedd y setliad dros dro ar

gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru yn well na'r disgwyl gydag adolygu'r fformiwla ariannu'n fanteisiol i gynghorau gwledig, ac mae Ynys Môn wedi gweld cynnydd o 0.3% yn y dyraniad. Fodd bynnag, bydd y cynnydd hwn yn cael ei lyncu mewn gwirionedd gan bwysau arall ar y gyllideb, e.e. yr Ardoll Prentisiaethau, felly bydd rhaid i'r Cyngor gwrdd â'r holl anghenion eraill a gwelliannau yn y gwasanaethau oddi mewn i'r adnoddau sydd ganddo unai drwy wneud toriadau neu gynyddu'r Dreth Gyngor. Roedd setliad Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfeirio at £25m yn ychwanegol yn benodol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, er na dderbyniwyd manylion am y dyraniad hwn hyd yma.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, er bod y cynnydd yn y setliad i'w groesawu gyda chyllid ychwanegol (£54m) wedi'i gynnwys yn y setliad sy'n cynrychioli'r swm y mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei wario ar wasanaethau'r flwyddyn nesaf, mae Llywodraeth Cymru ar yr un pryd wedi rhagweld y bydd sail y Dreth Gyngor yn cynyddu 3.5% fydd felly'n erydu'r £54m a ddynodwyd fel gwariant ychwanegol ar gynghorau. Effaith hyn yw'r lleihau'r cyllid ychwanegol i £6m, ac ar ôl cynnwys grantiau a chyfrifoldebau newydd y mae'n rhaid i gynghorau eu hystyried, y canlyniad net mewn gwirionedd yw na fydd cynghorau'n derbyn cynnydd yn eu cyllidebau ar gyfer 2017/18. Mae Ynys Môn ar ei hennill o £300k, ond prin fod y ffigwr hwnnw'n ddigon i dalu'r Ardoll Brentisiaethau a bydd rhaid i'r Cyngor gwrdd â chostau chwyddiant, galw am wasanaethau a phwysau eraill. Dywedodd y Swyddog bod y diffyg yn y gyllideb yn parhau i fod yn sylweddol, ac nad oedd yn rhagweld unrhyw newid i'r Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC), gyda thoriadau pellach gwerth oddeutu £5m i £6m yn angenrheidiol yn 2018/19 a 2019/20. Mae mwy o waith angen ei wneud ar rai o'r arbedion yn y rhestr a gyflwynwyd ac mae rhai, e.e. trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgell ac Ieuenctid, yng nghanol proses ymgynghori ac mae'n rhaid gorffen y broses honno cyn y gellir ymgorffori ffigwr ar gyfer yr arbedion yn y gyllideb derfynol. Mae angen gwneud gwaith hefyd ar gyllidebau corfforaethol a chanolog gan nad ydynt wedi bod drwy'r un broses adolygu â chyllidebau'r gwasanaethau ac efallai y gellir canfod mwy o arbedion yn y fan honno. Mae'r ffigyrau yn y gyllideb ddrafft yn seiliedig ar gynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor ond petai dymuniad i weld cynnydd o lai na 3% yn y Dreth Gyngor yna byddai'r pwynt cychwyn ar gyfer cyllideb 2018/19 hefyd yn is gan olygu y byddai'n rhaid gweithredu mwy o doriadau'r flwyddyn honno neu byddai'n rhaid cael mwy o gynnydd yn y Dreth Gyngor nag a ragwelwyd yn y CATC.

Dywedodd y Swyddog ei fod yn dymuno tynnu sylw'r Pwyllgor Gwaith at risg benodol yn y gyllideb ar ffurf chwyddiant. Mae cyllideb ddrafft 2017/18 yn seiliedig ar y rhagdybiad y bydd cynnydd o 1% mewn chwyddiant ond mae rhagolygon diweddar yn awgrymu y gallai chwyddiant godi i fwy na 2% y flwyddyn nesaf. Byddai hynny'n rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau a allai arwain at bwysau am fwy o gynnydd mewn cyflogau, sydd wedi cael ei gyfyngu i 1% yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Adroddodd y Cynghorydd Gwilym O. Jones, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ar ymateb y Pwyllgor i'r cynigon drafft ar y gyllideb refeniw yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor ar 19 Hydref 2016, ac a gafodd ei rannu cyn y cyfarfod hwn, ac roedd yn cydnabod bod y broses ar gyfer gosod y gyllideb wedi aeddfedu llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn gobeithio bod rôl y Pwyllgor Sgriwtini o ran cymryd golwg ehangach ar y cynigion o safbwynt eu heffaith posibl ar flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol wedi ychwanegu gwerth i'r broses.

Cynigiodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith eu barn ar gynigion y gyllideb ddrafft gan ganmol y gwaith a wnaethpwyd gan Swyddogion, yn arbennig y Gwasanaeth Cyllid, yn ogystal â chyfraniad Aelodau Etholedig yn y broses yn arwain at lunio'r cynigion drafft.

### PENDERFYNWYD

- **Cymeradwyo'r gyllideb ddigyfnewid o £128.329m ar gyfer 2017/18 ac y dylai fod yn sail i gyllideb refeniw 2017/18.**
- **Dyrannu'r grantiau sydd wedi eu hymgorffori yn y Cyllid Allanol Cyfun a'r cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd i'r cyllidebau priodol.**
- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2017/18 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol.**
- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio barn y cyhoedd am yr arbedion arfaethedig.**



DRAFFT

## 4 CYLLIDEB GYFALAF DDRAFFT 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2017/18 er sylw'r Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn un uchelgeisiol a'i bod o'r herwydd yn golygu mwy o gostau. Fodd bynnag, gellir dweud bod y sefyllfa bresennol o ran llogau isel yn golygu bod yr hinsawdd yn ffafriol ar gyfer ymgymryd â buddsoddiad cyfalaf. Fodd bynnag, er bod y buddsoddiad arfaethedig yn sylweddol, mae'n parhau i fod o fewn terfynau benthyg y Cyngor. Bydd y gyllideb gyfalaf, yn yr un modd â'r gyllideb refeniw, yn mynd trwy broses ymgynghori gyhoeddus.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod yr adroddiad wedi'i ddrafftio'n unol â'r Strategaeth Cyfalaf gan rannu'r cynigion i dair adran: cynigion cyffredinol, cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif a chynlluniau Grant Refeniw Tai. Yr amcan wrth lunio'r cynigion ar gyfer y gyllideb gyfalaf oedd ceisio sicrhau eu bod yn symud blaenoriaethau o fewn y Cynllun Corfforaethol yn eu blaen heb greu pwysau ychwanegol ar y cyfrif refeniw drwy orfod cyllido benthyca ychwanegol a'r costau llog sy'n gysylltiedig â hynny. Cyflwynir adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 2017 mewn perthynas â fforddiadwyedd y rhaglen gyfalaf ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif. Dywedodd y Swyddog, er bod y rhaglen arfaethedig yn ymrwymo'r Cyngor i ariannu lefel uwch o fenthyca, mae'r lefel yn parhau o fewn y terfynau a osodir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ac o ganlyniad nid yw'n gosod baich annioddefol ar y Cyngor.

Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith eu barn ar y cynigion drafft ar gyfer cyllideb gyfalaf 2017/18.

**Penderfynwyd -**

- **Parhau i ariannu'r cynlluniau y gwnaed ymrwymiad iddynt fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad ar gost o £8.826m, gyda £647k ohono yn dod o gyllid craidd y Cyngor.**
- **Ariannu gwariant ar grantiau cyfleusterau i'r anabl, ailwampio adeiladau cyfredol, asedau TG a cherbydau fel y nodir ym mharagraff 3.3. yr adroddiad ar gost o £2.301m.**
- **Cymeradwyo cyllido'r ddau brosiect Buddsoddi i Arbed sy'n sgorio uchaf fel y nodir ym mharagraff 3.4 yr adroddiad ar gost o £0.186m.**
- **Cymeradwyo ariannu cynlluniau cyfalaf newydd fel y nodir ym mharagraff 3.6. yr adroddiad ar gost o £11.675m, gyda £2.531m ohono'n cael ei ariannu o gyllid craidd y Cyngor.**
- **Cymeradwyo cyllid o £0.76m ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd yn unol â pharagraff 3.5. yr adroddiad.**
- **Bod angen gwneud gwaith pellach i asesu dichonoldeb ariannu'r ddau gynllun a nodir ym mharagraff 3.7 yr adroddiad drwy fenthyca digymorth.**
- **Cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn amodol ar gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ar ariannu'r elfen benthyca digefnogaeth o'r rhaglen.**
- **Cymeradwyo cynnwys cynlluniau'r Cyfrif Refeniw Tai, fel y nodir ym mharagraff 5 yr adroddiad, yn y rhaglen gyfalaf derfynol am gyfanswm cost o £ 9.889m**.

## 5 CYNLLUN YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid yn ymgorffori'r Cynllun Ymgynghori/Cyfathrebu ar Gyllideb 2017/18 i'r Pwyllgor Gwaith er ystyriaeth.

Cymeradwyodd Aelod Portffolio Busnes y Cyngor y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith fel disgrifiad lefel uchel o'r cynllun ymgynghori i'w wireddu yn ystod y cyfnod o 7 Tachwedd hyd at 16 Rhagfyr 2016.

Rhoes Gwilym O. Jones, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, farn y Pwyllgor Sgriwtini ar y cynllun ymgynghori yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2016 gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod yr wybodaeth a gyflwynir i'r cyhoedd yn eglur fel bod dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei gynnig a pham, a hefyd pwysigrwydd sicrhau bod y Cyngor yn gwrando ar yr hyn sydd gan y cyhoedd i'w ddweud am y cynigion. Roedd y Pwyllgor Sgriwtini'n awyddus i sicrhau bod yr ymgynghoriad ar y gyllideb yn fwy nag ymarfer ticio blychau ac y bydd y Cyngor yn creu deialog ystyrlon gyda'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill. Awgrymodd y Pwyllgor



DRAFFT

hefyd bod y broses yn cael ei hadolygu unwaith y bydd cyllideb 2017/18 wedi'i gosod er mwyn sefydlu a oes modd gwneud unrhyw welliannau.

Roedd y Cadeirydd yn cydnabod sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini, yn arbennig mewn perthynas â barn y cyhoedd ac adborth. Fodd bynnag, gan bod gofyn statudol ar y Cyngor i gynhyrchu cyllideb gytbwys, mae toriadau'n anochel.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2017/18.**

**Y Cynghorydd Ieuan Williams**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd 2016** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2016 - Gorffennaf 2017** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Rhagfyr 2016** | | | |
| 1 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adain 151. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Rhagfyr 2016 | |
| 2 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Rhagfyr 2016 | |
| 3 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni**<br><br>Cymeradwyo adroddiad ar yr ymgynghori anffurfiol | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn i benderfynu ar y cynnig neu cynigion bydd swyddogion yn ymgynghori'n statudol arnynt. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Rhagfyr 2016 | |
| 4 | **Modurdai Tai Cyngor**<br><br>Cymeradwyo argymhellion. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar argymhellion ynglyn â'r cyfeiriad strategol a chynllun gweithredu modurdai sy'n rhan o stoc dai'r Cyngor. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Rhagfyr 2016 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**<br><br>Cymeradwyo cynllun prosiect, cytundeb i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar ddau safle, a chyflwyno cais am grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y safle parhaol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith er mwyn symud ymlaen i roi ar waith y prosiect llety ar gyfer cymunedau sipsiwn a theithwyr a chyflwyno bid cyfalaf i Lywodraeth Cymru. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Rhagfyr 2016 | |
| 6 | **Gwelliannau i'r briffordd rhwng A55 C3 a Wylfa Newydd ar hyd yr A5 a'r A5025**<br><br>Er mwyn i'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo symud ymlaen gyda'r Gorchmynion Prynu Gorfodol a Gwelliannau Ar Lein rhwng A55 Cyffordd 3 a Wylfa ar hyd yr A5025 a'r A5. | Nid yw'r pwer wedi'i neilltuo i'r Cyngor llawn nag wedi'i ddirprwyo i swyddogion, ac nid yw wedi'i ddirprwyo i Ddeilyddion Portffolio unigol. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Dewi Williams<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng J Arwel Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Rhagfyr 2016 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ionawr 2017** | | | |
| 7 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2017 | |
| 8 | **Adroddiad ar yr ymgynghori statudol ar ostwng Oed Mynediad yn Ysgol Brynsiencyn**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2017 | |
| 9 | **Moderneiddio Ysgolion – Caergybi a Llanfaethlu**<br><br>Cytuno i symud dyddiad cwblhau'r rhybuddion statudol mewn perthynas ag Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan. | Y Pwyllgor Gwaith gymeradwyodd y cynnig gwreiddiol a felly dim ond y Pwyllgor Gwaith gall fel y cynigydd gall benderfynu gohirio'r cynigion. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2017 | |
| 10 | **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Asesiad i Lywodraeth Cymru. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

Tudalen 19

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Chwefror 2017** | | | |
| 11 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adain 151. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Chwefror 2017 | |
| 12 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 13 | **Cyllideb 2017/18 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 6 Chwefror 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | 28 Chwefror 2017 |
| 14 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | 28 Chwefror 2017 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 16 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes ar gyfer 2017/18**<br><br>Cymeradwyo polisi ar gyfer 2017/18. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 17 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 18 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2017/18**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2017/18**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 20 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2017/18**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 21 | **Cynllun Busnes a Chyllideb Drafft Cyfrif Refeniw Tai 2017-2018**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar y Cynllun Busnes a'r cyllidebau cyfalaf a refeniw. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 22 | **Asesiad o Anghenion - Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**<br><br>Cymeradwyaeth statudol o'r asesiad rhanbarthol. | Côd ymarfer statudol: "Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gymeradwyo'r adroddiad asesiad poblogaeth yn ffurfiol. Bydd angen i hyn gael ei wneud gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol ac, yn achos yr awdurdod lleol, bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn pan fydd | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | 28 Chwefror 2017 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | awdurdod gweithredol neu fwrdd y cyngor yn ei gyflwyno. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn cael ei hystyried ar y lefelau uchaf o fewn y sefydliadau hyn." | | | | | |
| 23 | **Achos Busnes Llawn ar gyfer Ysgol newydd Bro Rhosyr/Bro Aberffraw**<br><br>Cymeradwyo'r achos busnes. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 24 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd**<br><br>Cymeradwyo strategaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith Llawn o ran strategaeth trawsnewid y gwasanaeth Llyfrgelloedd. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 6 Chwefror 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 25 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Ieuenctid** | Gofynnir am benderfyniad y Pwyllgor Gwaith Llawn ynglyn a'r model gweithredu ffafredig i'r gwasanaeth ieuenctid o Ebrill 2017. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 22 Tachwedd 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2016 | |

Tudalen 23

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mawrth 2017** | | | |
| 26 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2016/17 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | 13 Mawrth 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 28 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2016/17 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 13 Mawrth 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2016 | |
| 29 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag Taliadau Tai 2017/18**<br><br>Adroddiad ar weithredu'r polisi yn 2016/17 ac unrhyw newidiadau i'w hargymell – pennu polisi. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn manylu'r gefnogaeth ychwanegol at gostau tai i rai hawlwyr budd-dal. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 30 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn** | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith gan fod yr arolwg wedi edrych ar y modd y mae nifer o wasanaethau yn darparu gofal a chefnogaeth i blant, pobl ifanc a'u gofalwyr. | Gwasanaethau Plant | Llyr Bryn Roberts<br>Pennaeth Interim – Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Aled Morris Jones | 13 Mawrth 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 31 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – Asedau Treftadaeth** | Gofynnir am gytundeb y Pwyllgor Gwaith i'r argymhellion a gynigir gan y Bwrdd Trawsnewid Diwylliant. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 16 Chwefror 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| | | | | **Ebrill 2017** | | | |
| 32 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ebrill 2017 | |
| | | | | **Mai 2017** | | | |
| 33 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>…Mai 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2016 – Gorffennaf 2017

Diweddarwyd: 18 Tachwedd 2016

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2016/17 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2017 | |
| 35 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2016/17 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2017 | |
| | **Mehefin 2017** | | | | | | |
| 36 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>…Mehefin 2017 | |
| | **Gorffennaf 2017** | | | | | | |
| 37 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>…Gorffennaf 2017 | |

Tudalen 26

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **28 TACHWEDD 2016** |
| **PWNC:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2017/2018** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN: E-BOST: | **GERAINT H JONES (RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651 ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

**1.** Nodi cyfrifiad sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn 2017/18, sef 30,735.70, (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth at y diben yma - Rhan E6).

**2.** Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni dros y flwyddyn 2017/18 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

**3.** Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2017/18 sef 30,794.83 ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---:|
| Amlwch | 1,476.75 |
| Biwmares | 1,066.68 |
| Caergybi | 3,810.66 |
| Llangefni | 1,928.63 |
| Porthaethwy | 1,413.85 |
| Llanddanielfab | 372.16 |
| Llanddona | 366.05 |
| Cwm Cadnant | 1,150.08 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,311.96 |
| Llanfihangel Esceifiog | 680.63 |
| Bodorgan | 446.64 |
| Llangoed | 648.43 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 608.48 |
| Llanidan | 412.75 |
| Rhosyr | 991.35 |
| Penmynydd | 235.22 |
| Pentraeth | 558.84 |
| Moelfre | 625.35 |
| Llanbadrig | 667.73 |
| Llanddyfnan | 498.77 |

| | |
|---|---:|
| Llaneilian | 554.32 |
| Llannerchymedd | 510.62 |
| Llaneugrad | 185.26 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,778.79 |
| Cylch y Garn | 405.67 |
| Mechell | 535.65 |
| Rhosybol | 467.18 |
| Aberffraw | 299.58 |
| Bodedern | 428.35 |
| Bodffordd | 426.99 |
| Trearddur | 1,293.84 |
| Tref Alaw | 245.15 |
| Llanfachraeth | 225.49 |
| Llanfaelog | 1,262.29 |
| Llanfaethlu | 289.70 |
| Llanfair-yn-neubwll | 565.93 |
| Y Fali | 970.49 |
| Bryngwran | 355.78 |
| Rhoscolyn | 359.49 |
| Trewalchmai | 363.29 |

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2017/18 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2016 a chrynhoir gan yr Awdurdod tan rhan 22B(7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, fel yr ychwanegwyd gan Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2017/18.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi trethi a phraeseptau erbyn 31 Rhagfyr 2016. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cymorth Refeniw erbyn 23 Tachwedd 2016 ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 4 Ionawr 2017.

Mae'r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer Dosbarthiadau A, B a C ar gyfer 2017/18 gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2017 ac yn cymryd i ystyriaeth penderfyniad y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2016 i godi premiymau o 25% ar dai gwag ac ail dai perthnasol ar gyfer 2017/18. Mae'r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn gadarnhau yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2016 y bydd y Cynllun lleol cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau fel y mae ar gyfer 2017/18. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU ond bydd costau oherwydd baich achosion ac/neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

**SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO'R GRANT CYNNAL REFENIW**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu, ac sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2017/18. **OND**, bydd y cyfanswm yma, sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw, **yn eithrio'r addasiadau am bremiymau.** Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 30,735.70 (i'w gymharu efo 30,708.93 am 2016/17).

**SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU'R DRETH**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu'r dreth, wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy'n parhau i fod yn 1.5% a hefyd, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 30,794.83. **Nodir, felly, bod y ffigurau a nodir tan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.**

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2017/18 at ddiben pennu'r dreth yw 30,794.83. Mae hyn yn cymharu efo 30,250.23 am 2016/17 ac yn gynnydd o 1.8%.

Mae 1.7% o'r cynnydd yma i lawr i effaith codi premiwm o 25% ar dai gwag ac ail gartrefi perthnasol. Mae gweddill y cynnydd o 0.1% i lawr i addasiadau arferol ar gyfer eiddo newydd a fydd wedi eu cwblhau a phobl wedi symud i mewn iddynt, gydag addasiadau ar gyfer eithriadau a disgowntiau.

O ganlyniad i'r cynnydd o 1.7% yn sylfaen y dreth am 2017/18, sydd i lawr i effaith codi premiwm o 25%, rhagwelid bydd hyn yn codi incwm ychwanegol (gan gymryd i ystyriaeth cynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor) yn agos i £567k (518.29 x £1,093.30 (y band D ddisgwyliedig i Gyngor Sir Ynys Môn am 2017/18 wedi cymryd i ystyriaeth cynnydd o 3%) = £566,646. Rhaid nodi hefyd bod addasiad i lawr o 30% wedi cael ei wneud i'r ffigurau ar yr eiddo perthnasol, wrth amcangyfrif beth fydd effaith codi premiymau o 25% ar sylfaen y dreth. Rhagdybir bod hyn yn ddigon o addasiad o ran cywirdeb ein ffigurau parthed tai gwag ac ail gartrefi lle bydd y premiymau yn berthnasol.

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gofyn am iddo gael adroddiad yn Ionawr 2017 ar sut bydd yr incwm ychwanegol yn cael ei wario.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i'r dosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o dai gwag tymor hir) a hynny am y tro cyntaf ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.

Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn a gwrthodwyd yr opsiwn.

Mae'r Cyngor llawn, ar 10 Mawrth 2016, wedi gwneud penderfyniad i godi premiymau o 25% ar eiddo gwag ac ail dai perthnasol. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yma.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau ( a phremiymau yn y dyfodol) a phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r modd y cafodd y sylfaen ar gyfer y dreth ei gweithio allan yn cymryd i ystyriaeth yn llawn y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ynghylch caniatáu disgownt i ddosbarthiadau penodedig A, B a C ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.

Mae'r Cyngor llawn, ar 10 Mawrth 2016 wedi gwneud ei benderfyniad i godi premiymau o 25% ar eiddo gwag ac ail dai perthnasol. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yma.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2017/18

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim Sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | Efallai na fydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn ddigon cywir h.y. eithriadau a disgowntiau wedi cael eu gweithio allan yn anghywir, amcangyfrif anheddau sy'n gymwys i godi premiymau 25% arnynt yn anghywir, y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yn 2017/18 yn anghywir, megis tanamcangyfrif erydiad yn sylfaen y dreth dros y blynyddoedd, e.e. gostyngiadau bandio a chyfraddau casglu sy'n rhy optimistaidd. Y risg i'r Cyngor fyddai diffyg o ran faint o'r Dreth Gyngor y byddai'n ei chasglu yn ystod y flwyddyn.<br><br>Ceisir lliniaru hyn drwy gymryd ymagwedd geidwadol wrth amcangyfrif nifer yr anheddau newydd a'r rhai lle gellir codir premiwm arnynt, a thrwy wneud lwfans ar gyfer erydiad yn sylfaen y dreth a'r gyfradd gasglu. |

| F - | Atodiadau: |
|---|---|
| | Atodiad A: Cyfrifiad ar gyfer Sylfaen y Dreth Leol 2017/18 |

| FF - | Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|---|
| | Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1) 2017/18 |

**ATODIAD A**

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2017/18

| | BAND | A * | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | | 4,546 | 6,599 | 6,511 | 7,056 | 5,318 | 2,554 | 1,029 | 158 | 48 | 33,819 |
| **A.2** | Anheddau sy’n derbyn gostyngiad anabledd | | 18 | 40 | 46 | 89 | 77 | 50 | 16 | 10 | 6 | 352 |
| **A.3** | Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi’i addasu | 18 | 4,568 | 6,605 | 6,554 | 7,044 | 5,291 | 2,520 | 1,023 | 154 | 42 | 33,819 |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 10 | 1,772 | 3,635 | 3,856 | 4,436 | 3,652 | 1,879 | 751 | 104 | 28 | 20,123 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ag eithrio eiddo gwag ac ail gartrefi heb ddisgownt) | 8 | 2,591 | 2,726 | 2,283 | 2,111 | 1,257 | 447 | 169 | 23 | 4 | 11,619 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ag eithrio eiddo gwag ac ail gartrefi heb ddisgownt) | 0 | 5 | 4 | 13 | 17 | 15 | 4 | 10 | 4 | 0 | 72 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ag eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag neu ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag neu ail gartref | 0 | 200 | 240 | 402 | 480 | 367 | 190 | 93 | 23 | 10 | 2,005 |
| **B.4** | Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy | 18 | 4,568 | 6,605 | 6,554 | 7,044 | 5,291 | 2,,520 | 1,023 | 154 | 42 | 33,819 |

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2017/18

| | BAND | A * | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan C** | **CYFRIFIAD O ANHEDDAU SY'N DALADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU** | | | | | | | | | | | |
| **C.2** | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 16 | 3,968 | 5,982 | 6,077 | 6,628 | 5,061 | 2,454 | 999 | 152 | 44 | |
| **C.3** | Cymhareb â Band D | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 1 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| **C.4** | Cyfwerthoedd Band D (wedi'u talgrynnu i ddau le degol) | 8.89 | 2,645.17 | 4,652.28 | 5,402.00 | 6,627.75 | 6,185.67 | 3,544.31 | 1,665.00 | 304.00 | 101.50 | 31,136.57 |
| **C.5** | Cyfanswm yr anheddau disgowntedig ag eithrio addasiad premiwm | 16 | 3,918 | 5,922 | 5,977 | 6,508 | 4,969 | 2,406 | 976 | 146 | 41 | |
| **C.6** | Cyfwerthoedd Band D ag eithrio addasiad premiwm | 8.89 | 2,611,83 | 4,605.61 | 5,312.67 | 6,507.75 | 6,073.53 | 3,475.69 | 1,626.25 | 292.50 | 95.67 | 30,610.39 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO'R SYLFAEN DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| **E.1** | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D | | | | | | | | | | | 31,136.57 |
| **E.2** | Cyfradd gasglu (wedi'i thalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.5% |
| **E.3** | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 30,669.52 |
| **E.4** | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amffiddyn) | | | | | | | | | | | 125.31 |
| **E.5** | Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth | | | | | | | | | | | 30,794.83 |
| **E.5a** | Anheddau disgowntiedig sydd yn daladwy ag eithrio addasiad premiwm | | | | | | | | | | | 30,610.39 |
| **E.6** | 100% o sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r grant cynnal | | | | | | | | | | | 30,735.70 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **28 TACHWEDD 2016** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES<br>(DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES, PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GERAINT H. JONES<br>(RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651<br>ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (Cyngor llawn) yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2016 na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i newid am gynllun arall.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2016 y dylid mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2016 ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) (Swyddog Adran 151) i wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Gweler yr adroddiad ynghlwm - **Atodiad A**

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Gweler yr adroddiad ynghlwm - **Atodiad A**

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae Rheoliadau yn nodi bod hyn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2017/18 y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo yn gyson â'r cynlluniau a gymeradwywyd yn flynyddol gan y Cyngor llawn yng nghyswllt y Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sydd mewn grym ers y flwyddyn ariannol 2014/15.

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae'r Setliad Drafft Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru 2017/18 wedi ein cyrraedd ar 19 Hydref 2016 ac mae'r Setliad Drafft yn dyfarnu'r Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2017/18 o £5,165,000 (i'w gymharu efo £5,099,000 am 2016/17). Mae'r rhagamcaniadau isod wedi eu gwneud yn seiliedig ar y grant o dan y Setliad Drafft am 2017/18.<br><br>Y gwariant cyfredol (diwedd Chwarter 2, 2016/17 yw £5,374,694), efo Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru yn erbyn y gwariant o £5,165,000. Mae hyn yn rhoi diffyg tybiedig oddeutu £210k i'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano yn 2017/18. Yn Nghyllideb Drafft y Cyngor am 2017/18 mae £500k wedi cael ei ddyfarnu i gwrdd â'r gost yma ac hefyd am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer drwgddyledion gor-daliadau budd-dal.<br><br>Bydd dau ffactor yn 2017/18 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-<br>• Rhwng Ebrill 2016 a Medi 2016 mae gostyngiad mewn llwyth achos o 1%, sy'n cymharu efo lleihad rhwng 1% - 2% yn ystod 2015/16 a 2% - 3% yn ystod 2014/15;<br>• Cynnydd a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor o 3.0% am 2017/18.<br><br>Un o'r ffactorau ansicr, adeg 2017/18, sy'n effeithio ar wariant o dan y cynllun yw effaith diwygiadau arfaethedig Canghellor y Trysorlys yn Natganiad yr Hydref ar 23 Tachwedd 2016 ac hefyd, o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref os bydd Llywodraeth Cymru yn uwchraddio neu ddim y ffigyrau ariannol ar gyfer ei reoliadau diwygiedig parthed y cynllun am 2017/18.<br><br>Gan ystyried yr uchod, ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,425,210 (gan dybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.0% a gostyngiad 2% mewn llwyth achos) ac, ar ei waethaf, y gwariant a amcangyfrifir o £5,535,930 (yn tybio 3.0% o gynnydd yn y Dreth Gyngor a na fydd gostyngiad llwyth achos).<br><br>Felly, disgwylir diffyg a amcangyfrifir o rwng £260k a £371k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn ail-fabwysiadu'r cynllun cyfredol heb ei newid. Serch hynny, bydd maint y diffyg yn fwy amlwg wrth i'r broses gosod y gyllideb mynd ymlaen. |

| DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | Y brif risg i'r Cyngor yw costau ychwanegol ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor all fod yn uwch na grant Llywodraeth Cymru am 2017/18. Nid oes gan y Cyngor reolaeth ar newidiadau yn y llwyth achosion a phe bai yn cynyddu, bydd costau'r Cyngor hefyd yn cynyddu o ganlyniad. Byddai 1% o gynnydd yn y llwyth achos yn gosod pwn ychwanegol o oddeutu £55,000 ar yr Awdurdod.<br><br>Mae'r effaith Datganiad yr Hydref Canghellor y Trysorlys ar hyn o bryd yn ansicr. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad i'r Cyngor llawn i'w ystyried 15 Rhagfyr 2016.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **15 RHAGFYR 2016** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MARC JONES**<br>**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **GERAINT JONES**<br>**RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU (EST. 2651)** |
| **GWEITHREDU :** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR AM 2017/18** |

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

**1.1** Mae'r adroddiad yn egluro'r angen i fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2017 yng nghyswllt 2017/18.

**2. Gwybodaeth Cefndirol**

**2.1** Mabwysiadodd y Cyngor llawn ar 9 Rhagfyr 2015 ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am flwyddyn ariannol 2016/17. Mae angen i'r Cyngor llawn ystyried, yn unol â Rhan 2, Rheoliad 18 o "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) Rheoliadau 2013 Rhif. 3029 (W.301) (y Rheoliadau) ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a ddylai adolygu ei gynllun neu ei ddisodli gyda Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arall. Rhaid i'r Cyngor llawn wneud unrhyw newid i'w gynllun, neu unrhyw gynllun newydd yn ei le, heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol cyn yr un y bydd yn newid neu'r cynllun newydd yn dod i rym.

**2.2** Fe wnaeth y Cyngor llawn, o dan y cynllun cyfredol, fabwysiadu'r Rheoliadau yn ffurfiol fel ei gynllun a, chan ddefnyddio'i bwerau dewisol, fe benderfynodd ddefnyddio disgresiwn lleol i fabwysiadu Pensiwn Anabledd Rhyfel Lleol a Chynllun Dewisol Pensiwn Gweddwon Rhyfel yn unol â'r Rheoliadau. Fe welir manylion yn y cynllun cyfredol o'r elfennau nad ydynt yn cael eu cyfrif fel incwm i bwrpas y disgresiwn lleol hwn. Mae hwn yn darparu cymorth Y Dreth Gyngor ychwanegol at yr hyn y mae'n rhaid ei dalu'n statudol dan y Rheoliadau. Hwn yw'r unig ddisgresiwn lleol a roddir gan y Cyngor llawn dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Leol cyfredol.

**2.3** Rhaid i'r Cyngor llawn hefyd roi sylw i Reoliad 17 y Rheoliadau pan fydd yn adolygu neu'n newid cynllun. Os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu adolygu neu newid ei gynllun, rhaid iddo gyhoeddi cynllun drafft o'r adolygiad mewn ffordd y mae'n credu sy'n addas a rhaid iddo ymgynghori gyda phobl a fydd, yn ei dyb ef, â diddordeb yng ngweithrediad ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw ofyniad i ymgynghori'n flynyddol, dim ond pan fydd cynllun yn cael ei adolygu neu ei newid y bydd yn rhaid cynnal ymgynghoriad.

**2.4** Am 2017/18, nid yw Llywodraeth Cymru yn adolygu nac yn newid y Rheoliadau ond, fel ar gyfer 2016/17, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rheoliadau diwygiedig i uwchraddio'r ffigurau ariannol a ddefnyddir yn y Rheoliadau ac er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau technegol eraill fydd eu hangen o ganlyniad i newidiadau i fudd-daliadau. Unwaith yn rhagor, yr un modd â 2016/17, bydd amseriad y rheoliadau diwygiedig hynny yn dibynnu ar Ddatganiad Hydref Canghellor y Trysorlys (23 Tachwedd 2016) a'r atodlen uwchraddio ddilynol a gyhoeddwyd gan yr Adran am Waith a Phensiynau ychydig ddyddiau ar ôl Datganiad yr Hydref. Y dyddiad cynharaf y gall Llywodraeth Cymru bennu'r Rheoliadau drafft newydd sy'n adlewyrchu'r uwchraddiad i'r ffigyrau ariannol neu unrhyw newid technegol arall gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw yn gynnar mis Rhagfyr 2016. Rhaid rhoi'r rheoliadau hyn gerbron ar ffurf ddrafft am 20 diwrnod gwaith heb gyfrid dyddiau gwyliau a chael trafodaeth lawn cyn iddynt ddod i rym. Ar gyfer 2016/17, ni ddaeth y rheoliadau diwygiol hyn i rym hyd 20 Ionawr 2016 a disgwylir y bydd amserlen debyg yn berthnasol ar gyfer 2017/18.

**2.5** Gan fod y Cyngor llawn yn cyfarfod ar 15 Rhagfyr 2016 i benderfynu ar ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol am 2017/18, cynigir bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a (Swyddog Adran 151) yn cael yr awdurdod i wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiadau technegol yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.

## 3. Adolygu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol

**3.1** Yn **Atodiad B** rhoddir gwybodaeth, ystadegau a gwerthoedd i'r Cyngor llawn ynglŷn ag effaith ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2016/17. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol yn y dyfodol i'r Cyngor llawn wrth iddo ystyried a ddylai adolygu neu newid ei gynllun cyfredol, i'r graddau:-

- Y gall ddefnyddio'r data hwn i fesur patrymau (a oedd yn gywir ar 30 Medi 2016) yn erbyn y waelodlin (yn gywir yn Rhagfyr 2012) pan gynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran nodweddion a ddiogelir ac achosion o freguster. Mae'r patrymau yma yn cael eu mesur yn flynyddol pob Medi (rhoddwyd data tebyg i'r Cyngor llawn wrth ystryied ei gynllun am 2016/17);

- Er mwyn dechrau deall yr effaith gaiff y cynllun ar drigolion yr Ynys mewn perthynas ag oed, pobl anabl, rhyw a chenedl;

- I'r dyfodol, i hysbysu dealltwriaeth y Cyngor llawn o gostau tebygol gwahanol gynlluniau posibl ac o gostau tebygol rhoi diogelwch llawn neu rannol i rai grwpiau penodol o gleientiaid a phobl fregus. Ar hyn o bryd, rhaid darparu 100% o ostyngiad dan y Rheoliadau (os yn gymwys) ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bydd y trefniadau yma yn parhau am 2017/18 ond bydd adolygiad o hyn yn cael ei ystyried o Ebrill 2018 ymlaen. Nid yw darparu 100% o ostyngiad yn gynaliadwy yn y tymor hwy, y bydd angen mae'n debyg i'r rhai sy'n derbyn Gostyngiad rhannol yn y Dreth Gyngor dalu mwy ac y bydd rhaid i'r rhai sydd ar hyn o bryd yn derbyn gostyngiad 100% gyfrannu am y tro cyntaf tuag at gostau'r Dreth Gyngor ar ôl Ebrill 2018.

**3.2** Ers y data gwaelodlin a sefydlwyd yn Rhagfyr 2012, gellir nodi'r patrymau canlynol ar yr Ynys yng nghyswllt ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor:-

- **Llwyth Achosion:** mae'r lleihad yn y llwyth achosion yn parhau ac yn ddiweddar ar raddfa uwch nag ar yr un cyfnod y llynedd. Rhwng Rhagfyr 2012 i Medi 2014 gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y llwyth achosion o 6.3% (6,960 i lawr i 6,525). Yn ystod y cyfnod blynyddol o Fedi 2014 i fyny at Medi 2015, syrthiodd y llwyth achosion pellach gan 1.8% i lawr i 6,410 ac o Fedi 2015 i Fedi 2016 syrthiodd y llwyth achosion eto gan 2.5% i lawr i 6,252;

- **Llwyth Achosion:** mae'r nifer hawliadau wedi'u Pasportio h.y. hawlwyr sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorth Incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm, wedi syrthio o 69.7% i 69.5% o'r llwyth achosion yn ystod y 12 mis i fyny at Medi 2016. Mae hawliadau sydd heb eu Pasportio, h.y. hawlwyr safonol, wedi codi o 30.3% i 30.5%. Am hawlwyr safonol rhaid i'r awdurdod lleol ddilysu incwm. Mae'r hawlwyr yma fel arfer mewn gwaith ar lefel incwm sy'n gymwys i gael gostyngiad llawn neu'n rhannol neu'n bensiynwyr efo cynilon ac incwm eraill;

- **Oed:** roedd y dadansoddiad yn Rhagfyr 2012 yn awgrymu ychydig o gynnydd o ran nifer yn yr hawliadau gan bobl o Oedran Gweithio o gymharu â hawliadau gan Bensiynwyr (rhaniad 51.5%/48.5%). Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu rhyw fymryn (rhaniad 51.7%/48.3%) efo'r un patrwm erbyn Medi 2015 (52.7%/47.3%). I fyny at Medi 2016 mae'r cynnydd wedi sefydlogi ac yn dangos rhaniad 51.9%/48.1%;

- **Oed:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd â phlant yn hawlio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn Rhagfyr 2012 yn 21.9% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu i 24.2% ac erbyn Medi 2015 arhosodd yn weddol sefydlog ar 24.1% ond erbyn Medi 2016 mae wedi syrthio i 23.2%;

- **Anabledd:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd sy'n derbyn Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lle derbyniwyd taliadau anabledd penodol (sef Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig neu Uchel), Lwfans Gweini, Cyfran Cefnogaeth o Lwfans Cefnogaeth Cyflogaeth, Budd-dal Analluogrwydd a Thaliadau Annibyniaeth Personol) yn Rhagfyr 2012 yn 39.3% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014, roedd wedi mynd i lawr i 34.8%. Bu'r patrwm dros y 12 mis diwethaf ei ôl-droi, efo 37.0% o aelwydydd yn cael gostyngiad ac mae'r patrwm yma, lle mae taliadau anabledd penodedig yn cael eu derbyn, yn parhau efo cynnydd i fyny at 39.8% o'r achos llwyth;

- **Rhyw:** roedd yr achosion a oedd yn ymwneud â rhieni sengl a oedd yn ferched yn Rhagfyr 2012 yn 92.5% (13.3% o'r llwyth achosion). Erbyn Medi 2014, roedd yn 92.3% (14.3% o'r llwyth achosion) ac, erbyn Medi 2015, roedd yn 92.1% (13.2% o'r llwyth achosion). Ym Medi 2016 saif y ffigwr yn 91.1% (14.2% o'r llwyth achosion);

- **Hîl:** Ym mis Rhagfyr 2012, fe gyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ei Chyfrifiad ar gyfer Mawrth 2011 a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth yn Ynys Môn. Gofynnir i'r holl hawlwyr sy'n cwblhau ffurflen gais Gostyngiad y Dreth Gyngor gwblhau arolwg ethnig gwirfoddol. (Gweler Tabl 6 yn Atodiad B am ddadansoddiad yn seiliedig ar yr arolwg gwirfoddol o gymharu â ffigyrau Cyfrifiad Mawrth 2011).

**3.3** Am y 6 mis cyntaf yn 2016/17, roedd 693 o hawlwyr Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd wedi eu prosesu (i'w gymharu â 782 am yr un cyfnod y llynedd) gyda 11,006 o newidiadau mewn amgylchiadau wedi'u prosesu (i'w gymharu â 8,594 am yr un cyfnod y llynedd). Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau oedd 6.2 diwrnod o fewn y cyfnod hwn (am y un cyfnod y llynedd yr amser ar gyfartaledd oedd 6.4 diwrnod).

## 4. Adolygu'r cynllun cyfredol – Disgresiwn Lleol

**4.1** Gan nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau, ar wahân i uwchraddiadau ariannol a newidiadau technegol sy'n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau, yr unig ystyriaethau sydd ar gael i'r Cyngor llawn i'w hadolygu ac i benderfynu arnynt yw ym maes y disgresiwn lleol a ganiateir dan y Rheoliadau. O dan y Rheoliadau, mae gan y Cyngor lleol ddisgresiwn llawn yn y meysydd hyn yn unig:-

- Y gallu i gynyddu'r cyfnod gostyngiad estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bersonau ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, lle y maent eisoes wedi bod yn derbyn gostyngiadau'r dreth gyngor a ddaw i ben wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith, h.y. **"Cyfnod Talu Estynedig";**

  Mae'r costau uwch a amcangyfrifir am 2017/18 yn gysylltiedig ag ymestyn y cyfnod statudol estynedig yn amrywio rhwng £7,750 am bythefnos hyd at £22,770 am 6 wythnos y tu hwnt i'r 4 wythnos safonol. O dan y rheolau blaenorol ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor, nid oedd unrhyw ddarpariaeth arbennig yn bodoli i ganiatáu ar gyfer hyn a wnaeth y Cyngor ddim defnyddio'r disgresiwn hwn pan gyflwynwyd Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Argymhellir felly na ddylid adolygu'r cynllun ac ymestyn y cyfnod talu am 2017/18.

- Disgresiwn i gynyddu swm y Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel a fydd yn cael ei ddiystyru wrth weithio allan incwm yr hawliwr, h.y. **"Gweddwon Rhyfel"**;

  Mae gan y Cyngor llawn eisoes gynllun lleol sy'n caniatáu hyblygrwydd ychwanegol yn y maes hwn. Argymhellir y dylai hyn barhau. Amcangyfrifir y bydd y gost i'r Cyngor yn £21,750 yn 2016/17. Argymhellir, felly, bod y swm ychwanegol sy'n cael ei ddiystyru dan y cynllun lleol cyfredol yn parhau heb ei ddiwygio am 2017/18.

- Y gallu i ôl-ddyddio'r Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o safbwynt hawliadau hwyr cyn y cyfnod safonol o dri mis cyn yr hawliad, h.y. **"Ôl-ddyddio Hawliadau"**.

  Mae'r Cyngor llawn bob amser wedi bod o'r farn bod 3 mis yn gyfnod digonol i ganiatáu ôl-ddyddio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i hawliadau gan bensiynwyr a rhai o oed gweithio. Mae'r Cyngor llawn o'r farn bod digon o rwydweithiau cefnogaeth ar gael i hawlwyr. Mae yna lawer iawn o ansicrwydd am y gost debygol pe bai cynllun lleol o'r fath yn cael ei fabwysiadu ac argymhellir, felly, na ddylid adolygu'r cynllun drwy ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio y tu hwnt i 3 mis yn ystod 2017/18.

**4.2** Dylid nodi nad oes unrhyw arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau dewisol hyn.

**4.3** O dan Atodiad 1 ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2016/17, mae'r Cyngor llawn yn manylu ar y weithdrefn lle y gall hawlwyr newydd wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun. Isod ceir dadansoddiad o'r dull ymgeisio a ddefnyddir gan hawlwyr newydd am y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor rhwng 1 Ebrill 2016 a 30 Medi 2016:-

| | | Dull Ymgeisio | Nifer | Canran (%) |
|---|---|---|---|---|
| **A.** | **Ceisiadau electronig** | | | |
| | **i.** | Drwy apwyntiad/hunan gymorth yn y Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Llangefni | 148 | 21.4 |
| | **ii.** | Drwy apwyntiad/hunan gymorth yng Nghyswllt Môn, Llangefni (agorwyd ar 29 Medi 2016) | 2 | 0.3 |
| | **iii.** | Drwy apwyntiad dros y ffôn i'r Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Llangefni | 64 | 9.2 |
| | **iv.** | Drwy apwyntiad efo partneriaid cymeradwy efo hyfforddiant priodol | 37 | 5.3 |
| | **v.** | Ceisiadau ar-lein drwy'r wefan – hunan wasanaeth | 175 | 25.3 |
| | **vi.** | Dogfennau mewnbwn yr Adran Gwaith a Phensiynau | 47 | 6.8 |
| **B.** | **Ceisiadau ar bapur** | | 1 | 0.1 |
| **C.** | **Dull yr ymgeisio ddim yn wybyddus gan na chafodd ei gofnodi'n briodol** | | 219 | 31.6 |
| | **CYFANSWM** | | **693** | **100** |

Argymhellir hefyd bod y gweithdrefnau hyn yn parhau'r un fath ac nad ydynt yn cael eu hadolygu ar gyfer 2017/18 (heblaw am y weithdrefn o dderbyn “llofnod electronig” wrth hawlio trwy ddull electronig bydd yn cael ei chyflwyno cyn diwedd Rhagfyr 2016 ac am y gweithdrefnau sydd raid eu gwneud wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol i ambell hawliwr o hyn ymlaen). Mae staff hefyd wedi cael eu atgoffa i ddynodi, mewn pob achos, y ddull o ymgeisio o fewn ein cofnodion.

## 5. Goblygiadau Ariannol a Risg

**5.1** Nid yw’r Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru 2017/18 yn debygol o gyrraedd tan 21 Rhagfyr 2016 ac felly, ni wn (adeg ysgrifenni’r adroddiad hwn) beth fydd y dyfarniad Grant Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor terfynol i’r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor am 2017/18. Mae’r rhagamcaniadau isod wedi eu gwneud yn seiliedig ar y Setliad Drafft 2017/18 a gyhoeddwyd ar 19 Hydref 2016. Y gwariant cyfredol (diwedd Chwarter 2, 2016/17 yw £5,374,694), efo Grant Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru yn erbyn y gwariant o £5,099,000 am 2016/17. Mae hyn yn rhoi diffyg tybiedig o £210k i’r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano yn 2017/18. Yn Nghyllideb Drafft y Cyngor am 2017/18, mae £500k wedi cael ei ddyfarnu i gwrdd â’r gost yma ac hefyd am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer ddrwgddyledion gor-daliadau budd-dal.

**5.2** Bydd dau ffactor yn 2017/18 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-

- Rhwng Ebrill 2016 a Medi 2016 mae gostyngiad mewn llwyth achos o 1%, sy’n cymharu efo lleihad rhwng 1% - 2% yn ystod 2015/16 a 2% - 3% yn ystod 2014/15;

- Cynnydd a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor o 3.0% am 2017/18.

Un o’r ffactorau ansicr, yn ystod 2017/18, sy’n effeithio ar wariant o dan y cynllun yw effaith diwygiadau arfaethedig Canghellor y Trysorlys yn Natganiad yr Hydref ar 23 Tachwedd 2016 ac hefyd, o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref, os bydd Llywodraeth Cymru yn uwchraddio neu ddim y ffigyrau ariannol ar gyfer ei reoliadau diwygiedig parthed y cynllun am 2017/18.
.

**5.3** Gan ystyried yr uchod, ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,425,210 (gan dybio gostyngiad 2% mewn llwyth achos a 3.0% cynnydd yn y Dreth Gyngor) ac, ar ei waethaf, y gwariant a amcangyfrifir o £5,535,930 (yn tybio na fydd gostyngiad llwyth achos a 3.0% o gynnydd yn y Dreth Gyngor).

**5.4** Felly, disgwylir diffyg a amcangyfrifir o rwng £260k a £371k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i’r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i’r Cyngor llawn ail-fabwysiadu’r cynllun cyfredol heb ei newid. Serch hynny, bydd maint y diffyg yn fwy amlwg wrth i’r broses gosod y gyllideb fynd ymlaen.

## 6. Goblygiadau Cyfreithiol

**6.1** Mae’n ofynnol i’r Cyngor sefydlu Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor o dan y Rheoliadau Anghenion Rhagnodedig. Er bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynllun arall i’w ddefnyddio pe na bai’r Cyngor yn sefydlu cynllun, mae’r Cyngor, er hynny, â dyletswydd statudol i fabwysiadu ei gynllun ei hun, hyd yn oed pe bai’n dewis peidio â gosod unrhyw un o’r elfennau dewisol.

## 7. Goblygiadau Cydraddoldeb

**7.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn dilyn ei ymgynghoriad ar gyfer y Rheoliadau gwreiddiol yn 2012. Mae asesiad lleol o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gynnal ar ran y Cyngor mewn trefniadau ar y cyd ar draws Cymru hefyd mewn perthynas â Rheoliadau 2012 (Rhagfyr 2012, cyhoeddwyd Mawrth 2013) a chafodd hwn ei ddiweddaru ym Medi 2014, Medi 2015 a diweddariad pellach Medi 2016 fel y gwelir yn **Atodiad B**.

## 8. Goblygiadau'r Iaith Gymraeg

**8.1** Mae'r prif reoliadau a rheoliadau diwygiedig Cynulliad Cymru yn ddwyieithog. Mae Cynllun y Cyngor ei hun yn ddwyieithog ac mae ffurflenni hawlio, naill a'i trwy ddulliau electronig neu trwy bapur, yn ddwyieithog. Mae'n bartneriaid cymeradwy wedi cael eu hannog i roi gwasanaeth dwyieithog ac mae'n gwasanaeth hawlio hunan wasanaeth yn hollol ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth i hawlio tros y ffôn neu drwy apwyntiad efo staff y Cyngor hefyd yn hollol ddwyieithog.

**8.2** Mae holl ohebiaeth parthed rhybuddion gwobrwyo Gostyngiad y Dreth Gyngor yn ddwyieithog ac mae'r gwasanaeth yn medru siarad a gohebu yn yr iaith mae'r cwsmer yn ei ddewis. Serch hynny, mae meddalwedd gweinyddu'r Cynllun yn yr uniaith Saesneg (does dim dewis gwahanol ar gael yn y farchnad). Mae'r ohebiaeth fewnol rhwng y Cyngor â'r Adran am Waith am Phensiynau, gan amlaf, yn uniaith Saesneg ond mae ffurflenni hawlio trwy'r Gymraeg ar gael o'r Adran am Waith a Phensiynau.

## 9. Goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**9.1** Wrth ddrafftio'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2017/18, cymerwyd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut mae'r Cynllun yn cefnogi'r nodau llesiant. Pwrpas y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw rhoi'r gallu i bobol oedran gwaith a phensiynwyr sydd ar incwm isel i gwrdd â'u costau Treth Gyngor. O dan y Cynllun rhoddir cymorth ychwanegol i bensiynwyr a phobol anabl trwy ddiystyru lefel uwch o incwm a hefyd, gosod y lefel incwm disgwylir pensiynwyr a phobol anabl i fyw arno, cyn dechrau colli ar yr hyn sy'n cael eu talu fel gostyngiad, ar lefel uwch na phobol oedran gwaith. Mae hyn yn cyd-fynd efo un o brif nodweddion diwygio lles bod hi'n fwy manteisiol o fod mewn gwaith nac allan o waith.

**9.2** Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi gostyngiad ychwanegol parthed cwsmeriaid sy'n derbyn pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel.

**9.3** Mae'r Cynllun yn cyfrannu at y nodau llesiant o Gymru lewyrchus, Cymru sy'n iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru o gymunedau cydlynus.

## 10. Dogfennau Cefndirol

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (W.301)

Y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynlluniau diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2017 Rhif ???? (W ???)

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru: Cymariaethau o fewn Cymru o Nodweddion a Ddiogelir ac Amlder bregus rwydd Mawrth 2013 - Simon Horsington and Associates Ltd, 2013 wedi ei diweddaru Medi 2014, Medi 2015 a Medi 2016)

**11. Argymhellion**

- Nad yw’r Cyngor llawn yn adolygu nac yn disodli ei Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor cyfredol gyda chynllun arall;
- Bod y Cyngor llawn yn ffurfiol yn mabwysiadu’r Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor cyfredol am flwyddyn ariannol 2017/18 **(gweler Atodiad A);**
- Bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod yn rhoi awdurdod i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) (Swyddog Adran 151) wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu ddiwygiadau technegol mewn unrhyw reoliad neu reoliadau sy’n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor y Cyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.

**GERAINT JONES**
**RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU** **26 HYDREF 2016**

ATODIAD A

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2017/18

# Cynllun Penodedig ar gyfer Hawlwyr sy'n Bensiynwyr a phobl nad ydynt yn Bensiynwyr

**Rhagarweiniad**

Ers 1 Ebrill 2013, mae Budd-dal y Dreth Gyngor, sef dull o gynorthwyo teuluoedd incwm isel gyda'u Dreth Gyngor, wedi cael ei ddiddymu. Cafodd ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Ar 19 Rhagfyr 2012, gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef "Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (C.316)" **(Rheoliadau Rhagnodedig)** a "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 Rhif 3145 (C.317)" **(Rheoliadau Diofyn)**. Ar 22 Ionawr 2013, gwnaed rheoliadau diwygiedig pellach gan Lywodraeth Cymru "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn)(Cymru)(Diwygio) 2013 **(Rheoliadau Diwygiedig).**

Roedd y Rheoliadau Rhagnodedig yn cynnwys cymal machlud. O ganlyniad i'r cymal yma, roedd y rheoliadau a nodwyd uchod ond yn berthnasol am y flwyddyn ariannol 2013/14. Dan y cymal yma roedd yn ofynnol i adolygu'r rheoliadau a dod a rhai newydd ymlaen erbyn 1 Ionawr 2014 gan Weinidogion Cymru. Petai rheoliadau newydd ddim yn cael eu rhoi ymlaen erbyn y dyddiad yma, ni fyddai darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gweithredu yng Nghymru ar ôl 31 Mawrth 2014.

Ar 26 Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynlluniad Cymru ddwy set o reoliadau newydd : "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynlluniau Diofyn) (Cymru) 2013" **(Rheoliadau Cynllun Diofyn)** a'r "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013" **(Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig)**. Mae'r rhain ar gael ar :-

**Rheoliadau Cynllun Diofyn**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3035/contents/made

**Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3029/contents/made

**Rheoliadau Diwygiedig**

Ar ?? Ionawr 2017, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru set bellach o reoliadau diwygio, yn bennaf i uwchraddio'r ffigyrau ariannol yn unol â chynnydd yng nghostau byw ac i roi sylw i nifer o fân-bwyntiau technegol - "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a'r Cynlluniau Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2016" **(Rheoliadau Diwygio)**. Mae'r rhain ar gael ar :-

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/??/contents/made

Mae'r rheoliadau hyn felly yn pennu prif nodweddion y cynllun y dylai pob Cyngor yng Nghymru ei fabwysiadu. Felly, mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu cynllun. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2017 ar gyfer 2017/18 ymlaen.

Bydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn seiliedig ar Reoliadau Gofynion Rhagnodedig Llywodraeth Cymru (fel y diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hyn hefyd yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu cynllun sy'n cynnwys amrediad cyfyngedig o elfennau dewisol i ddarparu cefnogaeth bellach ar gyfer y Dreth Gyngor. Mewn achosion lle mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu elfennau dewisol ychwanegol, nodir yr elfennau dewisol hyn yn y ddogfen hon.

Oni fydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud cynllun erbyn 31 Ionawr 2017, yna daw'r cynllun diofyn i rym yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Cynllun Diofyn. Fodd bynnag, ni fedr Cyngor Sir Ynys Môn ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn oni bai ei fod yn mabwysiadu ei gynllun ei hun dan y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig.

**Gofynion y Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Cymeradwyodd cyfarfod o Gyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 15 Rhagfyr 2016 mewn perthynas â'r flwyddyn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2017. Mae'n nodi, yn unol â'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig:-

- Categorïau o bobl sydd â hawl neu sydd ddim â hawl i ostyngiad
- Y gostyngiadau y mae pobl ym mhob categori â hawl iddynt
- Gofynion gweithdrefnol y Cynllun:-

**1.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i ymgeisio am ostyngiad dan y cynllun.

**2.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod o ran hawl person i ostyngiad dan y cynllun neu swm unrhyw ostyngiad y mae gan y person hawl iddo.

**3.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i gyflwyno cais i awdurdod am ostyngiad dan adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Cynllun Lleol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ofynion fel y cânt eu nodi yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru sef "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (C.301)" (Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig) a'r "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2017 Rhif ?? (C. ?)". (Rheoliadau Diwygio). Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r rheoliad diwygio ar gael ar:-

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3029/contents/made

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/??/contents/made

I grynhoi:-

**Rhan 1 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig**

Mae'n cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y cynllun hwn.

**Rhan 2 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: gofynion y cynllun mewn perthynas ag awdurdodau bilio yng Nghymru (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Beth y mae'n rhaid i'r cynllun a fabwysiedir gan Gyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys - dosbarthiadau neu bersonau, gostyngiadau a gofynion gweithdrefnol y cynllun.

**Rhan 3 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: Dosbarthiadau o bersonau sydd â hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

**Pensiynwyr** sydd yng Nghategorïau A i B.

**Eraill nad ydynt yn bensiynwyr** sydd yng Nghategorïau C i D.

**Rhan 4 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: Dosbarthiadau o bobl na ddylid eu cynnwys dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Dosbarthiadau o bobl sydd i gael eu heithrio o'r cynllun hwn, gan gynnwys pobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt yn byw ym Mhrydain Fawr a phobl y mae rheolau mewnfudo'n berthnasol iddynt.

Personau y mae eu cyfalaf yn uwch na £16,000.

Personau sy'n absennol am gyfnod o eiddo.

Personau sy'n fyfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 1 i 5 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn yng nghyswllt pensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Yn Atodlenni 1 i 5 nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar hawl pensiynwyr i gael gostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad hwnnw dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y mae incwm a chyfalaf ar gyfer pensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl am ostyngiad dan y cynllun hwn.

**Rhan 5 ac Atodlenni 6 i 10 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Mae Atodlenni 6 i10 yn nodi'r rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwyster pobl nad ydynt yn bensiynwyr i ostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y bydd incwm a chyfalaf ar gyfer pobl nad ydynt yn bensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn, gan gynnwys mewn achosion lle mae person nad yw'n bensiynwyr neu ei b/phartner yn cael credyd cynhwysol.

**Atodlen 11 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Nodi'r darpariaethau ar gyfer defnyddio'r cynllun hwn yn achos myfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 12 i 14 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phob ymgeisydd h.y. pensiynwr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Mae Atodlen 12 yn ymwneud â materion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn. Mae'n disgrifio'r weithdrefn y dylai person ei dilyn wrth wneud cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Mae Atodiad 1 y cynllun hwn yn rhoi manylion ynghylch sut y gall person wneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn am ostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Mae Atodlen 12 hefyd yn disgrifio sut y gall person apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan Gyngor Sir Ynys Môn dan y cynllun hwn.

Gan fod Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig mewn perthynas â chyflwyno cais a rhoi gostyngiad, ceir yn Atodlen 12 fanylion am faterion y mae'n rhaid eu cynnwys dan y cynllun hwn.

Mae Atodlenni 13 a 14 yn disgrifio pwy a fedr wneud cais dan y cynllun hwn, dyddiad cyflwyno'r cais, ôl-ddyddio ceisiadau i bensiynwyr a phobl eraill, diwygio a thynnu ceisiadau yn ôl a'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae eu hangen gyda'r cais.  Mae Atodlenni 13 a 14 hefyd yn nodi'r gofynion dan y cynllun hwn o ran y wybodaeth y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ei darparu wrth roi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad a'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y rhybudd o benderfyniad.

**Rhan 6 y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Gosod allan y darpariaethau trosiannol fydd yn berthnasol i bobl sy'n derbyn, neu sydd wedi gwneud cais i dderbyn, gostyngiad o dan y cynlluniau gostyngiadau cyfredol, pan fydd y cynlluniau newydd yn dod i rym.

**Elfennau dewisol y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Ynys Môn i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y Dreth Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau Rhagnodedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu mabwysiadu Cynllun Dewisol Lleol ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel. Manylir ar hyn yn Atodiad 2 lle nodir yr elfennau hynny o bensiynau o'r fath a fydd yn cael eu hanwybyddu fel incwm. Mae hwn yn gymorth at y Dreth Gyngor sy'n ychwanegol at y gefnogaeth sy'n ofynnol yn statudol yn y Rheoliadau Rhagnodedig.

Hwn fydd yr unig ddisgresiwn lleol y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ei ddefnyddio dan ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**ATODIAD 1**

**Manylion am y drefn lle y gall rhywun wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun**

Rhaid i bob person wneud cais am Ostyngiad Dreth Gyngor, oni bai bod rheoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel arall. Bydd hon yn ffurflen electronig neu'n Ffurflen Gais bapur ar gyfer Gostyngiad Dreth Gyngor a rhaid ei danfon i un o'r swyddfeydd dynodedig canlynol:-

**A.** Gellir gwneud cais electronig fel a ganlyn: -

**i.** Drwy apwyntiad i fynychu i gwblhau'r ffurflen yng Nghyswllt Môn,Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 755869/70/72/73/74/75/76/77/78/79) neu i ymweld â chleientiaid bregus yn eu cartref i gwblhau'r ffurflen gais (Ffôn 01248 752658/752226).

**ii.** Drwy apwyntiad i gwblhau'r ffurflen dros y ffôn yn Swyddfeydd Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 752658/752226).

**iii.** Drwy apwyntiad i gwblhau'r ffurflen efo "partneriaid" cymeradwy efo hyfforddiant priodol. Y rhai cyfredol yw -

- Canolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- unrhyw swyddfa Cyngor ar Bopeth sydd ar yr Ynys (Ffôn 01248 722652);
- Swyddfa Cymorth Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 765912) a Gwasanaeth Cwsmer Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni (Ffôn 01248 752200); ac
- Swyddfeydd Digartref Ynys Môn, Caergybi (Ffôn 01407 765557)

Efallai, yn y flwyddyn, bydd yr Awdurdod yn ychwanegu at y rhestr yma "bartneriaid" ychwanegol sydd yn cael eu cymeradwyo ac hefo hyfforddiant priodol.

**iv.** Yn electronig drwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn - http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/treth-cyngor/lleihewch-eich-bil-treth-cyngor/cynllun-gostyngiadaur-dreth-gyngor/ neu yn safleoedd hunan gwasanaeth o fewn:-

- Cyswllt Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 755869/70/72/73/74/75/76/77/78/79);
- Canolfan Gymunedol Llanfaes, Hampton Way, Biwmares, LL58 8LG (Ffôn 01248 812986);
- Canolfan Iorwerth Rowlands, Steeple Lane, Biwmares, LL58 8AE (Ffôn 01248 811508);
- Llyfrgell Amlwch, Lôn Parys, Amlwch, LL68 9EA (Ffôn 01407 830145);
- Llyfrgell Niwbwrch, Neuadd Prichard Jones, Niwbwrch, Llanfairpwllgwyngyll LL61 6SY (Ffôn 01248 440770);
- Canolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- Canolfan Gymunedol Gwelfor, Ffordd Tudur, Morawelon, Caergybi LL65 2DH (Ffôn 01407 763518).

**v.** Dogfen Fewnbwn Awdurdod Lleol yr Adran am Waith a Phensiynau (LAID) a Gwybodaeth Cwsmer Awdurdod Lleol (LACI) lle maent yn datgan bwriad i hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor.

**vi.** Y ffurflenni Credyd Cynhwysol canlynol mewn ffurf electronig oddi wrth yr Adran am Waith a Phensiynau lle maent yn datgan bwriad i hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor:-

- LCTR2 – ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor Leol
- LCTR3 - ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor Leol

**vii.** Yn electronig ar unrhyw ffurf arall y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn penderfynu arno yn y dyfodol.

**B.** Gellir cyflwyno cais ar bapur drwy'r dulliau canlynol: -

**i.** Trwy gyfrwng ffurflenni cais a gymeradwywyd a dderbyniwyd gan y Swyddogaeth Adnoddau Ynys Môn, Adain Refeniw a Budd-daliadau yn ei swyddfeydd dynodedig yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW neu'r Swyddfa Budd-daliadau, Ystafell 3, 2il Lawr, Neuadd y Dref, Stryd Newry, Caergybi, LL65 1HU.

**ii.** Y ffurflenni Credyd Cynhwysol canlynol oddi wrth yr Adran am Waith a Phensiynau lle maent yn datgan bwriad i hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor:

- LCTR2 – ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor Leol
- LCTR3 - ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor Leol

**CYNLLUN LLEOL - ANWYBYDDIAD PENSIWN RHYFEL**
**Atodlen 4, Rheoliad 30 - Pensiynwyr**
**Atodlen 9, Rheoliad 31 – Heb fod yn Bensiynwyr**

| ELFENNAU UNIGOL | DIYSTYRU INCWM |
|---|---|
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | Ydyw<br>(£10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel | Ydyw<br>(£10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (cyn 1973 - SPAL) | Ydyw<br>(2017/18) 100% statudol, £ ??. ?? yn amodol ar uwchraddio * blynyddol |
| Atodiad  Anghyflogadwy | Na |
| Lwfans ychwanegol ar gyfer Gwraig (a delir gydag Atodiad Anghyflogadwy) | Na |
| Lwfans Gweini Cyson | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Analluedd | Na |
| Lwfans ‘Cysuron’ | Na |
| Lwfans Oed | Na |
| Lwfans ar gyfer Galwedigaeth o Safon Is | Na |
| Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Anabledd Dwys Eithriadol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Galwedigaethol Anabledd Difrifol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Plant | Na |

* gosodir gan y Lluoedd Morwrol, y Fyddin a’r Awyrlu ac ati, Gorchymyn Pensiwn Gwasanaeth “Anabledd a Marwolaeth” 2006.  Nid yw’r ffigyrau uwchraddio ar gyfer 2017 /18 wedi dod i law eto.

## Tabl 1: Llwyth Achosion 30 Medi 2016

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,252** | **100%** | **£5,374,694** | **100%** |
| **Canran a Ddyfarnwyd** | | | | |
| Dyfarniad llawn Gostyngiad y Dreth Gyngor h.y. 100% | 4,882 | 78.1% | £4,484,060 | 83.4% |
| Dyfarniad rhannol Gostyngiad y Dreth Gyngor h.y. llai na 100% | 1,370 | 21.9% | £890,634 | 16.6% |
| **Math o Hawliad** | | | | |
| Hawliadau wedi'u Pasportio* | 4,343 | 69.5% | £3,957,744 | 73.6% |
| Hawliadau heb eu Pasportio h.y. Hawliadau Safonol | 1,909 | 30.5% | £1,416,950 | 26.4% |
| **Bandiau y Dreth Gyngor** | | | | |
| Band A (Gostyngiad Anabl) | 8 | 0.1% | £5,366 | 0.1% |
| Band A | 1,991 | 31.8% | £1,402,766 | 26.1% |
| Band B | 1,993 | 31.9% | £1,608,118 | 29.9% |
| Band C | 1,113 | 17.8% | £1,024,399 | 19.1% |
| Band D | 687 | 11.0% | £712,895 | 13.3% |
| Band E | 338 | 5.4% | £428,568 | 8.0% |
| Band F | 105 | 1.7% | £163,289 | 3.0% |
| Band G | 16 | 0.3% | £27,299 | 0.5% |
| Band H | 1 | 0.0% | £1,994 | 0.0% |
| Band I | 0 | 0.0% | £0 | 0.0% |
| **Ardaloedd Trefi a Chymunedau Lleol** | | | | |
| Caergybi | 1,712 | 27.4% | £1,332,515 | 24.8% |
| Llangefni | 543 | 8.7% | £447,673 | 8.3% |
| Amlwch | 485 | 7.8% | £416,873 | 7.8% |
| Porthaethwy | 220 | 3.5% | £195,470 | 3.6% |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 217 | 3.5% | £214,187 | 4.0% |
| Rhosyr | 204 | 3.3% | £180,442 | 3.6% |
| Y Fali | 178 | 2.9% | £144,476 | 2.7% |
| Biwmares | 176 | 2.8% | £156,812 | 2.9% |
| Llanfairpwll | 153 | 2.5% | £135,688 | 2.5% |
| Llanfair yn Neubwll | 141 | 2.3% | £116,347 | 2.2% |
| Llanbadrig | 138 | 2.2% | £121,739 | 2.3% |
| Llanfaelog | 137 | 2.2% | £124,381 | 2.3% |
| Llannerch-y-medd | 130 | 2.1% | £111,567 | 2.0% |
| Llanfihangel Esceifiog | 106 | 1.7% | £98,258 | 1.8% |
| Bodedern | 103 | 1.7% | £92,551 | 1.7% |
| Mechell | 101 | 1.6% | £95,282 | 1.8% |
| Llangoed | 100 | 1.6% | £89,910 | 1.7% |
| Llanidan | 100 | 1.6% | £83,799 | 1.6% |
| Trewalchmai | 95 | 1.5% | £82,689 | 1.5% |
| Pentraeth | 94 | 1.5% | £83,408 | 1.5% |
| Bodorgan | 91 | 1.4% | £75,449 | 1.4% |
| Llaneilian | 90 | 1.4% | £86,247 | 1.6% |
| Cwm Cadnant | 80 | 1.3% | £76,070 | 1.4% |
| Moelfre | 80 | 1.3% | £67,357 | 1.3% |
| Rhosybol | 79 | 1.3% | £73,839 | 1.4% |
| Bodffordd | 76 | 1.2% | £67,107 | 1.3% |
| Aberffraw | 72 | 1.2% | £56,830 | 1.0% |
| Bryngwran | 66 | 1.0% | £55,897 | 1.0% |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 61 | 1.0% | £67,609 | 1.3% |
| Llanddaniel | 53 | 0.8% | £46,911 | 0.9% |
| Cylch y Garn | 52 | 0.8% | £52,531 | 1.0% |

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd Trefi a Chymunedau Lleol (parhad)0** | | | | |
| Tref Alaw | 50 | 0.8% | £53,538 | 1.0% |
| Llanddona | 50 | 0.8% | £48,974 | 0.9% |
| Trearddur | 48 | 0.7% | £55,390 | 1.0% |
| Llanfaethlu | 43 | 0.7% | £40,372 | 0.7% |
| Llanddyfnan | 42 | 0.7% | £44,988 | 0.8% |
| Llanfachraeth | 37 | 0.6% | £34,216 | 0.6% |
| Rhoscolyn | 22 | 0.3% | £23,970 | 0.4% |
| Penmynydd | 18 | 0.2% | £16,206 | 0.3% |
| Llaneugrad | 9 | 0.1% | £7,126 | 0.1% |

* Hawliadau a basbortiwyd yw Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorth Incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran am Waith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

### Tabl 2: Hawliadau gan Bobl o Oed Gweithio a Phensiynwyr 30 Medi 2016

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,252** | **100%** | **£5,374,694** | **100%** |
| **Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 3,247 | 51.9% | £2,687,511 | 50.0% |
| Oed Pensiynwr | 3,005 | 48.1% | £2,687,183 | 50.0% |
| **Hawliadau pasport* yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,328 | 37.3% | £2,038,896 | 37.9% |
| Oed Pensiynwr | 2,015 | 32.2% | £1,918,848 | 35.7% |
| **Di-basport h.y. hawliadau safonol yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 972 | 15.5% | £703,400 | 13.1% |
| Oed Pensiynwr | 937 | 15.0% | £713,550 | 13.3% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Cwpl** | | | | |
| Oed Gweithio | 767 | 12.3% | £770,904 | 14.3% |
| Oed Pensiynwr | 837 | 13.4% | £892,408 | 16.7% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Sengl** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,462 | 39.3% | £1,902,339 | 35.4% |
| Oed Pensiynwr | 2,186 | 35.0% | £1,809,043 | 33.6% |

* Hawliadau a basbortiwyd yw Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorth Incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran am Waith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

**Tabl 3: Oed – Aelwydydd gyda chyfrifoldeb am Blant 30 Medi 2016**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,252** | **100%** | **£5,374,694** | **100%** |
| **Cyfansoddiad Aelwyd – y statws** | | | | |
| Cwpl | 1,604 | 25.7% | £1,663,312 | 31.0% |
| Sengl | 4,648 | 74.3% | £3,711,382 | 69.0% |
| **Cyfansoddiad Aelwyd - plant** | | | | |
| **Dim plant** | **4,803** | **76.8%** | **£4,143,063** | **77.1%** |
| 1 plentyn | 644 | 10.3% | £523,583 | 9.7% |
| 2 plentyn | 441 | 7.1% | £372,339 | 6.9% |
| 3 phlentyn | 232 | 3.7% | £210,387 | 3.9% |
| 4 plentyn | 89 | 1.4% | £79,358 | 1.5% |
| 5 plentyn | 26 | 0.4% | £26,110 | 0.5% |
| 6 phlentyn | 9 | 0.1% | £10,104 | 0.2% |
| 7 plentyn | 4 | 0.1% | £4,922 | 0.1% |
| 8 plentyn | 1 | 0.0% | £1,190 | 0.0% |
| 9 plentyn | 3 | 0.1% | £3,638 | 0.1% |
| **Cyplau â phlant** | | | | |
| Oed Gweithio | 468 | 7.5% | £457,907 | 8.5% |
| Oed Pensiynwr | 17 | 0.3% | £19,253 | 0.3% |
| **Sengl â phlant** | | | | |
| Oed Gweithio | 941 | 15.0% | £732,241 | 13.5% |
| Oed Pensiynwr | 23 | 0.4% | £22,230 | 0.4% |
| **Cyplau â phlant o dan 5 oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 228 | 3.7% | £219,162 | 4.1% |
| Oed Pensiynwr | 1 | 0.0% | £1,041 | 0.0% |
| **Sengl â phlant o dan 5 oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 402 | 6.4% | £313,312 | 5.8% |
| Oed Pensiynwr | 1 | 0.0% | £1,075 | 0.0% |

**Tabl 4: Aelwydydd lle dderbyniwyd taliadau anabledd penodol* 30 Medi 2016**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,252** | **100%** | **£5,374,694** | **100%** |
| **Cyfansoddiad Aelwyd yn ôl grŵp oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 1,177 | 18.8% | £1,064,347 | 19.8% |
| Oed Pensiynwr | 1,314 | 21.0% | £1,230,859 | 22.9% |

***** Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig, Uchel), Lwfans Gweini, Elfen Gefnogaeth y Lwfans Cefnogaeth Gwaith, Lwfans Analluedd a Thaliadau Annibyniaeth Personol.

**Tabl 5: Dadansoddiad o nodweddion a ddiogelir: Rhyw, rhiant Sengl 30 Medi 2016**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,252** | **100%** | **£5,374,694** | **100%** |
| **Aelwyd Rhiant Sengl - Merched** | | | | |
| Oed Gweithio | 878 | 14.0% | £677,074 | 12.5% |
| Oed Pensiynwr | 12 | 0.2% | £11,291 | 0.2% |
| **Aelwyd Rhiant Sengl - Dynion** | | | | |
| Oed Gweithio | 66 | 1.1% | £58,369 | 1.1% |
| Oed Pensiynwr | 8 | 0.1% | £7,737 | 0.1% |

**Tabl 6: Cefndir Ethnig Ynys Môn 30 Medi 2016**

| Tarddiad Ethnig | Cyfrifiad Mawrth 2011 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Medi 2016 |
|---|---|---|
| Prydeinig Gwyn | 96.6% | 90.2% |
| Gwyn arall | 1.7% | 8.2% |
| Etifeddiaeth gymysg | 0.8% | 0.5% |
| Asiaidd (Pawb) | 0.7% | 0.3% |
| Du (Pawb) | 0.1% | 0.8% |
| Arall (Pawb) | 0.3% | 0.0% |

**Tabl 7: Gostyngiad y Dreth Gyngor ychwanegol a ddyfarnwyd dan y cynllun dewisol lleol 30 Medi 2016**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,252** | **100%** | **£5,374,694** | **100%** |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (Cyn 1973) | 3 | 0.1% | £2,766 | 0.1% |
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | 21 | 0.3% | £18,986 | 0.4% |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A'R PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **21 & 28 TACHWEDD 2016** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2016/17)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | GETHIN MORGAN<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Hwn yw ail gerdyn sgorio blwyddyn ariannol 2016/17.

**1.2** Mae'n dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu hamlinellu a'u cytuno rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth/y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ar gyfer Ch2.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

***1.3.1*** Cydnabyddir tanberfformiad yn erbyn dangosyddion (coch ac ambr) ac fe reolir hynny trwy gymryd camau pwrpasol i sicrhau gwelliant.

***1.3.2*** *Parhau gyda'r panelau a gynhelir yn rheolaidd i herio gwasanaethau mewn perthynas â chyfraddau salwch er mwyn cadw'r ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.*

***1.3.3*** Y cyflwynir adroddiad ar waith Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â salwch i'r Pwyllgor Gwaith unwaith fyddan wedi derbyn yr adroddiad. Dylid mabwysiadu'r gwelliannau yn seiliedig ar yr arferion gorau a gwelliannau pellach yn genedlaethol.

***1.3.4*** Bod trosolwg cyffredinol a gwerthfawrogiad manwl o'r dangosyddion ar gyfer Plant a Dysgu yn cael eu dadansoddi ymhellach i sicrhau bod perfformiad yn gwella a'n bod yn glynu wrth bolisïau corfforaethol.

***1.3.5*** *Drwy adrodd ar faterion ariannol y sgorfwrdd ynghyd a dadansoddiad manylach a wneir gan adroddiadau refeniw / cyfalaf Ch2 (i'w cysidro*

| | |
|---|---|
| | *gan y cyfarfod yma), bod yr UDA ynghyd a'r Pwyllgor Gwaith yn parhau felly i reoli materion ariannol y Cyngor.* |
| **1.4** | Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| d/b |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y mater gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 15 Medi ac mae eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro’r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2, 2016/17 a’r Cerdyn Sgorio. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Adroddiad monitro Cerdyn Sgorio 2016/17 - Chwarter 1 (fel y cafodd ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2016 a’i dderbyn ganddo). |

## ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2016/17)

### 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o amcanion y Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau bod gennym ddull o dystiolaethu a chyflwyno gwelliant parhaus ar draws y sefydliad. I'r perwyl hwn, llunnir adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos y cynnydd a wnaed neu'r diffyg cynnydd (fel sy'n berthnasol).

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn eglur weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sy'n cynorthwyo i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

**1.3** Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio gan adlewyrchu'r newidiadau hynny a wnaed i systemau ac arferion traddodiadol yn y Cyngor. Penderfynwyd ar y dangosyddion a gafodd eu cynnwys yn y cerdyn sgorio eleni (fel y llynedd) mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2016 gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.4** Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch2 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

### 2. YSTYRIAETHAU

**2.1** Dyma'r bedwaredd flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn dull cydlynol. Mae'r Cyngor yn awr yn gweld tueddiadau yn sefydlu eu hunain mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA/Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar gyflawniad gweithredol.

**2.2** Mae'n bwysig nodi y gofynnwyd am i'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni gynnwys:

- Dadansoddiad pellach o'r tueddiadau
- Trem yn ôl ar berfformiad y llynedd
- Cydnabyddiaeth o ddangosyddion penodol o fewn chwarteli
- Statws CAG newydd i gynnwys melyn (Coch – mwy na 10% ar ei hôl hi o gymharu â'r targed, Ambr – 5 i 10% ar ei hôl hi o gymharu â'r targed, Melyn – 0 i 5% ar ei hôl hi, Gwyrdd – ar darged)

Mae hyn yn cynorthwyo'r dadansoddiad chwarterol ac yn golygu y gellir ystyried perfformiad gan ddefnyddio nifer o gymaryddion gwahanol.

### 2.3 PERFFORMIAD

**2.3.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**2.3.2** Ar ddiwedd Ch2, mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ond nodwn fod 5 o ddangosyddion yn tanberfformio ac yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targed am y flwyddyn.

2.3.3 Mae tri dangosydd o fewn y <u>Gwasanaethau Oedolion</u> nad ydynt yn perfformio gystal ar ôl cytuno ar dargedau yn Ch1 –

(i) LI/018b - *% o ofalwyr ar gyfer Oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac sydd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn*. Mae hyn yn dangos yn **AMBR** ar y cerdyn. Ch2 – 82.3% Targed – 93%. Mae'r perfformiad yn well nag yr oedd yn Chwarter 2 2015/16, fodd bynnag, mae ymhell o'r targed.

Bu effaith gadarnhaol ar y DP hwn ers 15/16 ac mae gwelliant parhaus yn debygol oherwydd capasiti cynyddol o blith Gweithwyr Cymdeithasol i wneud asesiadau ac adolygu asesiad fel ac yn ôl y gofyn. O'r herwydd, mae'r adran yn hyderus y bydd modd cwrdd â'r targed erbyn Ch4.

***Camau lliniaru*** – er mwyn gwella'r safonau hyn yn Ch3, bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn ddal i fyny gyda'r asesiadau a oedd i fod i gael eu cwblhau a chwblhau asesiadau ac adolygiadau newydd yn y chwe mis nesaf. Bydd hyn yn cael ei wneud oherwydd y cynnydd mewn capasiti gan y Gweithwyr Cymdeithasol i gwblhau'r asesiadau yn ogystal â'r tîm gofal sydd ar hyn o bryd yn cynnal yr asesiadau.

(ii) PM18 – Canran yr ymholiadau diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol. Ch2 – 79.37%, Targed – 90%. Mae'r DP hwn yn newydd ar gyfer 2016/17 ac o'r herwydd, gellir ystyried y targed fel un uchelgeisiol, fodd bynnag, mae'r perfformiad cyfredol ymhell islaw'r hyn yr hoffai'r adran ei gyflawni.

***Camau lliniaru*** – Mae amseriad ymchwiliadau'r asiantaethau partner yn cael effaith negyddol ar hyn o bryd ar ein hamserlenni a'n DP ni. Mae'r mater yn cael, a bydd yn parhau i gael ei godi yn y cyfarfodydd o'r grŵp strategol a gynhelir rhwng Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn ceisio datrys y mater hwn a gostwng yr amserlenni.

(iii)PM19 – Oedi gyda throsglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn. Ch2 – 4.6 Targed 1.5. Fel y DP uchod, mae hwn yn ddangosydd newydd ac mae'r targed yn un uchelgeisiol. Mae diffyg capasiti yn y maes gofal cartref yn cael effaith negyddol ar y DP hwn.

***Camau lliniaru*** – Mae cynllun trawsnewidiol yn mynd rhagddo capasiti ychwanegol erbyn Ebrill 2017. Mae trafferthion ychwanegol yn codi oherwydd prinder gwelyau nyrsio EMI, fodd bynnag, mae'r gwasanaeth hefo perthynas da gyda'r Bwrdd Iechyd ac mae pob dim allai wneud ar hyn o bryd yn cael wi wneud.

**2.3.4** Mae dau o'r dangosyddion hyn yn y <u>Gwasanaethau Plant</u> ac yn parhau i danberfformio fel a ganlyn –

(i) SCC/025 - y % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau yn Ch2 – 82.84% Targed - 100 **COCH**. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 90.52% yn yr un cyfnod yn 2015/16. Trafodwyd y dangosydd hwn hefyd yn yr adroddiad ar gerdyn sgorio Ch1 a bu gwelliant bychan iawn yn Ch2 o gymharu â Ch1.

O lefel ragorol 12 mis yn ôl, mae'r DP hwn wedi dirywio'n raddol oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r dirywiad bellach wedi peidio ac mae'r gwasanaeth yn obeithiol yn awr y bydd pethau'n gwella yn y dyfodol.

***Camau lliniaru*** – er mwyn gwella'r safonau hyn ar gyfer Ch3, gweithredir ar yr isod :

- Bydd y cynnydd yn y nifer o weithwyr cymdeithasol a'r ffaith y byddwn yn parhau i ddefnyddio'r system dracio wythnosol ynghyd a sefydlu system rheoli newydd i sicrhau bod ymweliadau'n parhau i gael eu cynnal pan fo staff ar eu gwyliau neu'n absennol oherwydd salwch.

(ii) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn flwyddyn hyd at 31 Mawrth, Ch2 – 10.84% - AMBR.

Er bod y rhif hwn yn parhau i fod yn uchel ar ôl 6 mis, mae'r rhesymau dros symud ysgol yn rhan o'r cynllun tymor hir ar gyfer y plant, e.e. mabwysiadu, lleoliadau therapiwtig; neu ddymuniad plentyn unigol i symud ysgol ac o'r herwydd, nid oes angen unrhyw gamau lliniaru.

**2.3.5** Cafwyd cytundeb yn y gweithdy a nodir uchod yn 1.3 bod swyddogion yn ailasesu'r dangosyddion perfformiad Addysg y gellir eu cynnwys ar y Cerdyn Sgorio eleni er mwyn cynnwys DP y gellir eu monitro'n rheolaidd drwy'r flwyddyn. Gwnaed y gwaith hwnnw yn Ch2 ac mae wedi ei adlewyrchu yn y Cerdyn Sgorio (dangosyddion 11 i 18). Er bod 4 o'r dangosyddion yn rhai blynyddol (dangosyddion 15 i 18), tybir mai'r rhain yw'r mwyaf addas ar gyfer y cerdyn sgorio. Mewn perthynas â'r 4 dangosydd sy'n weddill (11 i 14 ar y cerdyn sgorio) bydd y gwasanaeth yn adrodd arnynt bob tymor (Medi i Rhagfyr yn y cerdyn sgorio ar gyfer CH3, mis Ionawr i'r Pasg yn y cerdyn sgorio ar gyfer Ch4, ac Ebrill i Gorffennaf yn y cerdyn sgorio ar gyfer Ch1, 2017/18).

**2.3.6** Mae gweddill y dangosyddion yr adroddwyd arnynt ar gyfer Ch2 â statws **GWYRDD** neu **FELYN**, ac yn ymwneud â rheoli perfformiad.

**2.3.7** Yn yr adroddiad ar Ch1, argymhellodd yr UDA y dylid ailasesu targedau yn ystod Ch2. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud lle yr oedd angen ac mae'r targedau newydd bellach yn ymddangos ar y Cerdyn Sgorio. Cafodd y targedau ar gyfer y dangosyddion isod eu newid yn ystod y broses hon:

- **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** – Dangosyddion 26 i 28 ar y cerdyn sgorio
    - 26) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gafodd eu clirio ymhen 5 niwrnod – Targed gwreiddiol 94%. Targed Diwygiedig 96.7%
    - 27) WMT/009B: Canran y gwastraff cyhoeddus a gasglwyd gan awdurdodau lleol a'i baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio ac/neu ei ailgylchu – Targed Gwreiddiol 58%, Targed Diwygiedig 60%
    - 28) WMT/004b: Canran y gwastraff cyhoeddus a ddanfonwyd i safle claddu gwastraff - Targed Gwreiddiol 40%, Targed Diwygiedig 22%
- **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** – Dangosydd 30 ar y cerdyn sgorio
    - 30) Nifer y bobl ifanc sy'n mynychu rhaglenni datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth – Targed Gwreiddiol 70k, Targed Diwygiedig 85k

**2.3.8** Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bydd yr adroddiad ar y cerdyn sgorio yn awr yn cynnwys diweddariad ar y cynnydd mewn perthynas â rhaglenni/prosiectau yn yr Awdurdod. Mae'r wybodaeth ynghylch hyn ar gael yn atodiad 2. Dyma ddiweddariad cryno ar rai rhaglenni/prosiectau:

**2.3.9.1** *Moderneiddio ysgolion* - Mae gwaith wedi cychwyn ar adeiladu Ysgol Cybi, fodd bynnag mae llithriad o fis gyda'r gwaith sy'n golygu y bydd wedi'i gwblhau erbyn Mai 2017. Ni fydd y llithriad hwn yn effeithio ar y bwriad i agor yr ysgol ym mis Medi 2017. Mae'r gwaith adeiladu yn Ysgol Rhyd y Llan yn Ch1 hefyd wedi llithro i fis Gorffennaf 2017, fodd bynnag mae'n parhau i fod ar y trywydd iawn i agor ym mis Medi 2017. Mae safle wedi cael ei nodi bellach yn ardal Bro Aberffraw yn Niwbwrch. Cynhaliwyd arolygon ymchwiliol ar y safle hwn yn ystod Ch2. Mae ardal Llangefni wedi cael ei hychwanegu'n awr at Fand A ac mae ymgynghori anffurfiol bellach yn mynd rhagddo.

**2.3.9.2** *Rhaglen Gofal Cymdeithasol i Oedolion* – Mae'r rhaglen wedi cael ei diwygio yn awr er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y strategaeth ac mae trefniadau'n cael eu sefydlu i yrru'r ddarpariaeth o wasanaeth. Mae Cymdeithas Dai Tŷ Glas, mewn cydweithrediad gyda'r Cyngor, yn cychwyn gwaith ar glirio safle Ysgol Y Bont yn Ch2 yn barod ar gyfer adeiladu'r cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol, Hafan Cefni.

**2.3.9.3** *Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid* – Mae amserlen newydd bellach wedi cael ei sefydlu ar gyfer y prosiect Llyfrgelloedd. Bydd y strategaeth Llyfrgelloedd yn cael ei thrafod gyda'r Pwyllgor Gwaith yn Ch4 a bydd yn destun ymgynghoriad yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2017. Ymgynghorydd y Gwasanaeth Ieuenctid gyda phobl ifanc ar ddyfodol y gwasanaeth mewn Cynhadledd Ieuenctid a drefnwyd gan y gwasanaeth ar ddiwedd Ch2. Bydd eu hadborth yn rhan o'r opsiynau terfynol ynghylch dyfodol y gwasanaeth a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn Ch3. Rhoes y gwasanaeth Diwylliant wahoddiad yn Ch2 eto i sefydliadau, busnesau ac unigolion gyflwyno syniadau ynghylch rhedeg rhai o'n safleoedd treftadaeth yn y dyfodol. Bydd unrhyw ymatebion yn cael eu trafod a'u hystyried ymhellach yn ystod Ch3.

**2.3.9.4** *Prosiect Trawsnewid Hamdden* - Mae dosbarthiadau newydd ac opsiynau i dalu drwy ddebyd uniongyrchol ar gael i gwsmeriaid ac mae'r pecynnau wedi arwain at gynnydd yn y taliadau debyd uniongyrchol y mae'r gwasanaeth yn eu derbyn. Cafwyd llai o incwm na'r targed, mae'r gwasanaeth yn tybio iddo golli oddeutu £50k oherwydd cau Pwll Nofio Caergybi dros yr haf ac mae'r gwasanaeth felly'n annhebygol o fedru dal i fyny erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n debyg y bydd opsiwn talu ar-lein i gwsmeriaid yn cael ei lansio yn ystod Ch4.


**2.3.9.5** *Prosiect Gweithio'n Gallach* – Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n unol â'r amserlen a dylid ei gwblhau yn ystod Ch3. Mae staff yr Adran Gynllunio wedi symud i'r Pencadlys yn ystod Ch2. Bydd y gwaith terfynol i ail-leoli staff yn digwydd yn ystod Ch3 pryd y bydd y staff sydd ar ôl yn y Rovacabin a staff y Gwasanaethau Plant sy'n gweithio yn Neuadd y Sir yn symud i mewn i'r Pencadlys. Cwblhawyd y gwaith o ailfodelu'r dderbynfa ac agorwyd Cyswllt Môn i'r cyhoedd ar ddiwedd Ch2. Mae'r system fynediad a'r drysau'n wedi cael eu huwchraddio yn ystod mis Tachwedd er mwyn darparu dyluniad modern a dibynadwy.

**2.3.9.6** Mae Atodiad 2 yn dangos holl waith sydd dan sylw'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol. Tra bod rhai o'r elfennau yn GOCH maen bwysig dweud bod y materion gysylltiedig yn cael ei rheoli a'i tracio gan y byrddau hynny sydd yn cwrdd bob yn ail fis.

## 2.4 RHEOLI POBL

**2.4.1** O ran Rheoli Pobl, nodir bod perfformiad y Cyngor o safbwynt cyfraddau salwch (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio dan 'rheoli pobl')* yn dangos gwelliant bychan ar ddiwedd Ch2 (4.89 Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC) o gymharu â'r llynedd (5.33 Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC). Fodd bynnag, nid oedd y ffigyrau yr adroddwyd arnynt yn ystadegau salwch eleni'n cynnwys y diwrnodau o salwch a gymerwyd oherwydd profedigaeth (414 diwrnod). Petaem yn cynnwys profedigaethau yn y swm, byddem yn parhau i weld gwelliant bychan (5.02 diwrnod fesul pob aelod o staff ALIC). Gwnaed y newid hwn i'r modd y caiff y ffigyrau eu gweithio allan er mwyn cwrdd â'r canllawiau a ddarparwyd gan Uned Ddata Cymru yn y dangosydd perfformiad cenedlaethol.

**2.4.2** Mae hyn yn awgrymu y rhagwelir y bydd y cyfraddau salwch erbyn diwedd y flwyddyn (os bydd y tueddiadau yn parhau fel yn y ddwy flynedd diwethaf h.y. cyfartaledd salwch uwch yn Ch3 a Ch4 na yn Ch1 a Ch2) yn cyfateb i 11.28 o ddyddiau salwch ar gyfer pob gweithiwr llawn amser (Tabl 1).





Tabl 1

**2.4.3** Mae perfformiad y Gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn ar gyfer Ch2 yn nodi bod 5 o Wasanaethau'n GOCH neu'n AMBR o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter:

- Gwasanaethau Oedolion – AMBR 6.70 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed 6.13)
- Gwasanaethau Plant- COCH - 8.21 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed 4.65)
- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo - AMBR – 5.28 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed o 4.89)

- Dysgu - COCH – 4.62 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed o 4.17)
- Trawsnewid Corfforaethol – COCH – 3.64 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed o 3.23)


**2.4.4** Un o'r prif resymau am beidio â chyrraedd ein targed corfforaethol ar gyfer Ch1 2015/16 oedd y cynnydd yn yr achosion Salwch Tymor Hir a oedd yn cyfateb i 58% o'r cyfanswm o'r dyddiau a gollwyd oherwydd salwch. O ran hyn, gwelwyd gwelliant sylweddol o gymharu ag Ch2 2015/16, pryd collwyd 3100 o ddyddiau oherwydd salwch o gymharu â 3700 (gweler tabl 2 isod).




Tabl 2

**2.4.5** Roedd salwch tymor hir yn cyfateb i 55% o'n cyfraddau salwch ar gyfer Ch2 o gymharu â 63% am yr un cyfnod yn 2015/16. Ystyrir bod ymgyrch barhaus ac angen i ostwng y ffigyrau ar gyfer salwch tymor hir yn hanfodol er mwyn gwella ein rhagolygon o flwyddyn i flwyddyn.

**2.4.6** Nid yw ein cyfraddau salwch tymor byr o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf yn dangos yr un gwelliant. Yn wir, am y chw mis cyntaf o'r flwyddyn (cyfanswm cronnol) gwelwyd cynnydd o 292 yn nifer y diwrnodau o salwch tymor byr fesul gweithiwr amser llawn. Mae ymdrech yn parhau i leihau'r cyfraddau salwch tymor byr fodd bynnag, a mae'r ymdrech yma i weld yn Ch2 lle gwelir gwelliant o 120 diwrnod a'r un cyfnod y llynedd (Tabl 3).





Tabl 3

**2.4.7** Mae 'rheoli' salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth y staff gyda pholisïau salwch corfforaethol yn rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor ac mae hynny'n cynnwys y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a'r Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb *(dangosyddion 7 ac 8 ar y cerdyn sgorio).*

**2.4.8** Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r arferion gweithio hyn ar draws ei wasanaethau ond yn ystod Ch2, gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd o fewn yr amser penodedig (79%) o gymharu â Ch1 ond mae ychydig yn is na'r targed o 80% (Tabl 4).

**2.4.9** Roedd canran gyfan y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd yn Ch2 wedi dal ei berfformiad o 93% a welwyd yn Ch1 sy'n ganlyniad iach, fodd bynnag, mae'n parhau i fod ychydig yn îs na'r targed o 95% ar gyfer y dangosydd hwn. Dim ond un gwasanaeth, Gwasanaethau Plant, sydd yn Ambr gyda 87% (34 allan o 39) o CDG wedi'i gwblhau. Mae'r gwasanaethau eraill o fewn 5% o'u targedau

**2.4.10** Yn ystod Ch2, y gwasanaethau a fethodd gyrraedd y Targed Corfforaethol o 80% o fewn yr amserlen oedd Busnes y Cyngor 57% (4 allan o 7), Adnoddau 70% (33 allan o 47), Gwasanaethau Plant 74% (29 allan o 39) a Phriffyrdd, Gwastraff ac Eiddo 74% (116 allan o 157).




Tabl 4

**2.4.11** Argymhellodd yr UDA yn 2015/16, y dylid rhoi rhagor o sylw i reoli'r achosion hynny o absenoldebau salwch tymor byr ailadroddus sy'n cyrraedd pwyntiau sbardun a lle mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd adolygu presenoldeb (CAP). Mae'r rhain yn parhau i gaeleu monitro yn y Paneli Herio Salwch.

**2.4.12** Doedd yna ddim newid mewn ffigurau CAP ar gyfer Ch2 i'w gymharu â Ch1 (ffigyrau ddim yn cynnwys ysgolion). Er nad oedd yna welliant yn y chwarter, mae Adnoddau Dynol wedi nodi bod ansawdd y CAP sy'n dod drwodd o'r gwasanaethau wedi gwella'n fawr.

**2.4.13** ***Mae'r UDA yn argymell felly:***

- *Parhau gyda'r panelau a gynhelir yn rheolaidd i herio gwasanaethau mewn perthynas â chyfraddau salwch er mwyn cadw'r ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.*

- *Nid yw'r adroddiad ar waith Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â salwch wedi i'w dderbyn ac felly bydd yn cael ei adrodd trwy'r Pwyllgor Gwaith ar ôl derbyn yr adroddiad.*

**2.5 GWASANAETH CWSMER**

**2.5.1** Eleni, cyflynir 5 o Ddangosyddion Perfformiad newydd (Eitem 11-15), sydd yn cael eu monitro yn y Bwrdd Rhagoriaeth Gofal Cwsmer, sy'n edrych yn benodol ar y newid sianelau o ran cyfathrebu gyda'r Cyngor. Nid oes targedau ar gyfer hyn eleni er ein bod yn disgwyl i'r holl ddangosyddion hyn fod ar i fyny yn ystod y flwyddyn.

**2.5.2** Mae dau o'r dangosyddion newydd yn edrych ar lansio AppMôn yn llwyddiannus lle mae 218 o ddefnyddwyr ychwanegol wedi gosod yr App ar eu ffonau symudol (cyfanswm o 647). Mae'r defnyddwyr wedi defnyddio'r dechnoleg i gyflwyno 91 o adroddiadau i ni yn ystod Ch1 a Ch2 (ynghylch, er enghraifft, gadael gwastraff yn anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaethau neu gwynion, pafinau wedi torri, ffurflenni data-bas clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu).

**2.5.3** Mae'r dangosyddion gweddilliol yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus. Cafwyd 247k o ymweliadau unigol i'r wefan yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn. Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus wedi arwain at 19k o gyfrifon cyfryngau cyhoeddus yn ein dilyn ar Facebook (8k o ddilynwyr) a Twitter (11k o ddilynwyr).

**2.5.4** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 36 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch2 ac un gŵyn Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebwyd i'r holl gwynion ac o'r rhain, cadarnhawyd 3 ohonynt yn llawn (Rheoleiddo a Datblygu Economaidd [1]), Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1] ac Adnoddau [1], cadarnhawyd 5 yn rhannol (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [3] a Tai [1]) ac ni chadarnhawyd y 23 arall. Mae'r dangosyddion yma bellach yn cael ei dracio gan y Bwrdd Rhagoriaeth Gofal Cwsmer.

**2.5.5** Ymatebwyd i 78% o'r cwynion o fewn yr amserlen gyda 13 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Oedolion [3], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1], Tai [1], Busnes y Cyngor [1] a Gwasanaethau Plant [9]. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r 64% a gafwyd ar ddiwedd 2015/16, fodd bynnag, mae'n parhau i fod rhywfaint yn is na'r targed o 80%.

**2.5.6** Ymatebwyd i 78% o'r ceisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth erbyn diwedd Ch2 o gymharu â 67% ar ddiwedd 2015/16. Cafwyd 453 o geisiadau DRhG i gyd ar ôl Ch2 gyda 50 o ymatebion hwyr. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hwyr o Adnoddau gyda hynny'n cyfateb i 46% o'r ymatebion hwyr (60% o'r 77 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, gwelliant o gymharu â'r 74% o ymatebion hwyr yn Ch1), Gwasanaethau Cymdeithasol gyda 20% (13% o'r 45 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth) a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyda 14% (29% o'r 28 a dderbyniodd y gwasanaeth). Mae ein hymateb i Rhyddid Gwybodaeth yn bwysig i ni ac mae'r dangosyddion yma yn cael ei monitro gan y UDA a'r Penaethiaid

**2.5.7** Mae'r ymarfer Siopwr Cudd (eitemau 16-19 ar y cerdyn sgorio) i'w gynnal yn Ch3. Unwaith eto, y Grŵp Ymgynghorol Tenantiaid fydd yn cynnal yr ymarfer. Adroddir ar gasgliadau ac argymhellion eu hadroddiad yma yn Ch4.

## 2.6 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.6.1** Rhagwelir y bydd cyfanswm y gorwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017 yn £521k (0.40%). Rhagwelir gorwariant o £851k ar gyllidebau gwasanaethau er rhaid pwysleisio ei fod yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau cyllidebol yn debyg i 2015/16 (Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant, Gwastraff ac Adnoddau). Yn ogystal, rhagwelir gorwariant o £ 114k yn yr Adran Dysgu Gydol Oes. Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r materion ac yn gweithio i leihau lefel y gorwario ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant ar wasanaethau'n cael ei wrthbwyso yn rhannol gan danwariant o £ 528k ar Gyllid Corfforaethol sydd i'w briodoli i danwariant ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Yn ogystal, rhagdybir y bydd diffyg o £198k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor oherwydd y gofyniad i ddarparu ar gyfer dyledion drwg. Er bod lefel gyfredol y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol i gwrdd â'r lefel hon o orwario, petai'n rhaid i'r Cyngor hefyd ariannu costau tâl cyfartal o'i gronfeydd wrth gefn cyffredinol, byddai'r lefel wedyn yn agos ar y lefel isaf o £ 5m.

**2.6.2** Dylid nodi bod chwarter 2 yn fuan yn y flwyddyn ariannol ac nad yw eitemau megis effaith gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf wedi cael eu cynnwys yn y rhagamcan oherwydd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael. Gall rhagamcanion newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd sgriwtini rheolaidd yr UDA a chamau unioni gan Benaethiaid Gwasanaeth yn helpu rheolwyr gwasanaethau i reoli'r cyllidebau y maent yn gyfrifol amdanynt.

**2.6.3** Mae gwybodaeth bellach ar reolaeth ariannol ar gael yn yr Adroddiad ar Fonitro'r Gyllideb Refeniw Chwarter 2, sy'n eitem ar raglen y cyfarfod hwn.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**3.1.1** Cydnabyddir tanberfformiad yn erbyn dangosyddion (coch ac ambr) ac fe reolir hynny trwy gymryd camau pwrpasol i sicrhau gwelliant.

**3.1.2** *Parhau gyda'r panelau a gynhelir yn rheolaidd i herio gwasanaethau mewn perthynas â chyfraddau salwch er mwyn cadw'r ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.*

**3.1.3** Y cyflwynir adroddiad ar waith Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â salwch i'r Pwyllgor Gwaith unwaith fyddan wedi derbyn yr adroddiad. Dylid mabwysiadu'r gwelliannau yn seiliedig ar yr arferion gorau a gwelliannau pellach yn genedlaethol.

**3.1.4** Bod trosolwg cyffredinol a gwerthfawrogiad manwl o'r dangosyddion ar gyfer Plant a Dysgu yn cael eu dadansoddi ymhellach i sicrhau bod perfformiad yn gwella a'n bod yn glynu wrth bolisïau corfforaethol.

**3.1.5** *Drwy adrodd ar faterion ariannol y sgorfwrdd ynghyd a dadansoddiad manylach a wneir gan adroddiadau refeniw / cyfalaf Ch2 (i'w cysidro gan y cyfarfod yma), bod yr UDA ynghyd a'r Pwyllgor Gwaith yn parhau felly i reoli materion ariannol y Cyngor.*

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2016/17

Atodiad 1

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↓ | 36 | 29.5 | 59 | 65 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 1 | - | 5 | |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | 8 | - | 21 | |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod | Melyn / Yellow | → | 78% | 80% | 64% | |
| 05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 78 | - | 261 | 71 |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 29 | - | 53 | |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↑ | 339 | - | 712 | 521 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | → | 78% | 80% | 67% | 65% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 453 | - | 854 | 894 |
| 10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb | - | - | - | 15% | 12% | |
| 11) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn | - | ↑ | 647 | - | - | |
| 12) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↓ | 91 | - | - | |
| 13) Nifer o daliadau dros y we | - | - | - | - | - | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 19k | - | - | |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↑ | 274k | - | - | |
| 16) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd) | - | - | - | - | - | |
| 17) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd) | - | - | - | - | - | |
| 18) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd) | - | - | - | - | - | |
| 19) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd) | - | - | - | - | - | |

| People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2258 | - | 2310 | 2336 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1250 | - | 1303 | 1362 |
| 03) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | Ambr / Amber | ↑ | 4.84 | 4.5 | 11.68 | 11.53 |
| 04) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.16 | - | 4.89 | 5.49 |
| 05) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.67 | - | 6.79 | 6.04 |
| 06) % o salwch sy'n gysylltiedig â straen | - | - | 6% | 9% | 7% | 5% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | ↑ | 79% | 80% | 84% | 85% |
| 08) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Melyn / Yellow | → | 93% | 95% | - | |
| 09) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Melyn / Yellow | → | 75% | 80% | - | |
| 10) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | 6% | - | - | |
| 11) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen | Gwyrdd / Green | - | 85.50% | 80% | - | |
| 12) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | 98% | |
| 13) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↑ | 21 | - | 26 | 21 |
| 14) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | - | - | - | - | - | |
| 15) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | | | | | | |
| 16) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | | | | | | |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | ↓ | £124,037,000 | - | - | £124,697,000 | 0.53% |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | Coch / Red | ↓ | £52,246,000 | - | - | £43,062,000 | -17.58% |
| 03) Amrywiad yn y Gyllideb ar gyfer Talu Cyflogau hyd yma yn y Flwyddyn | Ambr / Amber | ↑ | £40,679,042 | £40,836,570 | 0.39% | - | - |
| 04) % y Gyllideb a wariwyd ar Gyflogau | - | - | - | 57.09% | - | - | - |
| 05) Cost staff asiantaeth | Coch / Red | ↓ | £134,352 | £622,325 | 363.20% | - | - |
| 06) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Gwyrdd / Green | ↑ | £64,519,000 | £64,742,000 | 0.35% | - | - |
| 07) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | - | - | £2,980,000 | £2,427,000 | -18.56% | - | - |
| 08) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£14,269,253 | -£14,759,560 | 3.44% | - | - |
| 09) Swm a fenthycwyd | - | - | - | £110M | - | - | - |
| 10) Chost benthyca | - | - | - | - | - | £8,450,000 | - |
| 11) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | - | ↓ | - | 81.92% | - | - | - |
| 12) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↓ | - | 97.90% | - | - | - |
| 13) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 98.80% | - | - | - |
| 14) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 95.50% | - | - | - |
| 15) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 98.78% | - | - | - |
| 16) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 97.02% | - | - | - |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result | Chwartel 15/16 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 19.82 | 22 | 20.3 | 22 | Isaf / Lower |
| 02) Ll/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | ↑ | 82.3 | 93 | 90.8 | 93 | - |
| 03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Coch / Red | ↑ | 79.37 | 90 | - | - | - |
| 04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Ambr / Amber | ↓ | 4.6 | 1.5 | - | - | - |
| 05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 06) PM20b - The percentage of adults who completed a period of reablement and have no package of care and support 6 months later (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Coch / Red | ↑ | 82.84 | 100 | 82.79 | 100 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith) | Gwyrdd / Green | ↓ | 97.94 | 100 | - | - | - |
| 09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | Ambr / Amber | ↓ | 10.84 | 15 | - | - | - |
| 10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.31 | 8 | - | - | - |
| 11) Presenoldeb – Cynradd (%) (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 12) Presenoldeb – Uwchradd (%) (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 13) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 15) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+ (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) CA3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | - | 87.6 | - | - | - | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 17) CA2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | - | 89.4 | - | - | - | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 18) CS - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC/DCS | - | - | 84.7 | - | - | - | Isaf / Lower |
| 19) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | - | 144k | 145k | 289k | 285k | Isaf / Lower |
| 20) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn | - | - | - | 75k | 284k | 305k | - |
| 21) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol) | Gwyrdd / Green | → | 0 | - | 0 | - | - |
| 22) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.3 | 92 | 89.5 | 92 | - |
| 23) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol | Gwyrdd / Green | ↓ | 80 | 75 | 74.6 | - | - |
| 24) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Melyn / Yellow | ↓ | 32.6 | 25 | 33.7 | 25 | - |
| 25) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra | Gwyrdd / Green | ↑ | 94.3 | 94 | 95.1 | 95 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 26) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt | Melyn / Yellow | ↓ | 95 | 96.7 | 98.49 | 95 | Uchaf / Upper |
| 27) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | Gwyrdd / Green | ↓ | 64.87 | 60 | 59.5 | 58 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 28) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi | Gwyrdd / Green | ↓ | 9.8 | 16.9 | 16.9 | 41 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 29) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) | - | - | - | 13.5 | 13.5 | 15 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 30) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth | Gwyrdd / Green | ↑ | 60.5k | 30k | 132k | 85k | - |
| 31) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | Melyn / Yellow | ↓ | 198k | 201k | 446k | 540k | Canolrif Isaf / Lower Median |

Diweddariad Tachwedd 2016 **Atodiad 2**

ALLWEDD LLIW (RAG): Cwblhawyd Ar y gweill Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau allweddol/cefnogaeth Hwyr (gwyn= heb ddechrau)

| **Rhaglenni** | **Prosiectau Unigol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Moderneiddio Ysgolion** | Ardal y Llannau | Ardal Caergybi | Bro Rhosyr a Bro Aberffraw | Seiriol De Ddwyrain – Biwmares |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety** | Gofal Ychwanegol Llangefni | Gofal Ychwanegol Amlwch | Gofal Ychwanegol De'r Ynys | Gofal Ychwanegol Garreglwyd |
| | Byw â Chymorth | Allanoli gofal cartref mewnol | Allanoli Gwasanaethau wardeniaid | |
| **Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd a diwylliant** | Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant | Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid | |
| **Hamdden** | | | | |
| **Ynys Ynni** | | | | |
| **Lleoedd Llewyrchus, Llawn Addewid** | | | | |
| **Market Hall** | | | | |
| **Tai Fforddiadwy** | | | | |
| **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** | | | | |
| **Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC)** | | | | |
| **Gweithio'n Gallach** | Asedau | TGCh | Datblygu Gweithlu | Cyswllt Môn |
| **Gwerthuso Swyddi a Statws Sengl** | | | | |
| **Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)** | | | | |

Diweddariad Tachwedd 2016

ALLWEDD LLIW (RAG): Cwblhawyd Ar y gweill Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau allweddol/cefnogaeth Hwyr (gwyn= heb ddechrau)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid** | | | |
| **Caffael** | | | |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | | |
| **Gwelliannau Civica** | Busnes dydd i ddydd i cyllid bellach | | |
| **Rheoli Polisi** | | | |
| **Parhad Busnes** | | | |
| **Prosesau Busnes** | | | |
| **Strategaeth TGCh** | | | |
| **Moderneiddio a Chydlynu Cyngor am Fudd-daliadau** | Diwygio Lles | Trechu Tlodi | Adolygu Gwasanaeth |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**<br>**PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **21 TACHWEDD, 2016**<br>**28 TACHWEDD 2016** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2016/17** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD HE JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>01248 751865<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d / b** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**1.** Ym mis Mawrth 2016, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2016/17 gyda gwariant gwasanaeth net o £124.037m i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol.

**2.** Yng nghyllideb 2016/17, roedd angen gwneud arbedion gwerth £3.46m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol ac mae llwyddiant neu fethiant i gyflawni'r rhain wedi cael eu hadlewyrchu yn y tan / gorwariant a ddangosir.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol, sy'n berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 30 Medi 2016. Hefyd, ceir crynodeb o'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2016/17, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £660k. Mae hyn yn cyfateb i 0.53% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2016/17.

**5.** **Argymhellir bod: -**

**(i)** Y sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol hyd yma yn cael ei nodi;
**(ii)** Y Swyddog Adran 151 yn cael caniatâd i gyfalafu costau tâl cyfartal os bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo cyfarwyddyd cyfalafu ar gyfer tâl cyfartal.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d / b

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | 31 Hydref, 2016 |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Craffu** | Dim argymhelliad – nodi cynwys yr adroddiad |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / au** | |

| E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 2, 2016/17
- Atodiad B - Tabl o'r Alldro Refeniw rhagamcanedig ar gyfer 2016/17, Chwarter 2
- Atodiad C - Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn 2016/17
- Atodiad Ch - Crynodeb o'r Perfformiad Ariannol a Ragamcenir o ran Cyflawni Arbedion Cyllidebol 2016/17

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2016/17 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2016 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2016).

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2016/17

## 1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Agoriadol

**1.1** Mae'r alldro dros dro ar gyfer 2015/16 wedi arwain at falansau cyffredinol o £8.412m ar gychwyn y flwyddyn ariannol bresenol, sefyllfa iachach na'r disgwyliad. Gydag addasiadau cyfrifo terfynol, gwelwyd cynnydd o £474k yn y gronfa gyffredinol. Felly, roedd balans y gronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2016 yn £8.886m. Mae £1m o'r swm hwn wedi cael ei ddyrannu i gronfa prosiect gwella fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2016. Mae hyn yn gostwng y balans i £7.886m. Fodd bynnag, yn erbyn y balans hwn o £7.886m, mae angen caniatáu ar gyfer ymrwymiad posibl a fydd o leiaf £2.150m i setlo hawliadau cyflog cyfartal gweddilliol, sy'n gostwng lefel y cronfeydd wrth gefn heb eu hymrwymo i £5.736m, sydd £736k yn uwch na'r rheol fras o £5m. Mae'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau cytundeb gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor drin y gwariant fel gwariant cyfalaf a fyddai'n codi tâl ar y gost i'r gyllideb refeniw dros nifer o flynyddoedd. Os bydd yn llwyddo, mae'n golygu y bydd y £2.15m yn dod yn gyllideb sydd heb ei hymrwymo ac yn cael ei hychwanegu'n ôl i'r gronfa wrth gefn gyffredinol sydd ar gael i'r Cyngor.

## 2. Perfformiad Ariannol Rhagamcanedig fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion perfformiad ariannol pob gwasanaeth ar gyfer y cyfnod a'r sefyllfa alldro a ragamcenir ar gyfer pob un yn cael eu nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £801k (0.74%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, yn achos Cyllid Corfforaethol, rhagwelir tanwariant o £0.339m (2.23%) sy'n gwrthbwyso rhan o'r gorwariant a ragwelir ar wasanaethau. Yn ogystal, rhagwelir diffyg o £198k o ran casglu'r Dreth Gyngor. Rhagwelir y bydd gorwariant o £660k (0.53%) ar refeniw yn 2016/17. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch):-

| **Crynodeb o'r amrywiadau a ragwelir ar 31 Mawrth 2017 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol ar 30 Medi 2016** | **(Tan) / Gorwariant £ 000** |
|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 114 |
| Gofal Cymdeithasol i Blant | 683 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 143 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (170) |
| Gwasanaethau Eiddo | (115) |
| Gwastraff | 145 |
| Rheolaeth gorfforaethol | (100) |
| Adnoddau | 131 |
| Cyllid Corfforaethol | (339) |
| Casglu'r Dreth Gyngor | 198 |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau sy'n is na £100k) | (30) |
| **Gor/(Tan)wariant Net ar wasanaethau** | **660** |

## 3. Eglurhad o'r Amrywiadau sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gwariant y gwasanaeth £145k (12.6%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 2. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn gorwario gan £167k (1.84%) ym mlwyddyn ariannol 2016/17. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu o gymharu â'r tanwariant o £16k yr adroddwyd arno yn Chwarter 1. Mae'r gorwariant a ragwelir i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd yn y costau cludiant ysgol rhagamcanedig a rhagwelir y bydd gorwariant o £199k. Mae yna hefyd nifer o fân or/tanwariannau eraill sy'n gwrthbwyso. Derbyniwyd bid buddsoddi i arbed gan y gwasanaeth i fuddsoddi yn y System One Management a fydd yn helpu i leihau costau cludiant ysgol (tacsis) o 2017/18. Mae'r holl arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17 ar darged i'w cyflawni.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd gwariant y gwasanaeth hwn £64k (8.2%) yn is na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd y cyfnod, a'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £53k (3.71%). Mae hyn ychydig yn well na'r tanwariant o £46k yr adroddwyd arno yn chwarter 1. Disgwylir tanwariant o £10k ar Amgueddfeydd ac Orielau a thanwariant o £30k ar y Gwasanaethau Llyfrgell. Rhagwelir hefyd y bydd incwm dros ben o £13k mewn perthynas ag Ynys Lawd. Mae'r holl arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17 ar darged i'w cyflawni.

### 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Roedd gwariant ar y gwasanaeth £262k (2.4%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod hwn, a rhagwelir y bydd gorwariant o £143k (0.64%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn uwch na'r gorwariant o £16k a ragwelwyd yn chwarter 1.

**3.2.2** Mae'r elfennau o amrywiad yn yr alldro a ragwelir fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagwelir gorwariant o £102k;
- Anableddau Corfforol (AC): rhagwelir gorwariant o £8k;
- Anableddau Dysgu (AD): rhagwelir gorwariant o £422k;
- Iechyd Meddwl (IM): rhagwelir gorwariant o £284k;
- Yr Uned Ddarparu: rhagwelir tanwariant o £624k; a
- Rheolaeth a Chefnogaeth: rhagwelir tanwariant o £49k.

**3.2.3** Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf arwyddocaol mewn anableddau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae camau adferol o fewn yr Uned Ddarparu a rheolaeth a chefnogaeth wedi gwrthbwyso llawer o'r pwysau cyllidebol hyn.

**3.2.4** Mae'r rhagamcan cyllidebol wedi dirywio ers chwarter 1 yn bennaf oherwydd pwysau lleoli yn y misoedd diwethaf yn y Gwasanaethau Anableddau Dysgu a Phobl Hŷn. Fel y nodwyd uchod, tra bod nifer y lleoliadau yn parhau i leihau dros amser, mae rhai lleoliadau drutach yn y misoedd diwethaf wedi cael effaith andwyol ar y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.2.5** Nod y gwasanaeth yw lleihau'r gorwariant drwy ddod ag arbedion penodol yn 2017/18 ymlaen i'r flwyddyn gyfredol. Mae arbedion wedi'u targedu ar gyfer dau unigolyn sydd wedi eu lleoli mewn lleoliadau arbenigol mewn siroedd eraill. Bydd y gwasanaeth yn parhau i reoli niferoedd y lleoliadau'n ofalus drwy banel adnoddau a gynhelir bob wythnos yn y Gwasanaethau Pobl Hŷn / Anableddau ac o fewn Gwasanaethau Anableddau Dysgu. Bydd y panelau'n chwarae rôl hanfodol wrth reoli gwariant a sicrhau bod gwasanaethau priodol a chost effeithiol lle mae hynny'n bosibl yn cael eu comisiynu.

**3.2.6** Ni fydd modd cyflawni arbedion effeithlonrwydd 2016/17 yn llawn. Mae arbedion a gynlluniwyd drwy allanoli gwasanaethau mewnol byw â chymorth ac ail-dendro gwasanaethau allanol byw â chymorth yn cyfrannu dros £70k at y sefyllfa o orwariant. Mae'n annhebygol y bydd modd cyflawni £135k o arbedion yn y gyllideb yn 2016/17. Cafwyd oedi o ran cynnydd gyda'r ymarferion caffael hyn er mwyn cwblhau Adroddiad Cefnogi Pobl i ariannu prosiectau yn y dyfodol ac, yn ogystal, mae'r adran wedi ailystyried y dulliau o gyflawni arbedion yn y ddau brosiect. Mae dulliau cyflawni arbedion yn y ddau faes yn cael eu datblygu'n awr gyda'r bwriad o weithio mewn partneriaeth â darparwyr i resymoli gofal mewn prosiectau byw gyda chymorth.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd y gwariant ar y gwasanaeth £299k (7.9%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 2 a rhagwelir y bydd gorwariant o £683k (9.18%) ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys gorwariant rhagamcanedig o £675k ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Mae hwn yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £297k yr adroddwyd arno yn chwarter 1.

**3.3.2** Roedd y gorwariant a ragwelwyd yn cael ei achosi gan gynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ogystal â chynnydd yng nghost lleoliadau i ddiwallu anghenion cymhleth y plant yn ein gofal. Mae cost gofal maeth wedi cynyddu yn yr un modd oherwydd y nifer gynyddol o blant sydd yng ngofal yr Awdurdod. Mae'r galw am y gwasanaethau statudol hyn yn anodd ei reoli a gall un neu ddau o achosion cymhleth olygu cynnydd sylweddol yn y gwariant mewn cyfnod byr o amser. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod 25 Gorffennaf, 2016 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ryddhau cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant i ariannu'r tîm Trothwy Gofal. Bydd y tîm hwn yn mynd ati mewn modd ataliol i sicrhau lles plant ac mae'n anelu at ostwng nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ar Ynys Môn. Mae £100k wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2016/17 o gronfeydd wrth gefn a bydd £241k yn cael ei ychwanegu at gyllideb y gwasanaeth ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd yn i ddechrau gweld manteision y prosiect hwn o ran osgoi costau o 2017/18 ymlaen.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd y gwasanaeth wedi gwario £40k (4.6%) llai o'r gyllideb na broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod. Disgwylir y bydd gan y gwasanaeth danwariant bychan o £12k (1.38%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn welliant bychan o gymharu â'r gyllideb gytbwys yr adroddwyd arni ar ddiwedd chwarter 1. Disgwylir y bydd gan Ganolfan JE O'Toole orwariant o £28k, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ariannu gan y tanwariant o £40k ar weinyddu Tai. Mae camau adferol yn cael eu cymryd i leihau costau Canolfan JE O'Toole trwy ail-leoli'r Grŵp Cefnogi Tenantiaid. Nid yw arbedion effeithlonrwydd ar gyngor lles wedi cael eu gwireddu eto oherwydd yr oedi a gafwyd mewn perthynas â chwblhau'r adolygiad allanol a fydd yn rhoi cyngor ar y model darparu mwyaf effeithlon.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymunedol (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)

**3.5.1.1** Roedd y gwasanaeth yn gyffredinol wedi gwario £150k yn llai na’r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1 (11.7%). Gellir priodoli £76k o'r tanwariant i broblemau proffilio cyllidebau grantiau ond bydd y rhain wedi eu gwario erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £17k (0.85%) yn y gwasanaeth erbyn 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn well na’r gorwariant o £50k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 1.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd elfen Datblygu Economaidd y Gwasanaeth â chyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.3** Mae disgwyl y bydd tanwariant o £53k yn yr Adain Forwrol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i reoli swyddi gweigion.

**3.5.1.4** Rhagdybir y bydd gorwariant o £70k yn y gwasanaeth Hamdden ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, yn rhannol, o ganlyniad i gau Canolfan Hamdden Caergybi yn ystod cyfnod yr haf ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol ac atgyweiriadau ar ôl difrod storm yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf sydd wedi lleihau lefel yr incwm a dderbyniwyd.

### 3.5.2 Rheoleiddio (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

**3.5.2.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi gwario £112k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd (6.9%) ar ddiwedd y cyfnod a disgwylir tanwariant o £170k (6.65%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd ar y tanwariant o £110k yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 1. Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd incwm dros ben oddeutu £50k mewn perthynas â datblygiadau mawr a bydd yr arian hwnnw’n cael ei roi mewn cronfa wrth gefn glustnodedig i gefnogi gweithrediad datblygiadau mawr yn y dyfodol.

**3.5.2.2** Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau yn Rheoleiddio yn tanwario ac eithrio ‘Planning Delivery Wales’, Cefn Gwlad a'r Arfordir, Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach sydd, fe ragdybir, yn debygol o orwario rhywfaint.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd y gwasanaeth wedi gwario £64k (1.5%) yn llai na’r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd y cyfnod, ond rhagwelir y bydd wedi gorwario £80k (1.21%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn yr un fath â'r rhagolwg yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 1. Nid yw’r alldro rhagdybiedig hwn yn cynnwys unrhyw ragamcan mewn perthynas â’r cyllidebau gwaith gan fod y rhain yn cael eu heffeithio gan ofynion cynnal a chadw dros y gaeaf ac unrhyw ddifrod storm. Mae yna hefyd ansicrwydd ynghylch costau cludiant cyhoeddus a chostau dylunio gwaith cynnal a chadw ac, o’r herwydd, mae cyllideb gytbwys wedi cael ei rhabdybio ar gyfer y rhain.

**3.6.1.2** Mae'r gorwariant rhagdybiedig i’w briodoli’n bennaf i’r diffyg a ragwelir mewn perthynas â chyllidebau incwm Rheoli Gwaith Cynnal a Chadw (£50k); incwm o feysydd parcio (£25k) a gorwariant o £5k mewn perthynas â Rheoli Goleuadau.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd y gwasanaeth gwastraff wedi gwario £68k (1.6%) yn llai na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd Medi 2016. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ragweld gorwariant o £145k (2.30%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw'r rhagamcan hwn yn cynnwys effaith y newid i gasglu gwastraff bob tair wythnos o 1 Hydref 2016 a hynny oherwydd ansicrwydd mewn perthynas â nifer y tunelli a gesglir. Bydd effaith gyllidebol o hyn yn cael ei asesu a'i adrodd arno yn ystod proses monitro'r gyllideb yn chwarter 3.

**3.6.2.2** Mae'r costau mewn perthynas â Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn yn uwch na'r gyllideb oherwydd costau asiantaeth a chostau atgyweirio a chynnal a chadw. Rhagwelir y bydd y safle yn gorwario gan £60k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae diffyg o ran yr incwm a gasglwyd o Safle Cynhyrchu Trydan Penhesgyn a fydd, fe ragdybir, £85k yn brin o'r targed ar gyfer y flwyddyn ariannol.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Roedd tanwariant o £143k (25%) yn y Gwasanaethau Eiddo o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod a rhagdyir y bydd tanwariant o £115k (9.35%) ar 31 Mawrth 2017. Amcangyfrifir gorwariant o £94k ar atgyweiriadau a chynnal a chadw ac y bydd y gorwariant hwn yn cael ei wrthbwyso gan danwariant ar weithwyr (£54k), tanwariant mewn Trethi Annomestig (£89k) ac arbedion ar gyfraniadau pensiwn y cyflogwr oherwydd bod staff wedi dewis peidio ag ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dilyn gweithredu statws sengl (£84k).

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gwariant y Gwasanaeth Trawsnewid £168k (9.4%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod, fodd bynnag, bydd llawer o'r costau hyn yn cael eu cyllido o gronfeydd wrth gefn a grantiau a glustnodwyd a fydd yn cael eu credydu i gyllideb y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £ 50k (1.42%) yn y swyddogaeth ar ddiwedd y flwyddyn sy'n sefyllfa well o gymharu â'r gyllideb gytbwys yr adroddwyd arni yn chwarter 1. Bydd gorwariant o £50k mewn TGCh yn cael ei wrthbwyso gan y tanwariant a ragamcenir yn y tîm Trawsnewid Corfforaethol (£50k) a Phartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd (£50k).

**3.7.1.1** Mae'r swyddogaeth TGCh yn rhagweld gorwariant o £50k fel y nodwyd uchod oherwydd costau Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA).

**3.7.1.2** Mae'r swyddogaeth Adnoddau Dynol yn rhagweld cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol.

## 3.8 Adnoddau

**3.8.1** Roedd gweddill cyllideb y Swyddogaeth Adnoddau yn dangos tanwariant o £6k (0.25%) erbyn diwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd y gorwariant o £131k (3.41%) yn y swyddogaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r pwysau cyllidebol allweddol yn ymwneud â chostau staffio, costau cefnogi meddalwedd a chostau contract Gwasanaeth, sef cyfanswm o £181k. Bydd grantiau annisgwyl (£35k) ac arbedion staffio yn yr adain archwilio (£20k) o gymorth i leihau'r gorwariant net. Mae gwaith yn mynd rhagddo i leihau gwariant yn ystod ail ran y flwyddyn.

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd y swyddogaeth wedi gwario £17k (2.3%) yn fwy na'r gyllideb a broffiliwyd ar 30 Medi 2016. Fodd bynnag, rhagdybir y bydd tanwariant o £62k (4.10% o'r gyllideb gros) ar gyfer y flwyddyn ariannol. Y rhesymau mwaf arwyddocaol am hyn yw tanwariant disgwyliedig yn y Gwasanaethau Pwyllgorau (£30k) a phridiannau tir yn cynhyrchu mwy o incwm (£25k) na'r disgwyl.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd y gyllideb £8k yn llai na'r gyllideb broffiliedig wedi cael ei wario ar ddiwedd y cyfnod. Rhagamcenir y bydd tanwariant o £3k ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd arbedion ar danysgrifiadau CLILC.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Mae'r tanwariant o £50k (13%) yn y swyddogaeth ar 30 Medi 2016 a rhagwelir tanwariant o £100k (13.85%) ar gyfer y flwyddyn ariannol oherwydd arbedion yn deillio o ailstrwythuro Rheolaeth Strategol.

**4. Cyllid Corfforaethol**

**4.1** Disgwylir y bydd tanwariant o £339k (2.23%) ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol.

**4.2** Mae'r gyllideb budd-daliadau a roddir yn cynnwys budd-daliadau tai, taliadau tai dewisol a chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Amcangyfrifir y bydd tanwariant o £311k yn y gyllideb. Yr elfen arwyddocaol o hyn yw tanwariant o £540k oherwydd baich achosion sy'n llai na'r hyn a gyllidwyd amdanynt yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei leihau gan amcangyfrif cynnydd o £150k yn y ddarpariaeth dyledion drwg a £79k o gostau nad ydynt yn gymwys i gael cymhorthdal.

**4.3** Amcangyfrifir diffyg ar y targed arbedion corfforaethol o £102k mewn perthynas â gweithio'n gallach a diswyddiadau gwirfoddol. Mae yna arbedion y gellir eu priodoli'n glir i'r prosiect. Er enghraifft, gellir credydu cau swyddfeydd yn erbyn y gyllideb hon. Fodd bynnag, mae arbedion eraill mewn perthynas â chostau gweinyddu staff a gweinyddiaeth gyffredinol yn cael eu gwireddu yng nghyllidebau'r gwasanaethau ac nad oes cyfrif amdanynt yn erbyn y targed hwn. Fodd bynnag, nid oes dim i'w ddweud na fydd y prosiect Gweithio'n Gallach yn cyflawni'r arbedion a ragwelwyd ar y cychwyn.

**4.4** Mae yna ddiffyg sylweddol hefyd o ran y llog a dderbynnir ar adneuon banc yr Awdurdod (£110k), ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu gyda thorri'r gyfradd banc swyddogol o 0.50% i 0.25%. Mae'r gorwariannau hyn yn cael eu gwrthbwyso oherwydd mae'r costau benthyca'n is gan fod yr Awdurdod yn defnyddio ei falansau ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn hytrach na benthyca allanol. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd y benthyca mewnol hwn yn bosibl yn y dyfodol oherwydd y prosiectau cyfalaf sylweddol yn enwedig mewn perthynas â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**4.5** Mae Atodiad C yn crynhoi'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â chyllidebau wrth gefn ar 30 Medi 2016. Cafodd cyllideb ar gyfer cronfeydd wrth gefn werth £2.039m ei chymeradwyo fel rhan o gyllideb 2016/17. Mae £208k net wedi cael ei drosglwyddo i wasanaethau i ariannu prosiectau penodol neu faterion cyllidebol a gymeradwywyd gan y Swyddog Adran 151. Yn ogystal, mae £1,135k wedi'i ymrwymo o'r arian wrth gefn i ariannu costau a gymeradwywyd. Disgwylir y bydd y £656k sy'n weddill, ag eithro'r £40k arian wrth gefn ar gyfer y swydd Swyddog Datblygu'r Gweithlu, wedi cael ei wario yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn ar yr amod y ceir y caniatâd angenrheidiol ar gyfer y defnydd o gyllidebau wrth gefn. Dylid nodi bod y gronfa wrth gefn gyffredinol o £236k wedi cael ei sefydlu i ariannu costau annisgwyl yn ystod y flwyddyn ac nid yw wedi ei ddyrannu eto. Mae'n anodd rhagweld y pwysau ar y gyllideb hon, felly, at ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi rhagweld y bydd y gronfa wrth gefn gyffredinol yn cael ei defnyddio'n llawn er y bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Caiff y gyllideb ar gyfer Cronfa'r Dreth Gyngor ei phennu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu yn y flwyddyn gyfredol yn unig yn seiliedig ar y ffigwr a osodwyd fel sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2015. Nid yw'n darparu ar gyfer dyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i ymrwymiadau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau i bobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen dreth y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus. Nid oes modd amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, byddant yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Amcangyfrifir y bydd swm gwirioneddol y Dreth Gyngor a gesglir £186k yn uwch na'r gyllideb, er fod £66k o hwn oherwydd addasiadau y flwyddyn flaenorol fel trafodwyd uchod. Ni fydd y gwarged yma'n ddigon i dalu am y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus, sydd, yn ôl y rhagolygon presennol, yn £384k. O'r herwydd, y rhagdybiaeth gyfredol yw y bydd diffyg o £198k (0.62%) yng Nghronfa'r Dreth Gyngor oherwydd yr angen i wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer dyledion drwg. Mae'r sefyllfa hon ychydig yn waeth na'r diffyg o £131k a ragwelwyd yn Ch1.

## 6. Arbedion Cyllideb 2016/17

**6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £3.06m eu tynnu o gyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2016/17 a £400k ychwanegol o arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol eu cadw mewn cronfa wrth gefn. Yn Atodiad Ch, ceir crynodeb o'r perfformiad disgwyliedig yn erbyn yr arbedion cyllidebol hyn ar gyfer y flwyddyn. Mae £2.507m (81.92%) o'r arbedion eisoes wedi eu cyflawni neu fe dybir y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

**6.2** Ni fydd modd cyflawni £511k (16.70%) o'r targedau arbedion yn 2016/17. Mae £220k o'r rhain eisoes wedi cael eu cynnwys yn yr alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw £291k wedi cael ei gynnwys yn y rhagolygon oherwydd diffyg gwybodaeth i asesu a fydd modd cyflawni'r arbedion hyn ai peidio. Os na fydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni, yna bydd cynnydd pellach o £291k yn y gorwariant ar gyfer y flwyddyn. Er gwaethaf y ffaith na fydd modd cyflawni gwerth £511k o'r arbedion yn 2016/17, mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i weithredu'r cynigion ac, o ganlyniad, mae'r arbedion yn debygol o gael eu cyflawni yn 2017/18. Fodd bynnag, ni fydd modd cyflawni gwerth £42k o arbedion yn y dyfodol. Ni fydd y targed incwm £10k ar gyfer hysbysebu ar finiau yn cael ei gyflawni gan nad oes marchnad ar gyfer hyn. Yn ogystal, ni fydd £32k yn cael ei gyflawni o fewn y Gwasanaethau Plant o ganlyniad i gynnydd ofynion cyfreithiol sy'n golygu y bydd yr arbedion yn anhyfyw.

**6.3** Bydd y rhan fwyaf o'r £400k (75%) o arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, mae'r rhagamcan ar ddiwedd y flwyddyn yn amcangyfrif na fydd modd cyflawni £102k o'r £400k o arbedion a gynigir yn 2016/17. Wrth i staff gael eu rhyddhau, caiff strwythurau staffio eu had-drefnu ac mae angen penodi staff i'r strwythurau diwygiedig. Mewn rhai achosion, mae'r broses hon wedi cymryd mwy o amser i weithredu ac mae staff, y mae'r Cyngor wedi cytuno i'w rhyddhau, yn parhau i gael eu cyflogi gan y Cyngor.

## 7. Casgliad

**7.1** Rhagwelir y bydd cyfanswm y gorwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017 yn £660k (0.53%). Rhagwelir gorwariant o £801k ar gyllidebau gwasanaethau, er rhaid pwysleisio ei fod yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau cyllidebol yn debyg i 2015/16 (Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant, Gwastraff ac Adnoddau). Yn ogystal, rhagwelir gorwariant o £114k yn yr Adran Dysgu Gydol Oes. Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r materion ac yn gweithio i leihau lefel y gorwario ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gorwariant ar wasanaethau'n cael ei wrthbwyso yn rhannol gan danwariant o £339k ar Gyllid Corfforaethol sydd i'w briodoli yn bennaf i danwariant ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Yn ogystal, rhagdybir y bydd diffyg o £198k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor oherwydd y gofyniad i ddarparu ar gyfer dyledion drwg. Er bod lefel gyfredol y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol i gwrdd â'r lefel hon o orwario, petai'n rhaid i'r Cyngor hefyd ariannu costau tâl cyfartal o'i gronfeydd wrth gefn cyffredinol, byddai'r lefel wedyn yn agos ar y lefel isaf o £5m.

**7.2** Dylid nodi bod chwarter 2 yn fuan yn y flwyddyn ariannol ac nad yw eitemau megis effaith gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf wedi cael eu cynnwys yn y rhagamcan oherwydd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael. Gall rhagamcanion newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd sgriwtini rheolaidd yr UDA a chamau unioni gan Benaethiaid Gwasanaeth yn helpu rheolwyr gwasanaethau i reoli'r cyllidebau y maent yn gyfrifol amdanynt.

## Cyngor Sir Ynys Môn Rhagolwg Alldro 2016/17 - Chwarter 2 — Atodiad B

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol Wreiddiol 2016/17 | Ch2 Cyllideb 2016/17 hyd yma | Ch2 Gwir Wariant a Gwariant a Glustnodwyd | Ch2 Amrywiant 2016/17 | Ch2 Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2017 | Ch2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2017 (drosodd/ o dan) | Ch1 Amcangyfrif o alldro 31 Mawrth 2017 (drosodd/ o dan) | Gorwariant / (tanwariant) fel % o'r Gyllideb 2016/17 wreiddiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** |
| | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | |
| Delegated Schools Budget | 38,422 | 23,289 | 23,289 | (0) | 38,422 | 0 | **0** | 0.00% |
| Addysg Ganolog | 9,065 | 1,147 | 1,292 | 145 | 9,232 | 167 | **(16)** | 1.84% |
| Diwylliant | 1,429 | 783 | 719 | (64) | 1,376 | (53) | **(46)** | 3.71% |
| | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 22,343 | 10,976 | 11,238 | 262 | 22,486 | 143 | **16** | 0.64% |
| | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 7,443 | 3,763 | 4,062 | 299 | 8,126 | 683 | **270** | 9.18% |
| | | | | | | | | |
| Tai | 869 | 875 | 835 | (40) | 857 | (12) | **0** | 1.38% |
| | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,618 | 4,117 | 4,053 | (64) | 6,698 | 80 | **80** | 1.21% |
| Eiddo | 1,230 | 580 | 437 | (143) | 1,115 | (115) | **0** | 9.35% |
| Gwastraff | 6,296 | 4,106 | 4,038 | (68) | 6,441 | 145 | **145** | 2.30% |
| | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | |
| Economaidd | 2,001 | 1,282 | 1,132 | (150) | 2,018 | 17 | **50** | 0.85% |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,555 | 1,617 | 1,505 | (112) | 2,385 | (170) | **(110)** | 6.65% |
| | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,093 | 662 | 817 | 155 | 1,093 | 0 | **0** | 0.00% |
| TGCh | 1,618 | 836 | 962 | 126 | 1,668 | 50 | **100** | 3.09% |
| Trawsnewid Corfforaethol | 821 | 285 | 172 | (113) | 721 | (100) | **(100)** | 12.18% |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol Wreiddiol 2016/17 | Ch2 Cyllideb 2016/17 hyd yma | Ch2 Gwir Wariant a Gwariant a Glustnodwyd | Ch2 Amrywiant 2016/17 | Ch2 Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2017 | Ch2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2017 (drosodd/ o dan) | Ch1 Amcangyfrif o alldro 31 Mawrth 2017 (drosodd/ o dan) | Gorwariant / (tanwariant) fel % o'r Gyllideb 2016/17 wreiddiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Adnoddau** | | | | | | | | |
| Adnoddau | 3,843 | 2,383 | 2,377 | (6) | 3,974 | 131 | **131** | 3.41% |
| | | | | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 1,512 | 725 | 743 | 17 | 1,450 | (62) | **(62)** | 4.10% |
| | | | | | | | | |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 948 | 414 | 406 | (8) | 945 | (3) | **(5)** | 0.32% |
| | | | | | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 722 | 373 | 324 | (50) | 622 | (100) | **(100)** | 13.85% |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaeth** | **108,828** | **58,214** | **58,399** | **186** | **109,629** | **801** | **353** | **0.74%** |
| | | | | | | | | |
| Cyllid Corfforaethol | | | | | | | | |
| Ardollau | 3,194 | 1,597 | 1,598 | 1 | 3,194 | 0 | **0** | 0.00% |
| Cyllido Cyfalaf | 8,302 | 859 | 859 | 0 | 8,214 | (88) | **(88)** | 1.06% |
| Addasiad Corfforaethol ar gyfer Dibrisiant | 60 | 0 | 0 | 0 | 58 | (2) | **(2)** | 3.33% |
| Gostyngiadau Dewisol yn y Dreth | 1,978 | 0 | 0 | 0 | 1,938 | (40) | **0** | 2.02% |
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | (4,238) | 0 | 0 | 0 | (4,136) | 102 | **200** | 2.41% |
| Cyllido a Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn | 5,913 | 3,849 | 3,885 | 36 | 5,603 | (311) | **(228)** | 5.26% |
| Budd-daliadau a Ganiatawyd | **15,209** | **6,305** | **6,342** | **36** | **14,870** | **(339)** | **(118)** | **2.23%** |
| Cyllid Praeseptau | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 124,037 | 64,519 | 64,742 | 223 | 124,500 | 462 | **235** | 0.37% |
| | | | | | | | | |
| Cyfanswm Cyllideb 2016/17 | | | | | | | | |
| Cyllido 2016/17 | (21,309) | | | | (21,309) | 0 | **0** | 0.00% |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | (32,109) | | | | (31,912) | 198 | **131** | 0.62% |
| Y Dreth Gyngor | (70,619) | | | | (70,619) | 0 | **0** | 0.00% |
| Grant Cymorth Refeniw | **(124,037)** | | | | **(123,840)** | **198** | **131** | **0.16%** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid 2016/17** | **(0)** | | | | **660** | **660** | **366** | **0.53%** |

**Atodiad C**

**Crynodeb o Sefyllfa Ariannol y Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer 2016/17 fel yr oedd yn Chwarter 2**

| | Cyllideb Wreiddiol £ | Trosglwyddiadau £ | Cyllideb Ddiwygiedig £ | Ymrwymwyd hyd yma (26/10/16) £ | Y swm sydd heb ei ymrwymo ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella | 400,000.00 | -104,730.00 | 295,270.00 | 295,270.00 | 0.00 |
| Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | 317,927.00 | 73,680.00 | 391,607.00 | 155,000.00 | 236,607.00 |
| Tâl a Graddfeydd | 500,000.00 | -81,235.00 | 418,765.00 | 0.00 | 418,765.00 |
| Cost Newid | 136,000.00 | -95,570.00 | 40,430.00 | 0.00 | 40,430.00 |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig (gan ganiatáu ar gyfer disgownt) | 60,000.00 | 0.00 | 60,000.00 | 60,000.00 | 0.00 |
| Cronfeydd wrth Gefn wedi eu Clustnodi | 625,000.00 | 0.00 | 625,000.00 | 625,000.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth gefn** | **2,038,927.00** | **-207,855.00** | **1,831,072.00** | **1,135,270.00** | **695,802.00** |

## Crynodeb o'r Perfformiad a Ragamcenir mewn perthynas â chyflawni Arbedion yng Nghyllideb 2016/17 – Chwarter 2

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2016/17 £000 | Modd eu cyflawni yn 2016/17 £000 | Posibilrwydd na fydd modd eu cyflawni yn 2016/17 £000 | Dim modd eu cyflawni o gwbl £000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 1,308 | 1,308 | - | - | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 258 | 245 | 13 | - | Dim modd cyflawni £13k yn 2016/17 ond bydd yn cael ei gyllido yn ystod y flwyddyn o danwariant mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 730 | 409 | 311 | 10 | Dim modd cyflawni £30k, gellir cyllido £16k o danwariant mewn mannau eraill. Anodd asesu a fydd modd cyflawni £291k tan y gaeaf. Ni fydd modd sicrhau £10k ar gyfer hysbysebu ar finiau oherwydd nid oes marchnad ar gyfer hyn. |
| Gwasanaethau Oedolion | 335 | 200 | 135 | - | £107k yn anodd ei gyflawni yn ystod 2016/17 oherwydd prosesau adolygu ac ymgynghori. |
| Gwasanaethau Plant | 143 | 96 | 15 | 32 | Ni fydd modd cyflawni £32k oherwydd newid yn y gyfraith, efallai y bydd modd ei gyflawni o 2017/18. |
| Tai | 74 | 37 | 37 | - | £37k yn dibynnu ar gyngor ymgynghorwyr er ei fod wedi cael ei gyllido o danwariannau eraill yn y gwasanaeth yn 2016/17. |
| Trawsnewid | 4 | 4 | - | - | |
| Busnes y Cyngor | 56 | 56 | - | - | |
| Adnoddau | 72 | 72 | - | - | |
| Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd | 80 | 80 | - | - | |
| **Cyfanswm** | **3,060** | **2,507** | **511** | **42** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI**<br>**PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **21 TACHWEDD 2016**<br>**28 TACHWEDD 2016** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2 2016/17** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES (Est 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>GarethRoberts@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(mandadol) | Amherthnasol – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Dim argymhelliad – nodi cynnwys yr adroddiad |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2, 2016/17

Atodiad B - Crynodeb o Wariant y Prosiect Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a ragwelir erbyn Diwedd y Flwyddyn

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2016/17, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2016;
- Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17, a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2016;
- Adroddiad ar Ganlyniadau Cyfalaf 2015/16, a aeth i'r Pwyllgor hwn ar 31 Mai 2016; ac
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2016/17 - Chwarter 1, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 19 Medi 2016.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Hwn yw'r adroddiad ar fonitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatáu i'r Aelodau nodi cynnydd y Gwariant Cyfalaf a'r Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai, sef £26.933m ar gyfer 2016/17 a Rhaglen Gyfalaf o £11.636m ar gyfer y CRT. Ym mis Mai 2016, cymeradwyodd y Cyngor ddwyn ymlaen £7.792m o lithriad cyfalaf o 2015/16. Ers y broses o bennu'r gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau eraill i'r rhaglen. Gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau ac maent yn gwneud cyfanswm o £5.885m. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau grant megis grant cyfalaf £3.148m dan y Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Grant Diogelwch Ffyrdd o £0.105m, Grant Llwybrau Diogelach mewn Cymunedau o £0.108m a grant Cronfa Gofal Canolraddol o £0.244m. Cymeradwywyd cyfanswm o £0.286m o brosiectau Buddsoddi i Arbed hefyd a gyllidir o Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i £52.246m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT YN 2016/17

**2.1** Isod mae tabl cryno o'r gwariant cyfalaf hyd at 30 Medi 2016, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Medi 2016 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2016/17.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a broffilwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant a Ymrwymwyd £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gwariant o'r Gyllideb a broffiliwyd | % y Gwariant o'r Gyllideb Flynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Dai Gyffredinol | 2,528 | 835 | 599 | 23 | 623 | 75 | 25 |
| CRT Tai | 14,169 | 4,374 | 3,202 | 462 | 3,663 | 84 | 26 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,776 | 3,662 | 3,893 | 58 | 3,951 | 108 | 31 |
| Economaidd ac Adfywio | 4,614 | 729 | 607 | 6 | 613 | 84 | 13 |
| Priffyrdd | 11,054 | 4,225 | 3,602 | 96 | 3,698 | 88 | 33 |
| Rheoli Gwastraff | 628 | 509 | 228 | 194 | 422 | 83 | 67 |
| Eiddo | 1,128 | 701 | 604 | 4 | 608 | 87 | 54 |
| Trawsnewid | 1,728 | 821 | 815 | 186 | 1,001 | 122 | 58 |
| Cynllunio | 1,765 | 205 | 39 | 158 | 197 | 96 | 11 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,857 | 793 | 771 | - | 771 | 97 | 41 |
| **Cyfanswm** | **52,246** | **16,854** | **14,360** | **1,186** | **15,546** | **92** | **30** |

| | |
|---|---|
| **Ariannwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 24,698 |
| Derbynebiadau Cyfalaf | 6,574 |
| Benthyca gyda Chymorth | 2,189 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,730 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,667 |
| Arian Wrth Gefn | 786 |
| Yswiriant | 603 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **52,246** |

**2.2** Y gwariant a broffiliwyd hyd at ddiwedd yr ail chwarter ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yw 95%, fodd bynnag; dim ond 30% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf wedi eu pwysoli tuag at chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, disgwylir y bydd 81% o'r gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol wedi ei wario. Y ddau Brosiect Cyfalaf mwyaf na fyddant wedi gwario eu cyllidebau'n llawn yn y flwyddyn ariannol hon - ac sy'n rhannol gyfrifol am y ffaith mai dim ond 81% o'r gyllideb sydd wedi ei wario - yw'r Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni a'r Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd. Mae'r Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni yn dal i aros am arian WEFO ac ni ragwelir y bydd unrhyw wariant cyfalaf eleni. Rhagwelir y bydd tanwariant yn y Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd oherwydd bod Prosiect Ffordd Nanner wedi costio llai nag a ragwelwyd ac nid oes cymaint o waith ar-lein wedi ei wneud hyd yma ag yr amcangyfrifiwyd yn wreiddiol. Mae risgiau gyda rhai prosiectau cyfalaf ac mae'r rhain wedi eu hamlygu yn Rhan 3.1.2 yr adroddiad hwn. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi hen gychwyn a gwariwyd y rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 2. Nid yw rhai Cynlluniua cyfalaf wedi cychwyn hyd yma, ond mae eu cyllidebau wedi cael eu proffilio tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffiliau yn Atodiad B.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 84% o'r gyllideb a broffiliwyd, ond dim ond 26% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd 86% o'r gyllideb wedi ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd mai dim ond 30 eiddo o'n stoc presennol a brynwyd o gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol o 40. Fodd bynnag, bydd y 10 na chawsant eu prynu yn y flwyddyn ariannol hon yn cael eu prynu yn 2017/18 ac, felly, bydd y gyllideb a danwariwyd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Yn ystod Chwarter 2, llwyddwyd i gwblhau contractau cyfalaf y dygwyd ymrwymiad iddynt ymlaen o 2015/16. Dyfarnwyd 5 o gontractau gwaith cynnal traddodiadol newydd, sydd wedi ymrwymo dros £3.8m o'r gyllideb ar gyfer 2016/17. Mae'r Gwasanaeth Tai yn rhagweld y bydd y contractau hyn wedi eu cwblhau'n ymarferol cyn diwedd Chwarter 4. Gwahoddir tendrau am 2 gynllun pellach yn ystod Chwarter 3. O ganlyniad, bydd y gyllideb ar gyfer y rhaglen gynnal a chadw wedi ei hymrwymo'n llawn cyn diwedd Chwarter 3.

**2.4** Mae'r rhaglen gwella mân-ddaliadau, a gyllidir gydag arian cyfalaf wedi ei hamgau a geir yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm rhent, wedi cael ei hymestyn am flwyddyn ychwanegol. Mae gwariant ar y rhaglen hon yn parhau i fod yn uwch na'r cyllid a geir drwy werthu mân-ddaliadau a'r rhent a geir amdanynt. Dygwyd diffyg o £1.281m ymlaen o 2015/16. 'Roedd derbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd yr ail chwarter yn £0.860m a gwariwyd £0.579m hyd yma. O ganlyniad, mae'r diffyg bellach yn £1.000m. Ar gyfer ail hanner y flwyddyn, rhagwelir Gwariant Cyfalaf o £0.762m a £2.581m o Dderbyniadau Cyfalaf. Byddai hyn yn golygu, pe bai'r holl fân-ddaliadau yn cael eu gwerthu am y pris disgwyliedig, bydd gwarged o £0.819m ar ddiwedd y flwyddyn yn y rhaglen mân-ddaliadau. Bydd angen gwneud penderyniad ynghylch a ddylid neilltuo unrhyw Dderbyniadau Cyfalaf sydd dros ben ar gyfer y Rhaglen Mân-ddaliadau ynteu eu dyrannu i'r Gronfa Gyffredinol.

## 3. CYLLID

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17. Ar ddiwedd yr ail chwarter, mae rhai cynlluniau sydd heb ddechrau eto megis y Grant Diogelwch Ffyrdd gyda chyllideb o £0.105m a'r Gronfa Gofal Canolraddol gyda chyllideb o £0.244m. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y grantiau hyn wedi eu gwario yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.1.2** Mae pum cynllun sy'n cario risg sylweddol o ran y cyllid Grant Cyfalaf, sef:-

- Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ar ddiwedd yr ail chwarter, 'roedd y Grant Cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn wedi ei hawlio yn unol â'r proffil ac nid oes ond un mater bach i adrodd arno. Oherwydd y gwaith archeolegol wrth Ysgol Rhyd Y Llan, mae posibilrwydd o orwariant o £0.150m. Fodd bynnag, os ceir y gwariant ychwanegol eleni, rydym yn dal i fod o fewn yr amlen ar gyfer Band A, felly, nid oes unrhyw broblemau gyda chyllid grant. Gan fod hwn yn gynllun mor fawr gyda chyllideb eleni o £12.274m, mae'n cario risg sylweddol. Os cawn dywydd mawr dros fisoedd y gaeaf neu os bydd materion annisgwyl yn codi gyda'r safleoedd, gallai olygu oedi. Gallai unrhyw broblemau arwain at fethiant i wario yn unol â'r proffil yn y dyfodol a gallai hynny arwain at golli arian.

- Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LlLlLlA) – mae'r gyllideb gyfalaf am 2016/17 yn £3.148m. Ar ddiwedd yr ail chwarter, dim ond £0.380m sydd wedi ei wario, er bod y rhan fwyaf o gyllideb y cynllun wedi ei broffilio'n drwm tuag at ail hanner y flwyddyn ariannol. Disgwylir gwario'r grant yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn, ond, o ystyried lefel y gwariant sydd ei angen yn ail hanner y flwyddyn ariannol, mae perygl na fydd y gwariant yn cyrraedd y lefel ofynnol ac y collir cyllid grant. Rhagwelwyd y byddai prosiect Neuadd y Farchnad yn gwario £970k yn 2016/17 ar draws nifer o ffrydiau ariannu, fodd bynnag, erbyn hyn rhagwelir y bydd y cynllun yn gwario £557k o gyfalaf eleni, gyda'r cyfan yn cael ei ariannu drwy'r cynllun LlLlLlA.

- Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni - Y gyllideb bresennol ar gyfer y cynllun hwn yw £3.732m. Cafwyd hyd i olion archeolegol ar y safle sydd wedi golygu oedi. Yn ogystal, mae angen prynu rhagor o dir ac mae hynny'n risg ynddo'i hun. Ar ddiwedd yr ail chwarter 'roedd cyfanswm y gwariant yn £2.201m ond, oherwydd costau annisgwyl yn codi o'r darganfyddiadau archeolegol rhagwelir y bydd y cynllun yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Mae bwlch ariannu posib o £0.627m, ac mae'r Awdurdod mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid grant ychwanegol.

- Cynllun Atal Llifogydd ym Miwmares - ar ôl cwblhau'r elfen arfordirol ym mis Chwefror, 'roedd cam dau y Cynllun Atal Llifogydd hwn yn cynnwys elfen afonol y gwaith. Mae oedi gyda'r elfen hon o'r gwaith yn sgil gwrthwynebiadau gan drigolion a methiant i ddod i gytundeb gyda thirfeddiannwr. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i ddyfarniad yn ddiweddar ar y gwrthwynebiad (o blaid y Cyngor) ac ar ar hyn o bryd rydym yn disgwyl am gyngor cyfreithiol ar y ffordd ymlaen yng ngoleuni hyn. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r perchennog tir ond maent yn araf ac ni lwyddwyd i ddod i gytundeb hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod wedi neilltuo cyllid ar gyfer y gwaith hwn ond, hyd yma, oherwydd yr anawsterau a ddisgrifir uchod, ni ddyfarnwyd y Grant. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n ystyried yr adolygiad dylunio a wnaed yng ngoleuni lifogydd afonol ym mis Rhagfyr y llynedd. Yn amodol ar gyngor cyfreithiol ar y gwrthwynebiad ac ystyriaeth ffafriol gan Lywodraeth Cymru i'r adolygiad dylunio, mae'n bosib y gellid dechrau rhywfaint o waith ar ran o'r cynllun (gwaith nad oes angen caniatâd y tirfeddiannwr ar ei gyfer) yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol hon ac yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf.

- Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni – cyflwynwyd cynlluniau busnes ar gyfer y ddau brosiect i WEFO ac maent yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd. Mae trafodaethau'n parhau ag Adrannau Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid cyfatebol, gydag elfennau o Gynllun Ffordd Gyswllt Llangefni yn cael eu defnyddio fel rhan o'r arian cyfatebol ar gyfer Cynllun Llangefni. O ran goblygiadau i'r cyllid yn sgil Brexit, mae cyhoeddiad a wnaed yn ddiweddar gan Drysorlys EM wedi cadarnhau y bydd unrhyw brosiectau a gymeradwyir ar ôl y Datganiadau Hydref yn cael eu gwarantu gan y Llywodraeth, hyd yn oed os byddai'r DU yn gadael yr UE cyn cwblhau'r prosiect.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Y derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn, y derbyniadau cyfalaf a gyllidebwyd a'r derbyniadau cyfalaf a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yw: -

| | Cyllideb 2016/17 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Medi-2016 £'000 | Rhagamcan hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|
| **CRT Tai:** | | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 565 | 341 | 565 |
| Gwerthu Tir | 0 | 0 | 0 |
| **Tai Sector Preifat:** | | | |
| Gwerthu Plotiau | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau a Ad-dalwyd | 0 | 0 | 0 |
| Grantiau a Ad-dalwyd | 0 | 22 | 22 |
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 2,285 | 860 | 3,441 |
| Cyffredinol | 1,480 | 173 | 1,713 |
| Diwydiannol | 380 | 0 | 380 |
| Ysgolion | 1,865 | 0 | 1,823 |
| **Cyfanswm** | **6,575** | **1,396** | **7,944** |

**3.2.2** Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2017 yw £7.944m, a dim ond £1.396m a dderbyniwyd erbyn 30 Medi 2016 (17.5%). Roedd hyn yn bennaf yn sgil gwerthu dau fân-ddaliad (£0.860m), un eiddo yng Nghaergybi (£0.115m) a phedwar Hawl i Brynu (£0.341m). Mae'r derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn cynnwys £1.675m yn sgil gwerthu hen safleoedd ysgol, £0.320m ar gyfer Parc Mount a £ 2.581m ar gyfer gwahanol Mân-ddaliadau.

**3.2.3** Mae'r gyllideb Derbyniadau Cyfalaf mewn perthynas â Hawl i Brynu dan y CRT yn seiliedig ar y cynllun 30 blynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a rhagwelir y bydd 8 eiddo yn cael eu gwerthu yn y flwyddyn ariannol hon. Fel y nodwyd yn 3.2.2, gwerthwyd 4 eiddo hyd at ddiwedd yr ail chwarter.

**3.2.4** Ers diwedd y chwarter, mae'r Awdurdod wedi derbyn £0.178m o Dderbyniadau Cyfalaf am fân-ddaliad yn y Gaerwen.

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL RHAGAMCANEDIG AR GYFER 2016/17

**4.1** Isod mae tabl gyda'r gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2017 a'r cyllid diwygiedig: -

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,528 | 1,952 | - 576 | - 23 |
| CRT Tai | 14,169 | 12,151 | - 2,018 | - 14 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,776 | 12,236 | - 540 | - 4 |
| Adfywio ac Economaidd | 4,614 | 2,200 | - 2,414 | - 52 |
| Priffyrdd | 11,054 | 8,054 | - 2,999 | - 27 |
| Rheoli Gwastraff | 628 | 606 | - 22 | - 3 |
| Eiddo | 1,128 | 1,502 | 374 | 33 |
| Trawsnewid | 1,728 | 1,575 | - 153 | - 9 |
| Cynllunio | 1,765 | 1,352 | - 413 | - 23 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,857 | 1,434 | - 423 | - 23 |
| **Cyfanswm** | **52,246** | **43,062** | **- 9,185** | **- 18** |
| **Ariannwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 24,698 | 14,375 | - 10,323 | - 42 |
| Derbynebion Cyfalaf | 6,574 | 6,585 | 11 | 0 |
| Benthyca gyda Chymorth | 2,189 | 6,375 | 4,186 | 191 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,730 | 5,902 | - 828 | - 12 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,667 | 8,936 | - 1,731 | - 16 |
| Arian Wrth Gefn | 786 | 286 | - 500 | - 64 |
| Yswyriant | 603 | 603 | - | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **52,246** | **43,062** | **- 9,185** | **- 18** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), rhagwelir tanwariant o £9.185m ar y Rhaglen Gyfalaf am 2016/17, gyda llithriad posib i Raglen Gyfalaf 2017/18 o £8.180m. Mae'r £1.005m arall yn dod o gynlluniau i'w cwblhau yn 2016/17 sydd o dan y gyllideb. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hefyd yn llithro i 2017/18 a chymerir hynny i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18. Y prif brosiectau y rhagwelir y byddant yn tanwario yw'r Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni a'r Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd, fel y gwelir yn Atodiad B. Ymhelaethir ar y rhesymau am y tanwariant yn y Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni yn rhan 3.1.2 yr adroddiad hwn. Rhagwelir y bydd y Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd yn tanwario oherwydd bod Prosiect Ffordd Nanner wedi costio llai nag a ragwelwyd ac oherwydd na wnaed cymaint o waith ar-lein ag yr amcangyfrifiwyd yn wreiddiol. Rhagwelir tanwariant hefyd o £2.018m yn y Cyfrif Refeniw Tai a bydd hwnnw'n llithro i 2017/18.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2017 yw £135.478m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod gymryd benthyg i allu ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae'r benthyca allanol yn £110.739m, sy'n golygu yn y bôn bod angen i'r Awdurdod gymryd benthyg £24.739m, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os benthycir yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17(Atodiad 11).

**4.4** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf a Benthyca â Chymorth. Y prif reswm dros y cynnydd yn y Benthyca â Chymorth yw'r trefniant ariannu ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21[ain] Ganrif ar gyfer 2016/17. Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Grant Cyfalaf a Benthyca â Chymorth, ac amcangyfrifwyd y byddai hynny wedi ei rannu ar sail 50:50 yn 2016/17. Fodd bynnag, mae mwy o bwysoliad tuag at Fenthyca â Chymorth yn 2016/17, sy'n golygu bod y Benthyca â Chymorth wedi cynyddu a'r Grant Cyfalaf wedi gostwng. Fel arall fydd hi yn y blynyddoedd i ddod gyda mwy o bwysoliad tuag at Grant Cyfalaf. Y sefyllfa hon, ynghyd â'r rhagolygon o danwariant yn y Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni a'r tanwariant a ragwelir yn y Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd, fel y nodwyd eisoes, yw'r prif resymau pam y bydd Grant Cyfalaf yn llai yn 2016/17.

## 5. Y DYFODOL

**5.1** Aeth yr Adroddiad Drafft ar y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2017/18 i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd 2016. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 (gan gynnwys Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yw £40.949m. Gellir torri hyn i lawr i'r Ymrwymiad Cyfredol o Raglen Gyfalaf 2016/17 (£8.826m), Asedau Cyfredol (£2.301m), Buddsoddi i Arbed (£0.271m), Ailwynebu Priffyrdd (£0.760m), Cynlluniau Newydd (£11.675m), Cynlluniau Benthyca Digefnogaeth (£0.362m), Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (£6.865m) a'r Cyfrif Refeniw Tai (£9.889m). Bydd y cyllido arfaethedig ar ffurf £21.258m (52%) o ffynonellau cyllido allanol megis y Grantiau Cyfalaf a £19.691m (48%) o ffynonellau mewnol. Mae hyn yn cynnwys £3.472m o fenthyca â chymorth, £5.063m o fenthyca digefnogaeth gyda'r £11.156m sy'n weddill yn cael ei gyllido o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol, Derbyniadau Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun.

ATODIAD B

## Crynodeb o Wariant y Prosiect Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant a ragwelir erbyn Diwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd(£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | (Tan) / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w gosod | 182,240 | 91,120 | 33,671 | 0 | 33,671 | -57,449 | 37 | 18 | 182,240 | 0 | 0 |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w Gwerthu | 167,500 | 83,750 | 25,000 | 0 | 25,000 | -58,750 | 30 | 15 | 167,500 | 0 | 0 |
| Troi Tai'n Gartrefi (2) | 167,600 | 83,800 | 87,400 | 0 | 87,400 | 3,600 | 104 | 52 | 167,600 | 0 | 0 |
| Astudiaethau Tai a Ffioedd Ll Ll Ll A | 7,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Tai Ll Ll Ll A 1 | 20,000 | 7,192 | 5,569 | 0 | 5,569 | -1,623 | 77 | 28 | 20,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Tai Ll Ll Ll A 2 | 20,000 | 3,000 | 7,301 | 0 | 7,301 | 4,301 | 243 | 37 | 20,000 | 0 | 0 |
| Pryniant Gorfodol - Cynllun Peilot | 458,550 | 90,000 | 94,955 | 15,392 | 110,347 | 20,347 | 123 | 24 | 180,000 | -278,550 | -61 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900,560 | 375,000 | 283,644 | 0 | 283,644 | -91,356 | 76 | 31 | 750,000 | -150,560 | -17 |
| Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr | 247,000 | 25,000 | 0 | 2,450 | 2,450 | -22,550 | 10 | 1 | 100,000 | -147,000 | -60 |
| Grant Ll Ll Ll A - Bwlch Alltran | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 0 | 0 |
| Grant Ll Ll Ll A - Porth Fictoria | 20,000 | 20,000 | 8,610 | 5,506 | 14,117 | -5,883 | 71 | 71 | 20,000 | 0 | 0 |
| Grant Ll Ll Ll A - Lôn Cyttir | 38,190 | 36,000 | 35,000 | 0 | 35,000 | -1,000 | 97 | 92 | 38,190 | 0 | 0 |
| Grant Ll Ll Ll A - Carreg Domas | 6,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy a ddygwyd ymlaen 2015/16 | 288,700 | 20,000 | 18,053 | | 18,053 | -1,947 | 90 | 6 | 288,700 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,528,340** | **834,862** | **599,203** | **23,348** | **622,551** | **-212,311** | **75** | **25** | **1,952,230** | **-576,110** | **-23** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 350,000 | 0 | 5,040 | 5,600 | 10,640 | 10,640 | 0 | 3 | 300,000 | -50,000 | -14 |
| Contract Gwaith Cynnal a chadw a Gynlluniwyd | 5,190,678 | 2,514,825 | 1,755,976 | 369,463 | 2,125,439 | -389,386 | 85 | 41 | 5,190,678 | 0 | 0 |
| Cerbydau'r UCA 2016/17 | 80,000 | 80,000 | 33,316 | 64,154 | 97,470 | 17,470 | 122 | 122 | 97,470 | 17,470 | 22 |
| Gwaith Amgylcheddol | 362,500 | 154,401 | 129,988 | 0 | 129,988 | -24,413 | 84 | 36 | 362,500 | 0 | 0 |
| Ailfodelu'r Stoc Bresennol | 450,000 | 0 | 6,500 | 0 | 6,500 | 6,500 | 0 | 1 | 450,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Bresennol | 6,452,830 | 1,000,000 | 764,241 | 0 | 764,241 | -235,759 | 76 | 12 | 4,500,000 | -1,952,830 | -30 |
| Addasiadau Sector Preifat | 250,000 | 225,000 | 206,169 | 22,395 | 228,565 | 3,565 | 102 | 91 | 450,000 | 200,000 | 80 |
| Risg Tân | 250,000 | 25,000 | 0 | 0 | 0 | -25,000 | 0 | 0 | 50,000 | -200,000 | -80 |
| Offer Trawsnewid UCA | 33,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -33,000 | -100 |
| Gwaith Mewnol SATC | 750,000 | 375,000 | 300,526 | 0 | 300,526 | -74,474 | 80 | 40 | 750,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **14,169,008** | **4,374,227** | **3,201,756** | **461,612** | **3,663,369** | **-710,858** | **84** | **26** | **12,150,648** | **-2,018,360** | **-14** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Ailweirio Adeiladau Addysg | 37,000 | 0 | 29,310 | 0 | 29,310 | 29,310 | 0 | 79 | 37,000 | 0 | 0 |
| Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysgol | 300,000 | 0 | 95,711 | 0 | 95,711 | 95,711 | 0 | 32 | 280,000 | -20,000 | -7 |
| Cyfleusterau Arlwyo mewn Ysgolion | 165,000 | 0 | 148,265 | 0 | 148,265 | 148,265 | 0 | 90 | 165,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi | 7,297,000 | 2,858,889 | 2,356,860 | 16,422 | 2,373,282 | -485,607 | 83 | 33 | 7,595,710 | 298,710 | 4 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi Ll Ll Ll A | 270,000 | 200,000 | 250,000 | 0 | 250,000 | 50,000 | 125 | 93 | 270,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Y Llannau | 3,960,000 | 577,705 | 972,030 | 17,237 | 989,267 | 411,562 | 171 | 25 | 3,463,178 | -496,822 | -13 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Parc y Bont | 150,000 | 5,725 | 725 | 725 | 1,450 | -4,275 | 25 | 1 | 30,000 | -120,000 | -80 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Aberffraw/Bro Rhosyr | 390,000 | 19,365 | 40,092 | 23,574 | 63,666 | 44,301 | 329 | 16 | 385,000 | -5,000 | -1 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 207,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10,000 | -197,000 | -95 |
| **Cyfanswm** | **12,776,000** | **3,661,684** | **3,892,993** | **57,958** | **3,950,951** | **289,267** | **108** | **31** | **12,235,888** | **-540,112** | **-4** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd(£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | (Tan) / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Grant Buddsoddi Busnes Caergybi Ll Ll Ll A | 152,710 | 54,775 | 25,941 | 0 | 25,941 | -28,834 | 47 | 17 | 152,710 | 0 | 0 |
| Arian Partneriaeth heb ei ddyrannu | 58,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 58,000 | 0 | 0 |
| Toiledau Cyhoeddus | 44,770 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 44,770 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,257,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,257,000 | -100 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 1,157,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,157,000 | -100 |
| Buddsoddi i arbed - System Gynllunio | 93,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 93,000 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Unedau Penrhos - Grant Ll Ll Ll A | 12,640 | 7,059 | 6,964 | 4,104 | 11,068 | 4,009 | 157 | 88 | 12,640 | 0 | 0 |
| Clwb Gymnasteg Ynys Môn - Grant Ll Ll Ll A | 8,000 | 0 | 3,492 | 0 | 3,492 | 3,492 | 0 | 44 | 8,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Cymunedau Actif - Grant Ll Ll Ll A | 40,000 | 15,000 | 0 | 1,192 | 1,192 | -13,809 | 8 | 3 | 40,000 | 0 | 0 |
| Hyfforddi'n Amgylcheddol CG Môn - Grant Ll Ll Ll A | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 0 | 0 |
| Clwb Bocsio - Grant Ll Ll Ll A | 3,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,800 | 0 | 0 |
| Gwelliannau Millbank - Grant Ll Ll Ll A | 2,140 | 2,140 | 2,446 | 0 | 2,446 | 306 | 114 | 114 | 2,140 | 0 | 0 |
| Canolfan Cymunedol Millbank - Grant Ll Ll Ll A | 80,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 80,000 | 0 | 0 |
| Prosiectau Ll Ll Ll A sydd heb eu cwblhau | 1,031,770 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,031,770 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | 3,250 | 1,625 | 1,530 | 461 | 1,992 | 367 | 123 | 61 | 3,250 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | 2,810 | 1,405 | 2,029 | 0 | 2,029 | 624 | 144 | 72 | 2,810 | 0 | 0 |
| Goleuadau LED | 38,000 | 38,000 | 37,749 | 0 | 37,749 | -251 | 99 | 99 | 38,000 | 0 | 0 |
| Ail-doi Canolfan Hamdden | 262,500 | 262,500 | 224,797 | 0 | 224,797 | -37,704 | 86 | 86 | 262,500 | 0 | 0 |
| Ail-doi Canolfan Hamdden Caergybi | 340,000 | 340,000 | 295,793 | 0 | 295,793 | -44,207 | 87 | 87 | 340,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Hamdden Caergybi - Grant Ll Ll Ll A | 6,500 | 6,500 | 6,397 | 0 | 6,397 | -103 | 98 | 98 | 6,500 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4,613,890** | **729,004** | **607,138** | **5,757** | **612,894** | **-116,110** | **84** | **13** | **2,199,890** | **-2,414,000** | **-52** |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 41,390 | 22,790 | 26,666 | 0 | 26,666 | 3,876 | 117 | 64 | 41,390 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 374,400 | 163,460 | 163,460 | 0 | 163,460 | 0 | 100 | 44 | 374,400 | 0 | 0 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 2,229,120 | 1,473,000 | 1,221,387 | 0 | 1,221,387 | -251,613 | 83 | 55 | 2,229,120 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd Biwmares (LIC) | 600,000 | 26,247 | 26,247 | 0 | 26,247 | 0 | 100 | 4 | 26,247 | -573,753 | -96 |
| Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd | 3,784,000 | 348,000 | 0 | 0 | 0 | -348,000 | 0 | 0 | 839,828 | -2,944,172 | -78 |
| Goleuadau LED | 80,270 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 80,270 | 0 | 0 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,731,570 | 2,125,000 | 2,105,853 | 95,537 | 2,201,390 | 76,390 | 104 | 59 | 4,250,000 | 518,430 | 14 |
| Grant Diogelach Ffyrdd y Gymuned | 108,000 | 0 | 58,510 | 0 | 58,510 | 58,510 | 0 | 54 | 108,000 | 0 | 0 |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 105,000 | 67,000 | 0 | 0 | 0 | -67,000 | 0 | 0 | 105,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **11,053,750** | **4,225,497** | **3,602,124** | **95,537** | **3,697,661** | **-527,836** | **88** | **33** | **8,054,255** | **-2,999,495** | **-27** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Prynu Telehandler a phont pwyso | 118,520 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 97,000 | -21,520 | -18 |
| System newydd ar gyfer casglu gwastraff | 509,000 | 509,000 | 228,499 | 193,785 | 422,284 | -86,716 | 83 | 83 | 509,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **627,520** | **509,000** | **228,499** | **193,785** | **422,284** | **-86,716** | **83** | **67** | **606,000** | **-21,520** | **-3** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Deddf Gwahaniaethu Anabledd | 100,000 | 0 | 4,856 | 0 | 4,856 | 4,856 | 0 | 5 | 100,000 | 0 | 0 |
| Doc Pysgod Caergygi | 96,340 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -96,340 | -100 |
| Mynwent Llanbedrgoch | 85,680 | 0 | 415 | 0 | 415 | 415 | 0 | 0 | 415 | -85,265 | -100 |
| Mynwent Llanddona | 45,590 | 30,000 | 23,755 | 0 | 23,755 | -6,245 | 79 | 52 | 60,000 | 14,410 | 32 |
| Mân-ddaliadau | 800,000 | 670,607 | 575,433 | 3,700 | 579,133 | -91,474 | 86 | 72 | 1,341,213 | 541,213 | 68 |
| **Cyfanswm** | **1,127,610** | **700,607** | **604,459** | **3,700** | **608,159** | **-92,448** | **87** | **54** | **1,501,628** | **374,018** | **33** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd(£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | (Tan) / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| Gweithio'n Gallach - Cyfalaf | 953,060 | 534,000 | 567,918 | 117,031 | 684,949 | 150,949 | 128 | 72 | 800,000 | -153,060 | -16 |
| Buddsoddi i arbed - EDMS | 57,860 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 57,860 | 0 | 0 |
| System Cynnwys y Wefan Gorfforaethol | 75,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 75,000 | 0 | 0 |
| Trwyddedu Meddalwedd | 72,000 | 72,000 | 72,000 | 0 | 72,000 | 0 | 100 | 100 | 72,000 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Rhwydwaith | 60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Serfwyr | 150,000 | 60,000 | 0 | 59,402 | 59,402 | -598 | 99 | 40 | 150,000 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i arbed - System CRM | 135,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 135,000 | 0 | 0 |
| System TG wrth gefn | 35,100 | 35,100 | 61,463 | 9,625 | 71,088 | 35,988 | 203 | 203 | 35,100 | 0 | 0 |
| TG - Citrix | 190,000 | 120,000 | 113,255 | 0 | 113,255 | -6,745 | 94 | 60 | 190,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,728,020** | **821,100** | **814,636** | **186,059** | **1,000,695** | **179,595** | **122** | **58** | **1,574,960** | **-153,060** | **-9** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad Caergybi | 970,000 | 175,000 | 35,062 | 136,165 | 171,227 | -3,774 | 98 | 18 | 557,500 | -412,500 | -43 |
| Datblygu Tirlun Ynys Gybi - Ll Ll Ll A | 5,000 | 5,000 | 3,406 | 0 | 3,406 | -1,594 | 68 | 68 | 5,000 | 0 | 0 |
| Ffioedd Datblygu ail ran Menter Treftadaeth Treflun - Grant Ll Ll Ll A | 789,730 | 25,000 | 440 | 21,715 | 22,155 | -2,845 | 89 | 3 | 789,730 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,764,730** | **205,000** | **38,908** | **157,880** | **196,788** | **-8,213** | **96** | **11** | **1,352,230** | **-412,500** | **-23** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Gweithredu CCIS | 459,000 | 53,300 | 30,907 | 0 | 30,907 | -22,393 | 58 | 7 | 74,300 | -384,700 | -84 |
| Canolfan Byron | 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150,000 | 0 | 0 |
| Gofal Ychwanegol Llangefni | 700,000 | 700,000 | 700,000 | 0 | 700,000 | 0 | 100 | 100 | 700,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Haulfre | 206,760 | 40,000 | 39,191 | 0 | 39,191 | -809 | 98 | 19 | 168,000 | -38,760 | -19 |
| Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll | 98,000 | 0 | 490 | 0 | 490 | 490 | 0 | 1 | 98,000 | 0 | 0 |
| Grant Cyfalaf Cronfa Gofal Canolraddol | 243,640 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 243,640 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,857,400** | **793,300** | **770,589** | **0** | **770,589** | **-22,711** | **97** | **41** | **1,433,940** | **-423,460** | **-23** |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **52,246,268** | **16,854,280** | **14,360,303** | **1,185,636** | **15,545,939** | **-1,308,341** | **92** | **30** | **43,061,669** | **-9,184,599** | **-18** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR LLAWN** |
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd 2016 a 15 Rhagfyr 2016** |
| **Pwnc:** | **I'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau a restrir yn Atodiad 1 ac i'r pwerau hynny gael eu dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Richard A Dew**<br>**Y Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams - Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)**<br>**Lynn Ball - Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Mared Wyn Yaxley – Cyfreithiwr: Llyworaethu Corfforaethol**<br>**Est 2566**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1) Bod y Cyngor yn :
   - 1.1 Mabwysiadu'r pwerau a restrir yn **Atodiad 1,**
   - 1.2 Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) ddefnyddio'r pwerau hyn
   - 1.3 Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth y Cyngor (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo, ac unrhyw newidiadau canlyniadol, i adlewyrchu mabwysiadu a dirprwyo'r pwerau hyn.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Gall y Cyngor ddewis gwrthod mabwysiadu'r pwerau yn **Atodiad 1** ond bydd mabwysiadu (a dirprwyo'r) pwerau yn golygu y bydd modd iddo weithredu ystod ehangach o ddatrysiadau. Mae manylion ynghylch i ba ddiben y gellir defnyddio'r pwerau hyn i'w gweld yn **Atodiad 2.**

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Oherwydd bod yr adroddiad yn cynnig diwygio'r Cynllun Dirprwyo, sy'n rhan o'r Cyfansoddiad, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr adroddiad hwn cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol.

CC-019632-MWY/346902

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| Ydi, lle bo'n berthnasol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| --- |
| Bydd y gost o weithredu'r pwerau newydd / ychwanegol hyn yn disgyn o fewn cyllideb weithredol y Gwasanaeth<br><br>Bydd y costau posib yn un o'r materion a gymerir i ystyriaeth cyn defnyddio'r pwerau; ar sail achos wrth achos |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodwyd y mater yng nghyfarfod yr UDA ar 31.10.2016 – yn gefnogol |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Yn rhan o 1 uchod |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Adroddiad gan yr Adain Gyfreithiol / Swyddog Monitro – yn cefnogi'r cynnig |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Cafafel** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Aelodau Portffolio / Aelodau Portffolio Cysgodol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Gall defnyddio'r pwerau yn seiliedig ar yr amgylchiadau penodol fod o fudd i ardaloedd difreintiedig. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Nod rhai o'r deddfwriaethau yn **Atodiad 1** yw rhoi sylw i faterion trosedd / gweithgarwch anghyfreithlon |
| **4** | **Amgylcheddol** | Bydd gweithredu rhai o'r pwerau a ddirprwyir i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) yn golygu y gellir rhoi sylw i faterion amgylcheddol penodol gan gynnwys hylendid bwyd a lles anifeiliaid ac ati |

CC-019632-MWY/346902

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| **Atodiad 1:** - Rhestr o bwerau ychwanegol y gall y Cyngor eu mabwysiadu, ac y gall y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) ddefnyddio awdurdod dirprwyol oddi tanynt.<br><br>**Atodiad 2:** - Tabl yn crynhoi'r rhesymau dros y pwerau dirprwyol ychwanegol |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

CC-019632-MWY/346902

Atodiad 1

Deddfwriaeth i’w hychwanegu at y Cynllun Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd): -

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014
Deddf Tai (Cymru) 2014
Deddf Eiddo Deallusol 2014
Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015
Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016
Ddeddf Menter 2016
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004
Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014
Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014
Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015
Rheoliadau Microsglodio Cŵn (Cymru) 2015
Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016
Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd)
Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2014
Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2014
Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hybu Sgorio Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016
Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd (Cymru) 2014
Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc (Cymru) 2014
Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) 2014
Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) (Diwygio) 2014
Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015
Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015
Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015
Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2016
Rheoliadau Cynhyrchion Anadlu Nicotin (Oedran Gwerthu a Phrynu trwy Ddirprwy) 2015
Rheoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) 2015
Rheoliadau Petrolewm (Cydgrynhoi) 2014
Rheoliadau Prynu Tybaco, Cynhyrchion Nicotin etc . (Hysbysiadau Cosbau Penodedig) (Cymru) 2015
Rheoliadau Di-fwg (Cerbydau Preifat) 2015
Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg ac ati (Cymru) (Diwygio) 2016
Rheoliadau Pecynnu Safonol ar gyfer Cynhyrchion Tybaco 2015
Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Perthynol 2016
Rheoliadau Priodas Cyplau o'r un Rhyw (Partneriaeth Sifil) 2014
Rheoliadau Priodas Cyplau o’r un Rhyw (Cofrestru Adeilad a Phenodi Personau Awdurdodedig) 2014

Rheoliadau Adrodd ar Briodasau a Phartneriaethau Sifil Amheus (Diwygio) 2014
Rheoliadau'r Gofrestr Cydnabod Rhywedd (Priodas a Phartneriaeth Sifil) 2015
Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil Arfaethedig (Cyfnodau Aros) 2015
Rheoliadau Cofrestru Priodasau 2015

**Atodiad 2**

## Deddfwriaeth Gwarchod y Cyhoedd Ychwanegol - 2016

| Maes | Teitl | Pwrpas |
|---|---|---|
| **Safonau Masnach** | Deddf Eiddo Deallusol 2014 | Ddeddf sy'n moderneiddio a symleiddio rhai agweddau ar gyfraith eiddo deallusol. Yn ffurfio rhan o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n caniatáu i Wasanaethau Safonau Masnach fynd i'r afael â nwyddau "ffug" |
| | Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 | Deddf i atgyfnerthu a diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau defnyddwyr. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch pwerau ymchwilio ar gyfer gorfodi rheoleiddio masnachwyr. |
| | Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 | Deddf sy'n creu gwaharddiad llwyr ar gynhyrchu, dosbarthu, gwerthu a chyflenwi sylweddau seicoweithredol i'w bwyta gan bobl. Mae'n rhoi amrywiaeth o bwerau i Wasanaethau Safonau Masnach a'r Heddlu i orfodi'r gwaharddiad. Yr Heddlu sydd â'r prif bwerau a chyfrifoldebau ond mae gan awdurdodau lleol hefyd gyfrifoldebau gorfodi. |
| | Ddeddf Menter 2016 | Deddf sy'n cynnwys y gofyniad i reoleiddwyr roi sylw i'r Côd Rheoleiddwyr. Mae hefyd yn ymestyn y Cynllun Prif Awdurdod a sefydlwyd gan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008. |
| | a) Rheoliadau Anadlu Cynhyrchion Nicotin (Oedran Gwerthu a Phrynu trwy Ddirprwy ) 2015<br>Rheoliadau Prynu Tybaco, Cynhyrchion Nicotin etc. (Hysbysiadau Cosbau Penodedig) (Cymru) 2015<br>b) Rheoliadau Pecynnu Safonol ar gyfer Cynhyrchion Tybaco 2015<br>Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Perthynol 2016<br>c) Rheoliadau Di-fwg (Cerbydau Preifat di-fwg) 2015<br>Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg ac ati (Cymru) (Diwygio) 2016 | a) Rheoliadau sy'n ymwneud â gwerthu cynhyrchion tybaco - pwerau sy'n ein cynorthwyo i gymryd camau gorfodaeth o ran gwerthu i blant dan oed<br>b) Rheoliadau sy'n gosod rheolau sy'n ymwneud â deunydd pacio cynnyrch tybaco<br>c) Rheoliadau Llywodraeth Cymru sy'n rheoli ysmygu mewn cerbydau ac adeiladau eraill |
| | Rheoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) 2015 | Rheoliadau sy'n diweddaru'r rheolau ar becynnu a gwastraff pecynnu |
| | Rheoliadau Petrolewm (Cydgrynhoi) 2014 | Rheoliadau sy'n diweddaru rheolau ar storio cynhyrchion petrolewm |
| **Iechyd anifeiliaid** | a) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014<br>b) Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015<br>c) Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014<br>Rheoliadau Microsglodio Cŵn (Cymru) 2015 | a) Rheoliadau sy'n diweddaru rheolau ar gael gwared yn briodol ar garcasau anifeiliaid<br>b) Rheoliadau sy'n diweddaru rheolau sy'n ymwneud â chadw cofnodion gan berchnogion defaid a geifr<br>c) Rheoliadau sy'n diweddaru rheolau sy'n ymwneud â bridwyr cŵn masnachol ac sy'n cyflwyno rheolau bod raid i berchnogion cŵn osod microsglodyn ar eu cŵn |
| **Diogelwch bwyd** | a) Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009<br>b) Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013<br>Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2014<br>Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2014<br>Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hybu Sgorio Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016<br>c) Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004<br>ch) Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014<br>Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc (Cymru) 2014<br>Rheoliadau Bwyd â Ffytosterolau neu Ffytostanolau Ychwanegol (Labelu) (Cymru) 2014<br>Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) (Diwygio) 2014<br>Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015<br>Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015<br>Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015 | a) Rheoliadau ar reolaethau swyddogol i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith porthiant a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles.<br>b) Rheoliadau sy'n ymwneud â rheolau a gyflwynwyd mewn perthynas â sgôr hylendid bwyd safleoedd.<br>c) Rheoliadau sy'n diweddaru rheolau ar orfodi rheolaethau ar bethau fel mewnforio ac allforio bwyd, olrhain bwyd, cyflwyno bwyd, diogelwch bwyd, a thynnu bwyd oddi ar silffoedd a'i alw'n ôl.<br>ch) Rheoliadau sy'n diweddaru ac ymestyn y rheolau sy'n ymwneud â labelu, cyfansoddiad a chyflenwi deunyddiau bwyd penodol |
| **Hylendid** | Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata | Rheoliadau diweddaru ac ehangu'r rheolau sy'n ymwneud â labelu |

| | | |
|---|---|---|
| **Bwyd Anifeiliaid** | a Defnydd) (Cymru) 2016<br>Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016 | bwyd anifeiliaid a rheolau sy'n llywodraethu prosesau gorfodi. |
| **Yr Amgylchedd** | a) Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016<br>b) Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2016<br>c) Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Rheoliadau Lloegr a Chymru ) 2010 (fel y'u diwygiwyd) | a) Deddf i wella rheolaethau amgylcheddol megis taliadau am fagiau siopa, gostyngiad mewn allyriadau, casglu a gwaredu gwastraff, rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn a thrwyddedu morol.<br>b) Rheoliadau sy'n diweddaru'r rheolau sy'n ymwneud â chyflenwadau dŵr preifat<br>c) Mae'r rheoliadau hyn yn eu lle i sefydlu cyfundrefn trwyddedu amgylcheddol sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sy'n cyflawni gweithrediadau penodol gael trwyddedau ar gyfer rhai cyfleusterau, i gofrestru eraill fel rhai eithriedig ac i ddarparu ar gyfer goruchwyliaeth barhaus gan reoleiddwyr. |
| **Tai** | Deddf Tai (Cymru) 2014 | Deddf sy'n cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid ac asiantiaid gosod a rheoli yn y sector preifat, a fydd yn cael ei chyflawni gan Rhentu Doeth Cymru, ond ei gorfodi gan awdurdodau lleol. |
| **Cofrestru sifil** | a) Rheoliadau Priodi Cyplau o'r un Rhyw (Trosi Partneriaeth Sifil) 2014<br>Rheoliadau Priodi Cyplau o'r un Rhyw (Diwygio) 2014 (Cofrestru Adeiladau a Phenodi Personau Awdurdodedig)<br>Rheoliadau'r Gofrestr Cydnabod Rhywedd (Priodas a Phartneriaeth Sifil) 2015<br>b) Rheoliadau Adrodd ar Briodasau a Phartneriaethau Sifil Amheus (Diwygio) 2014<br>c) Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil Arfaethedig (Cyfnodau Aros) 2015<br>ch) Rheoliadau Cofrestru Priodasau 2015 | a) Rheoliadau sy'n cyflwyno rheolau ynghylch priodasau un rhyw ac adeiladau sy'n gallu cynnal y seremonïau<br>b) Rheoliadau sy'n diweddaru'r rheolau ynghylch adrodd am briodasau amheus.<br>c) Rheoliadau sy'n nodi sut y mae'n rhaid gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol i leihau'r cyfnod aros ar gyfer priodi neu gofrestru partneriaeth sifil<br>d) Rheoliadau sy'n nodi rheolau ynghylch cynnwys a fformat hysbysiadau a dogfennaeth sy'n gysylltiedig â chofrestru priodasau. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd, 2016** |
| **Pwnc:** | **Growth Track 360** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Ieuan Williams** |
| **Prif Weithredwr:** | **Dr Gwynne Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dylan J Williams – Pennaeth Gwasanaeth – Y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol**<br>**01248 752499**<br>**dylanjwilliams@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **O bwys i'r holl Aelodau Etholedig Ynys Môn gyfan** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau**

1. Mabwysiadu Growth Track 360 fel Rhaglen Gwella Rheilffyrdd y Cyngor

2. Ysgrifennu at Ysgrifenyddion Gwladol Llywodraeth y DU dros Swyddfa Cymru a Thrafnidiaeth gan roi cefnogaeth y Cyngor i Growth Track 360

3. Ysgrifennu at y Canghellor gyda chopïau at yr Adran Drafnidiaeth a Swyddfa Cymru i ofyn am ddarparu £130m i weithredu Rhaglen Tymor Byr Growth Track 360 yn Natganiad yr Hydref 2016 a Chyllideb 2017.

4. Ysgrifennu at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch pennu'r Patrwm Gwasanaeth ar gyfer Gogledd Cymru a gynigir gan Growth Track 360 ym Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau.

Enwodd cynghorau Gogledd Cymru isadeiledd trafnidiaeth gwael fel rhwystr i dwf economaidd adeg sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2011/2012 a rhoddwyd blaenoriaeth i ymgyrch i foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd y Gogledd. Mae Bwrdd Cynghrair Merswy Dyfrdwy hefyd wedi cydnabod ers tro byd bod isadeiledd trafnidiaeth trawsffiniol yn faes gwaith blaenoriaethol a chytuno i gefnogi ymgyrch y Bwrdd Uchelgais. Y blaenoriaethau a nodwyd gan yr ymgyrch yw: -

- Trydaneiddio'r rheilffyrdd a gefnogir gan
- Wasanaethau cyflymach ac amlach i gysylltu Gogledd Cymru â Lerpwl a Manceinion a'u meysydd awyr.

Nod y pecyn o wasanaethau cyflymach, amlach i gyrchfannau sy'n gysylltiedig â pharthau cyflogaeth ynghyd â thrydaneiddio yw gwneud y rhwydwaith yn fwy cystadleuol gyda'r car preifat a chynorthwyo twf economaidd yn y rhanbarth.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| 1. Gwneud dim – Byddai parhau â'r sefyllfa bresennol o ran y ddarpariaeth seilwaith trafnidiaeth ddim yn galluogi twf yn economi Gogledd Cymru. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n hanfodol bod Growth Track 360 yn cael ei gymeradwyo yn unfrydol gan bob Pwyllgor Gwaith y 6 Awdurdod Lleol i ddarparu mandad ar gyfer y Tasglu i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth.<br><br>Gan Ynys Môn yw'r mwyaf gorllewinol yr holl Awdurdodau mae'n holl bwysig bod y Cyngor Sir yn dangos ei ymrwymiad i'r cynnig i sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth a seilwaith yn cael eu gwella ar gyfer ein trigolion. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r ffordd ymlaen a gynigir yn gyson â Chynllun Corfforaethol CSYM a Chynllun Darparu Gwasanaeth y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol (2015/16). |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae'r ffordd ymlaen a gynigir yn gyson ac yn cyd-fynd â'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| 1. Papur Briffio – Blaenoriaethau GT 360 Hydref 2016<br>2. Moderneiddio’r Rheilffyrdd yn Ardaloedd Gogledd Cymru a Merswy – Dyfrdwy |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

PAPUR BRIFFIO – BLAENORIAETHAU GT360
HYDREF 2016


Mae ymgyrch GT360 wedi nodi blaenoriaethau allweddol i helpu i ddiffinio’r ceisiadau nesaf i’r llywodraeth a diwydiant. Mae’r blaenoriaethau hyn yn ymdrin â’r gwelliannau isadeiledd mae eu hangen i ddatgloi’r rhwydwaith isranbarthol ac â gwelliannau i wasanaethau sy’n ofynnol wrth adnewyddu masnachfreintiau.

Mae Growth Track 360 wedi ymrwymo i’r nod hirdymor o drydaneiddio a chysylltiadau â Chanolfan Crewe ac HS2. Un o’r pwyntiau lobio allweddol o hyd yw mwy o wasanaethau HS2 i Crewe gyda’r potensial am wasanaethau hirdymor i Gaergybi, sy’n gydnaws â gwasanaethau clasurol, sydd yn y bôn felly’n golygu trydaneiddio.

## Llywodraethu

Mae Tasglu Rheilffyrdd Trawsffiniol Gogledd Cymru a Merswy-Dyfrdwy wedi sefydlu a gwreiddio strwythur llywodraeth ar gyfer rhaglen GT360 (Atodiad A). Mae hwn yn darparu arweinyddiaeth wleidyddol a strategol ynghyd â datblygiad prosiect technegol gyda diwydiant yng Ngrŵp Diwydiant Growth Track.

## Prosiectau Isadeiledd Blaenoriaethol i’w cynnwys wrth gynllunio CP6 – £130 miliwn




Mae’r gyfres hon o welliannau isadeiledd wedi ei nodi yn astudiaeth Llwybr Cymru a’r Gororau a bydd yn helpu i ddarparu’r catalydd am dwf. Bydd y gwelliannau hyn yn caniatáu mwy o gapasiti ar wasanaethau gyda theithiau cyflymach ac yn cynnig y cam cyntaf tuag at newidiadau trawsffurfiol o fewn yr economi drawsffiniol. Mae angen y prosiectau isadeiledd cychwynnol hyn i alluogi cyflenwi gwasanaethau gwell.

Tabl Manwl o Welliannau Isadeiledd sy’n cael Blaenoriaeth

| **Gwella Rheilffordd Heddiw (Cynllun Cychwynnol Diwydiant)** | | |
|---|---|---|
| **Prosiect** | **Amcangyfrif o’r Gost** | **Sylwadau / Manteision** |
| Capasiti Wrecsam – Caer<br>• Capasiti’r cledrau a’r platfform yng Ngorsaf Caer<br>• Capasiti’r cledrau a’r platfform yng Ngorsaf Gyffredinol | £40 miliwn<br><br>£10 miliwn | Tri phrosiect cysylltiedig sy’n cyfuno:<br><br>Isadeiledd cledrau a signalau pellach gyda mwy o gapasiti yng Ngorsafoedd Cyffredinol Caer a Wrecsam, sydd i gyd yn hanfodol i alluogi twf gwasanaethau a gwella cysylltedd â Phwerdy’r Gogledd a |

| | | |
|---|---|---|
| Wrecsam<br>• Ailddyblu Wrecsam - Yr Orsedd | £45 miliwn | rhanbarthau eraill. |
| **Capasiti'r Rheilffyrdd yn Cefnogi Twf Economaidd** | | |
| Gwella Cyflymder y Llinell<br>Gaergybi i Warrington / Crewe | £20 miliwn | Capasiti a lleihau amser teithiau gan gysylltu Gogledd Cymru, Caer, â Rhanbarthau Dinesig Manceinion a Lerpwl a Chanolfan HS2 Crewe |
| Coridor Glannau Dyfrdwy – Wrecsam – Cilgwri<br>• Gwelliannau Wrecsam Bidston<br>• Canolfan Shotton | £10 miliwn | Gwelliannau i wasanaethau, cyflymder a chapasiti'r llinell gan gysylltu Parthau Menter, darpariaeth Addysg Uwch ac Addysg Bellach a'r boblogaeth |
| **Prosiect Galluogi HS2** | | |
| Paratoi am Drydaneiddio CP7<br>Gwaith paratoi am gyflawni Trydaneiddio CP7 – Warrington / Crewe – Caergybi | £5 miliwn | Arian i gynnal gwaith datblygu tuag at drydaneiddio er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau Gogledd Cymru a0 thrawsffiniol fanteisio'n llawn ar HS2 a galluogi gwasanaethau sy'n gydnaws â rhai clasurol ar ôl 2027. |

### Isafswm yr Ymrwymiadau Masnachfraint hanfodol i Wella Gwasanaethau

Patrymau gwasanaeth dwy ffordd sy'n darparu o leiaf 4 trên yr awr (tya) ar hyd arfordir Gogledd Cymru a 2 tya rhwng Wrecsam a Chaer drwy gyfuno trenau trwodd, cysylltu trenau yng Nghaer neu gysylltiadau cadarn i ddarparu cysylltedd:

- 1 tya gwasanaethau trwodd Caergybi / Bangor / Llandudno / Caer i Lundain (masnachfraint Inter City West Coast)
- 2 tya Arfordir Gogledd Cymru i Fanceinion - yn ddelfrydol, un o'r rhain yn wasanaeth cyflym (masnachfraint Cymru a'r Gororau)
- 1 tya Arfordir Gogledd Cymru i Gaer gan barhau i Birmingham Rhyngwladol neu Gaerdydd Canolog bob yn ail awr (masnachfraint Cymru a'r Gororau)
- 1 tya Arfordir Gogledd Cymru a Wrecsam i Lerpwl drwy Halton Curve (masnachfraint Cymru a'r Gororau)
- 2 tya rhwng Wrecsam a Bidston (masnachfraint Cymru a'r Gororau)

Ar gyfer gwasanaethau Arfordir Gogledd Cymru gallai pob yn ail drên weithredu naill ai o Gaergybi / Bangor / Llandudno i roi gwasanaeth cytbwys i bob cyrchfan.

Dull amgen fyddai cael gwasanaethau stopio ar hyd yr arfordir o Gaergybi i Landudno / Caer gan ganiatáu cyflymu gwasanaethau pellter hir drwy beidio â gorfod stopio ym mhob gorsaf canolraddol.

Dylai fod gan bob gorsaf o leiaf 2tya (Cyff. Llandudno i Gaer) ac 1 tya (Cyff. Llandudno i Gaergybi).

### Stoc Rholio

Dylai masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau gynnwys strategaeth ar gyfer stoc rholio a ddylai fod:

Yn hyblyg – I osgoi defnyddio gormod o lwybrau trenau ar rannau prysur y rhwydwaith, gan ystyried cysylltu trenau mewn canolfannau. E.e. trên 2 gerbyd o Fangor yn ymuno â thrên 2 gerbyd o Landudno yng Nghyff. Llandudno. Byddai trên 2 gerbyd arall o Wrecsam yn ymuno yng Nghaer gan ddarparu gwasanaeth 6 cherbyd i Fanceinion / Lerpwl ar yr adegau prysuraf.

Stoc rholio pellter hir i fod o leiaf 100 mya, gyda chyfleuster Diwifr ansawdd da, socedi plygiau a digon o fyrddau at ddefnydd busnes. Byddai stoc leol a stoc i gymudwyr yn cael eu trefnu'n wahanol.


### Dewisiadau o ran Rheoli'r Fasnachfraint

Gallai'r fasnachfraint newydd gynnwys dewisiadau am reoli'r fasnachfraint yn fwy lleol er mwyn sicrhau cysylltiadau agos â chymunedau a defnyddwyr y rheilffyrdd. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael cwmpas am uned rheoli lleol ar gyfer gwasanaethau "lleol / stopio" ar linell Arfordir y gogledd a rhwng Wrecsam - Bidston a Dyffryn Conwy. Gallai ystyriaethau rheoli lleol gynnwys

- Strategaeth ar gyfer tocynnau a phrisiau
- Marchnata
- Amserlen
- Mynnu mesurau gwella gan gynnwys meysydd parcio a chyfleusterau mewn gorsafoedd
- Mentrau i annog busnesau bach a chanolig a menter gymdeithasol

Mae hyblygrwydd i amrywio'r fasnachfraint a manyleb gwasanaethau i weddu i wasanaethau newidiol yn hanfodol. Os bydd y fasnachfraint yn estyn tu hwnt i'r cyfnod pan fydd HS2 neu drydaneiddio'n digwydd, dylai fod cwmpas am adolygiad sylfaenol o wasanaethau.

### Atodiad A


Growth Track 360
Connected within an hour
Programme Governance
Ministers / APPG
All Party North Wales AM Group
Welsh Government Advisory
Growth Track 360 TASK FORCE
North Wales Ambition Board
Mersey Dee Alliance
Cheshire & Warrington LEP
Growth Track 360 Officer Group
GT360 Programme Support
Growth Track 360 Communications
Growth Track 360 Investment/Financing
Growth Track 360 Chester Station Regeneration
Growth Track 360 Industry Group
Infrastructure
Signalling
Line speed
Station capacity
HS2 prep.
Service
W&B Franchise
Integrated smart ticketing
Rolling stock
Technical Development, project based, expert advice
GT360 Deeside-Wrexham-Wirral
GT360 Wrexham-Chester Capacity
GT360 Line Speed North Wales Coast
GT360 Electrification Development

**Adroddiad Templed Drafft ar gyfer Pwyllgorau Cabinet y Cyngor**

# Moderneiddio'r Rheilffyrdd yn Ardaloedd Gogledd Cymru a Merswy – Dyfrdwy

## Diben yr Adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i aelodau etholedig am y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau gwelliant y rhwydwaith rheilffyrdd yn Ardal Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, sut mae'n cael ei gynnal a chan bwy.

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r cynigion am: -

- Fuddsoddiad yn isadeiledd y rheilffyrdd, fel signalau, cledrau a gorsafoedd sydd heb eu datganoli, ac felly'n gyfrifoldeb Network Rail ac Adran Drafnidiaeth y DU
- Gwelliannau i wasanaethau drwy adnewyddu Masnachfraint Cymru a'r Gororau sydd wedi ei datganoli i Lywodraeth Cymru o 2017 gynnar ymlaen

Ceir argymhellion ar sut gall y Cyngor fynegi ei gefnogaeth i Lywodraethau'r DU a Chymru dros y cynigion sy'n cael eu gwneud.

Mae dogfen ymgyrch Growth Track 360/Connected Within an Hour wedi ei hatodi er gwybodaeth.

## Cefndir – Man Cychwyn ac Amcanion

Enwodd cynghorau Gogledd Cymru isadeiledd trafnidiaeth gwael fel rhwystr i dwf economaidd adeg sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2011/2012 a rhoddwyd blaenoriaeth i ymgyrch i foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd y Gogledd. Mae Bwrdd Cynghrair Merswy Dyfrdwy hefyd wedi cydnabod ers tro byd bod isadeiledd trafnidiaeth trawsffiniol yn faes gwaith blaenoriaethol a chytuno i gefnogi ymgyrch y Bwrdd Uchelgais. Y blaenoriaethau a nodwyd gan yr ymgyrch yw: -

- Trydaneiddio'r rheilffyrdd a gefnogir gan
- Wasanaethau cyflymach ac amlach i gysylltu Gogledd Cymru â Lerpwl a Manceinion a'u meysydd awyr.

Nod y pecyn o wasanaethau cyflymach, amlach i gyrchfannau sy'n gysylltiedig â pharthau cyflogaeth ynghyd â thrydaneiddio yw gwneud y rhwydwaith yn fwy cystadleuol gyda'r car preifat a chynorthwyo twf economaidd yn y rhanbarth.

Arweiniodd yr ymgyrch at uwchgynhadledd rheilffyrdd yn Nhachwedd 2015 a fynychwyd gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd, Edwina Hart AC, Gweinidog Rheilffyrdd Llywodraeth y DU, Claire Perry AS ar y pryd, a Gweinidog Swyddfa Cymru, Alan Cairns AS, sydd erbyn hyn yn Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa Cymru.

Cyflawniad mawr oedd dod â'r tri gweinidog ynghyd ac uno Gweinidogion Llywodraethau'r DU a Chymru mewn cefnogi gwella Rhwydwaith Rheilffyrdd Gogledd Cymru.

Eu cyngor i Ogledd Cymru, Cynghrair Merswy Dyfrdwy (MDA) a Phartneriaeth Menter Leol Swydd Caer a Warrington (C&WLEP) oedd dod ynghyd i ymgyrchu dros welliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd gan fod y Rhwydwaith yn croesi ffiniau gweinyddol ac yn gwasanaethu economi drawsffiniol weithredol.

Gan hynny, arweiniodd yr Uwchgynhadledd Rheilffyrdd at greu Tasglu Rheilffyrdd trawsffiniol i symud ymlaen ag ymgyrch i foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy a gwella ei gysylltedd â Gogledd-orllewin Lloegr a rhwydwaith rheilffyrdd ehangach y DU.

## Tasglu Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy

Mae Tasglu Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Cynghrair Merswy Dyfrdwy, Partneriaeth Menter Leol Swydd Caer a Warrington a Merseytravel ynghyd â chynrychiolwyr busnes o Ogledd Cymru a Swydd Caer.

Mae gan y Tasglu Rheilffyrdd gefnogaeth wleidyddol Llywodraeth Cymru a arweiniodd y ffordd wrth noddi sefydlu'r Tasglu er mwyn uchafu'r gefnogaeth dros foderneiddio isadeiledd rheilffordd Gogledd Cymru drwy ei gysylltu â chysyniad Pwerdy'r Gogledd a harneisio cefnogaeth wleidyddol am fuddsoddiad yng Ngogledd Cymru o'r tu allan i Gymru.

Croesawodd Adran Drafnidiaeth y DU ffurfio'r Tasglu a'i gynghori i weithio ar dempled a ddatblygwyd gan "Norwich in 90" a lwyddodd i sicrhau cefnogaeth dros welliannau i linell Great Eastern o Liverpool Street yn Llundain i Norwich yn Norfolk.

Ffocws cyngor yr Adran Drafnidiaeth oedd sicrhau cefnogaeth eang y cyhoedd a byd busnes am set o welliannau cydlynus a realistig, dan arweiniad gwleidyddion ymrwymedig, lleol.

Aeth y Tasglu ati felly i lobio am fuddsoddiad yn y rheilffyrdd yn ardal Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy drwy roi'r achos dros fuddsoddi mewn cyd-destun economaidd trawsffiniol llawer ehangach a cheisio cefnogaeth busnes, y cyhoedd a gwleidyddion am welliant.

Un o'r camau allweddol wrth ehangu cefnogaeth am fuddsoddiad oedd ffurfio Grŵp Holl-bleidiol Seneddol Merswy Dyfrdwy a Gogledd Cymru yn San Steffan. Mae'r grŵp yn uno Aelodau Seneddol y meinciau cefn o bob plaid sy'n cynrychioli etholaethau yng Ngogledd Cymru, Cilgwri a Swydd Caer yn ogystal ag Arglwyddi am Oes sy'n eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi sy'n gysylltiedig â'r ardal.

Mae'r grŵp yn egnïol wrth lobio Gweinidogion a'r Diwydiant Rheilffyrdd ac wedi dod â mater buddsoddi yn Rhwydwaith Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i sylw'r Canghellor ar y pryd George Osborne AS a dderbyniodd ddirprwyaeth o Dasglu'r Rheilffyrdd a'r Grŵp Holl-bleidiol yn Ebrill 2016. Roedd y cyfarfod hwnnw o gymorth i agor y posibilrwydd o Fargen Twf ar gyfer Gogledd Cymru y mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wrthi'n gweithio arni ar ran chwe chyngor Gogledd Cymru.

## Growth Track 360/Connected Within an Hour

Mae'r Tasglu Rheilffyrdd wedi cyhoeddi ei brosbectws ar gyfer buddsoddi yn rheilffyrdd ardaloedd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy mewn adroddiad o'r enw "Growth Track 360" sydd hefyd yn cwmpasu'r gefnogaeth gyffredinol yn y rhanbarthau cyfunol dros y cynigion sydd ynddo.

Mae'r is-bennawd "Connected within an Hour" yn disgrifio'r dyhead i gael gwasanaethau amlach a chyflymach a fydd yn cysylltu cymunedau a pharthau cyflogaeth allweddol ac yn cynnig cludiant cyhoeddus fel dewis realistig ar gyfer cymudo mewn ardal lle mae'r rhan helaethaf o deithio i'r gwaith yn digwydd mewn ceir a lle mae gan y rheilffordd un o'r cyfrannau isaf ar gyfer cymudo yn y Deyrnas Unedig.

Mae economi drawsffiniol Gogledd Cymru ac ardal Merswy Dyfrdwy yn rhedeg ar hyd echelin Dwyrain-Gorllewin. Ym marn busnes, mae'n hanfodol bod gan Ogledd Cymru ac ardal Merswy Dyfrdwy fynediad da i Fanceinion, Lerpwl a'u meysydd awyr, yn arbennig Manceinion.

Mae'r Diwydiant Twristiaeth yn cefnogi Growth Track 360 yn gryf hefyd, gan ei weld yn ddull posibl o gynyddu niferoedd ymwelwyr i'r rhanbarth o ddinasoedd mawr Prydain ac o dramor drwy gyfrwng meysydd awyr Manceinion a Lerpwl.

Hefyd bydd gwella'r cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn gwella cysylltedd rhwng y canolfannau cyflogaeth canlynol: -

- Bangor, Wylfa/Ynys Môn, Llandudno a'r Parthau Menter yng Ngogledd-orllewin Cymru (Ynys Môn ac Eryri)
- Glannau Dyfrdwy (Parth Menter a Pharc Diwydiannol)
- Wrecsam – Tref ac Ystad Ddiwydiannol
- Caer – Dinas a Pharc Busnes
- Parth Menter Cheshire Science Corridor (gan gynnwys Porth Ellesmere)
- Penbedw – Parth Menter Wirral Waters
- Warrington
- Crewe

Mae gan yr economi drawsffiniol ehangach (Gogledd Cymru, Gorllewin Swydd Caer a Chaer a Chilgwri) werth ychwanegol gros o £25bn a'r potensial i ddyblu'r gwerth hwnnw i £50bn. Mae angen buddsoddi yn y rheilffyrdd i alluogi'r twf hwn.

Elfennau allweddol Growth Track 360 yw: -

- Buddsoddiadau tymor byr yn yr Isadeiledd Rheilffyrdd i alluogi gwasanaethau amlach a chyflymach sy'n cysylltu parthau cyflogaeth a chanolfannau twristaidd â chanolfannau poblogaeth.
- Gwasanaethau amlach a chyflymach i ddinasoedd allweddol (Llundain, Manceinion, Lerpwl, Meysydd Awyr Manceinion a Lerpwl, Leeds, Caerdydd a Birmingham drwy Gaer) i'w cyflawni drwy sicrhau bod Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau yn Barod Am HS2 erbyn 2027, sy'n gofyn am drydaneiddio o Crewe i Gaergybi.
- Tystiolaeth o gefnogaeth eang o du busnes, y cyhoedd a gwleidyddion am y rhaglen fuddsoddi arfaethedig.

Yna mae angen i wasanaethau rheilffyrdd gwell gael eu cefnogi gan gyfleusterau gwell mewn gorsafoedd, fel parcio, Teledu Cylch Cyfyng a gwasanaethau bws cysylltiedig er mwyn galluogi mynediad gwell i'r rhwydwaith.

## Yn Barod am HS2 – Trydaneiddio erbyn 2027

Mae Adran Drafnidiaeth y DU o'r farn bod yr achos presennol dros drydaneiddio llinell Gogledd Cymru (Crewe i Gaergybi) yn gymharol wan. Cost bresennol trydaneiddio yw tuag £800m a phrin y byddai ei fanteision yn talu am ei gost dros gyfnod o 60 mlynedd.

Yn ogystal, mae costau Rhaglen Fuddsoddi Network Rail wedi bod yn sylweddol uwch na'r bwriad yng Nghyfnod Rheoli 5 (CP5) hyd at 2018/19. Mae hyn yn golygu bod llawer o'r gwaith a drefnwyd ar gyfer CP5 wedi ei ail-gostio erbyn hyn a'i ad-drefnu ar gyfer CP6 sef 2019/20 i 2024/25.

Mae'r Adran felly wedi cynghori'r Tasglu i ddatblygu pecyn o fuddsoddiad isadeiledd tymor byr â chost cymharol isel, a fydd, o'i gysylltu â gwasanaethau gwell (cyflymach ac amlach ac yn uniongyrchol i barthau cyflogaeth) o Fasnachfreintiau Cymru a'r Gororau a West Coast Inter City, yn arwain at fwy o ddefnydd ar y rheilffyrdd yn yr ardal. Yna, yn raddol, bydd y defnydd uwch yn gwella'r achos busnes dros drydaneiddio ymhen amser.

Mae'n annhebygol felly y bydd trydaneiddio llinell Gogledd Cymru Crewe i Gaergybi yn cael ei gynnwys yn CP6.

Serch hynny, mae dod yn hanfodol wedyn: -

- Cwblhau trydaneiddio Gogledd Cymru, (Crewe – Caer – Caergybi) yn CP7 cyn i wasanaethau HS2 i Crewe gychwyn.
- Gwella gwasanaethau yn arbennig drwy Adnewyddu Masnachfraint Cymru a'r Gororau a fydd hefyd yn mynnu arian refeniw ychwanegol gan yr Adran Drafnidiaeth i gefnogi twf yn y fasnachfraint ddatganoledig.

## Gwelliannau Tymor Byr

Mae angen i welliannau tymor byr gael eu darparu yng Nghyfnodau Rheoli Rheilffyrdd (CP) 5 (presennol i 2018/19) a (CP) 6 (2019/20 i 2024/25).

Cost y rhaglen y bydd y Tasglu yn chwilio amdani yn Natganiad Hydref ar gyfer CP6 a'i hariannu gan Lywodraeth y DU yw £130m: -

<u>Gwella Rheilffordd Heddiw – Capasiti Wrecsam a Chaer (£95m)</u>

- Uwchraddio Gorsaf Caer i alluogi mwy o wasanaethau o Ogledd Cymru i Lerpwl a Manceinion ac i ddarparu am drydaneiddio i Ogledd Cymru yn y dyfodol £40m
- Ailddyblu llinell Yr Orsedd i Wrecsam (cwblhau'r rhaglen ailddyblu o Gaer i Wrecsam) £45m
- Capasiti Gorsaf Wrecsam £10m

<u>Capasiti'r Rheilffyrdd yn Cefnogi Twf Economaidd (£30m)</u>

- Gwella cyflymder y llinell a chapasiti Caergybi i Crewe £20m
  (Mae buddsoddiadau yn y rhwydwaith sy'n gwella cyflymder, yn cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n gallu defnyddio llinellau Gogledd Cymru ac yn lleihau terfynau cyflymder, fel gosod signalau newydd, pomprennau yn cymryd lle croesfannau i gerddwyr ac ati yn rhag-amod hanfodol ar gyfer trydaneiddio.)
- Gwelliannau Wrecsam Glannau Dyfrdwy Cilgwri a Chanolfan a Shotton £10m
  (Gwella Llinell Wrecsam – Bidston/Penbedw)

<u>Yn Barod am HS2 (£5m)</u>

- Costau Datblygu prosiect cwmpasu a pharatoi am drydaneiddio Llinell Gogledd Cymru Crewe – Caergybi erbyn 2027 £5m

Rhaid i Halton Curve, cynllun sydd eisoes wedi ei ymrwymo, sy'n galluogi gwasanaethau o Ogledd Cymru i Lerpwl Lime Street drwy Gaer, gael ei ddarparu ochr yn ochr â'r gwelliannau mae'r Tasglu yn eu ceisio.

## Adnewyddu Masnachfraint Cymru a'r Gororau

Bydd y Fasnachfraint newydd yn cychwyn yn 2018 a chaiff ei hariannu a'i phennu gan Lywodraeth Cymru. Bydd lefel y cyllid yn cael ei phenderfynu i raddau helaeth gan ddatganoli arian o Adran Drafnidiaeth y DU a bydd angen iddi gydnabod y cynnydd mewn defnydd uwchben y fasnachfraint gychwynnol "dim twf".

Mae'r gwelliannau isadeiledd sy'n cael eu ceisio yn CP6 yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r gwasanaethau mae'r Tasglu yn eu henwi i Lywodraeth Cymru eu cynnwys yn y Fasnachfraint.

Rhoddir manylion patrwm gwasanaethau ar dudalen 16 dogfen Growth Track 36: -

2 x tya Arfordir Gogledd Cymru i Fanceinion – yn ddelfrydol un o'r rhain yn wasanaeth cyflym
1 x tya Wrecsam i Fanceinion
1 x tya Arfordir Gogledd Cymru / Wrecsam i Lerpwl via Halton Curve
1 x tya i Gaerdydd / Birmingham Rhyngwladol fel sy'n bodoli nawr
1 x tya i Crewe
2 x tya ar Wrecsam – Bidston

Stoc rholio pellter hir i fod o leiaf 100 mya, gyda chyfleuster Diwifr ansawdd da, socedi plygiau a digon o fyrddau at ddefnydd busnes. Byddai stoc leol a stoc i gymudwyr yn cael eu trefnu'n wahanol.

Hefyd dylai'r fasnachfraint newydd alluogi trefniadau rheoli newydd ar gyfer gwasanaethau lleol ar linellau Dyffryn Conwy a Wrecsam/Bidston a cheisio symleiddio trefniadau tocynnu.

## Y Camau Nesaf

Bydd y Tasglu yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth.

Mae'n hanfodol i gyflawni Rhaglen Growth Track 360 bod corff ymgynghorol y diwydiant rheilffyrdd yn cael ei sefydlu i weithio gyda'r Tasglu. Bydd hyn yn helpu i bennu cost cynigion a nodi manteision i'r economi ac i'r rheilffyrdd. Yn bwysicaf oll bydd yn helpu i gyd-drefnu buddsoddiad a gwasanaethau ar draws ffiniau gwleidyddol.

Bydd y Tasglu yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid rhanbarthol, gan gynnwys y cyrff sy'n ei noddi (NWEAB, MDA a C&WLEP) a'r cyhoedd yn economi Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i feithrin cefnogaeth dros fuddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd sy'n gwasanaethu rhanbarthau cyfun Gogledd Cymru a rhanbarthau dros y ffin.

Bydd y Tasglu yn gweithio gydag aelodau C&WLEP ac MDA i nodi buddsoddiadau cysylltiedig yn Swydd Caer a Chilgwri a fydd yn gwella'r achos economaidd dros fuddsoddi yn rhwydwaith rheilffyrdd Gogledd Cymru, yn arbennig o ran Canolfan HS2 Crewe yn Nwyrain Swydd Caer. Caiff y rhain eu cyfuno â chynigion presennol mewn diweddariadau i Raglen GT360 a fydd yn eu tro yn cael ei hadrodd i Gynghorau yn ardaloedd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy wrth iddynt gael eu datblygu.

Bydd y Tasglu yn ceisio nodi a chael cyllid i gynnal ei waith datblygu cynigion i wella buddsoddiad a gwasanaethau, wedi ei ategu gan waith lobio a chysylltiadau cyhoeddus.

## Argymhellion

1. Mabwysiadu Growth Track 360 fel Rhaglen Gwella Rheilffyrdd y Cyngor
2. Ysgrifennu at Ysgrifenyddion Gwladol Llywodraeth y DU dros Swyddfa Cymru a Thrafnidiaeth gan roi cefnogaeth y Cyngor i Growth Track 360
3. Ysgrifennu at y Canghellor gyda chopïau at yr Adran Drafnidiaeth a Swyddfa Cymru i ofyn am ddarparu £130m i weithredu Rhaglen Tymor Byr Growth Track 360 yn Natganiad yr Hydref 2016 a Chyllideb 2017.
4. Ysgrifennu at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch pennu'r Patrwm Gwasanaeth ar gyfer Gogledd Cymru a gynigir gan Growth Track 360 ym Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau.

# Asesiadau o Effaith

## Ariannol

Mae Growth Track 360 wedi cael ei ariannu drwy gyfraniadau gan gyrff sy'n cael eu hariannu gan Gynghorau fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r MDA.

Mae cynghorau wedi gwneud cyfraniadau uniongyrchol bach at yr ymgyrch dros y rheilffyrdd yn y gorffennol o £10k.

Nid yw unrhyw gyfraniadau uniongyrchol yn cael eu ceisio ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y gellid gofyn am gyfraniadau bach o hyd at £10k y cyngor yn y dyfodol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfrwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## Economaidd

Mae buddsoddi yn y rheilffyrdd yn rhan o strategaeth i ddyblu GVA dros 20 mlynedd yn y daearyddiaethau cyfun, gan greu 70,000 o swyddi newydd o bosibl.

Mae Gogledd Cymru wedi mynegi Gweledigaeth am Dwf sy'n ceisio tyfu'r economi gan £7.2bn dros 15 mlynedd, cynnydd o 56% ar y £12.8bn GVA rhanbarthol presennol. Mae buddsoddi yn y rheilffyrdd yn rhan allweddol o alluogi'r weledigaeth honno.

Mae'n debygol y bydd buddsoddi yn y rheilffyrdd yn cynyddu twf economaidd ac yn cynnig cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth yn y rhan fwyaf o Ogledd Cymru ac ardal Merswy Dyfrdwy.

Bydd buddsoddi yn y rheilffyrdd yn cefnogi strategaethau economaidd cynghorau dros dwf.

## Cydraddoldeb

Bydd gwasanaethau rheilffyrdd gwell yn gofyn am stoc rholi newydd a fydd yn gwella mynediad pobl anabl i reilffyrdd.

Bydd gwasanaethau rheilffyrdd gwell yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth newydd mewn rhai cymunedau difreintiedig, o'u cysylltu'n effeithiol â gwasanaethau bws cysylltiedig.

Bydd gwasanaethau rheilffyrdd a chyfleusterau gorsaf gwell yn cynyddu mynediad i wasanaethau trafnidiaeth.

## Cynaladwyedd

Mae teithio ar reilffyrdd yn llai niweidiol i'r amgylchedd na'r dull pennaf o deithio, sef y car modur preifat.

Nod Growth Track 360 yn gwneud y rheilffordd yn fwy cystadleuol â'r car modur preifat a chyflawni mân newid moddol o'r car i'r rheilffordd. Ar hyn o bryd, cyfran rheilffyrdd o gymudo yw tua 1%, sydd islaw cyfartaledd Cymru o 2% ac ymhell islaw'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn ardal Merseyrail lle mae gwasanaethau mynych, hwylus a fforddiadwy yn arwain at gyfraddau o fwy na 10% mewn rhannau o'r dalgylch.

Yn y tymor hir, bydd Growth Track 360 yn gwella'r amgylchedd, yn arbennig pe bai trydaneiddio yn cael ei gyflawni.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (yr Iaith Gymraeg)

Mae'r cynigion am Fuddsoddi mewn Rheilffyrdd yn gyson â gofynion egwyddorion cynaladwyedd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan weithio o blaid mwy o gydraddoldeb, llesiant economaidd a chymdeithasol a dyfodol carbon is.

O ran y Gymraeg, y bwriad yw y bydd rhwydwaith rheilffyrdd gwell yn galluogi pobl sy'n byw yn y rhanbarth ac sy'n siarad Cymraeg i gymudo'n haws i swyddi gwell drwy rwydwaith trafnidiaeth gwell ac yn arbennig felly rheilffyrdd, heb orfod symud eu cartref allan o'u cymunedau Cymraeg.

Fel hyn, gobeithir y bydd mwy o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn aros yn y rhanbarth ac hefyd yn mwynhau mynediad i gyfleoedd cyflogaeth gwell tu allan i'w cymunedau cartref.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28/11/2016** |
| **Pwnc:** | **Diweddariad ar y cynllun Trawsnewid Gwasanaeth Llyfrgell** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Kenneth P Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Rachel Rowlands/ Bethan Hughes-Jones**<br>**752094 rfxlh@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl aelodau.** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1. Pwrpas**

Pwrpas y papur hwn yw diweddaru'r Pwyllgor Gwaith ar y Cynllun Trawsnewid Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn.

**2. Rhagarweiniad**

O ganlyniad i'r Cynllun Corfforaethol a hefyd anghenion y gwasanaeth cafwyd adolygiad manwl 2014/15 a nodwyd sawl opsiwn (8) ar gyfer datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad eang gyda'r cyhoedd (Hydref 2015).Derbyniwyd bron i 2000 o ymatebion rhwng holiaduron, sesiynau wyneb yn wyneb, gweithdai a holi ar y stryd. Er nad oedd un opsiwn yn dod yn amlwg roedd cefnogaeth gref i geisio cael grwpiau i gydweithio gyda'r Cyngor I gynnal y gwasanaeth yn hytrach na gweld llyfrgelloedd yn cau.

Cynhaliwyd tri chyfarfod yn Amlwch, Porthaethwy a Rhosneigr (a hefyd yr is-grŵp rhanddeiliaid Llangefni) i drafod yn agored y broses trawsnewid. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn cafwyd cyfarfodydd gyda : Cyngor Cymuned Llanbadrig (25/5/16), Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf (25/5/16), Cyngor Tref Borthaethwy (19/05/16) a Cyngor Tref Biwmares (19/5/16), Cyngor Tref Amlwch (15/6/16), Cyfarfod o'r Grŵp 5 Tref (15/6/16 a 5/7/16); cyfarfod rhwng y swyddogion a Menter Môn (7/6/16); cyfarfod rhwng swyddogion o'r Gwasanaeth Llyfrgell a'r Gwasanaeth Oedolion (17/6/16); a chyfarfod gyda swyddogion MALD (08/7/16). Yn ogystal, gwahoddwyd swyddogion i fynychu cyfarfod cyhoeddus ym Mhorthaethwy a oedd wedi ei drefnu gan y Cyngor Tref (15/5/16)

Yn ystod y cyfarfodydd hyn amlygwyd nifer o gyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth trwy drawsnewid y modd y mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn cael ei gyflwyno. Mae rhai o'r cyfleoedd wedi eu trafod gan y Gwasanaeth yn ystod yr Adolygiad Gwasanaeth a'r broses ymgynghori eang fu yn ystod tymor yr Hydref 2015.

**3. Beth sydd yn newydd ers Sesiwn Briffio Aelodau 14 /7/16?**

Mae gwaith wedi parhau ar y Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell, modelu a chostio dewisiadau gan ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a thrafodaethau gyda phartïon â diddordeb.

5 Tref wedi comisiynu Menter Môn i sefydlu astudiaeth ffurfiol yn edrych ar y materion ymarferol o ddarparu gwasanaeth llyfrgell gyda phartner o'r gymuned. Gallai hyn gynnwys trosglwyddo adeiladau i fudiad trydydd sector naill ai'n llawn neu ar brydlesi tymor hir. Caiff canfyddiadau'r astud*i*aeth ei adrodd yn llawn pan fydd wedi dod i law.

Gwaith mapio a chostio'r opsiynau wedi'i wneud er mwyn gweld yr effaith ar ein safonau ac asesu unrhyw effaith ar drigolion Ynys Môn.

Comisiynwyd gwaith GIS (geographic information system) gan Cyngor Gwynedd, sydd yn sail i'r gwaith uchod.

Cyfle wedi codi i gaffael llyfrgell deithiol newydd sy'n gyfle euraidd i drawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell Teithiol a Gwasanaeth Caeth i'w Tai, trwy newid yr amserlen a'r llwybrau teithio, a sicrhau fod y gwasanaeth Llyfrgell yn gyraeddadwy i bawb. Bydd y fan deithiol yn elfen hanfodol i strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgell i'r dyfodol.

Mae 'na gyfle i'r gwasanaeth fanteisio ar y faith fod y Gwasanaethau Oedolion yn awyddus i beilota model o Hwb Cymunedol gyda Llyfrgell yn rhan greiddiol ohono

Mae trafodaethau cychwynnol hefyd i'w cynnal ynghylch y posibilrwydd o dreiglo/' gartrefu' gwasanaeth Cyswllt Môn i adeiladau'r llyfrgell.

**4. Cyfleoedd yn codi**

Sicrhad fod Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Potensial i gymunedau fod mewn sefyllfa gref i gynorthwyo'r awdurdod i gynnal y gwasanaeth i'r dyfodol.

Cyfle i gryfhau'r Gwasanaeth Teithiol gan sicrhau ei fod yn fwy cyraeddadwy i drigolion Ynys

Môn ac yn gwneud gwell defnydd o ased a staff trwy adolygiad llwyr o'r elfen hwn o'r gwasanaeth.

Y potensial i ddatblygu hwb cymunedol aml adrannol sydd yn agor am fwy o oriau heb oblygiadau staffio ychwanegol i'r gwasanaeth (peiriant hunan wasanaeth pan nad oes staff Llyfrgell yno), a modd dysgu o'r cyfle i beilota er mwyn cynllunio i'r dyfodol.

**5. Risgiau i'r Prosiect**

Mae amseriad cwblhau'r trawsnewid yma wedi llithro ymhellach na Ebrill 2017, sef y targed gwreiddiol. Wrth drafod gyda'r cymunedau amrywiol y brif neges a dderbyniwd oedd nad yw ein hamserlen ni yn un sydd yn realistig o'u hochr nhw. Mae'r neges hon wedi ei ategu gan Menter Môn sydd am weld ymchwil trwyadl i hyfywedd yn cael ei gynnal cyn i gymunedau gamu ymlaen i gymryd rheolaeth o asedau.

**Tynnir sylw'r Pwyllgor Gwaith at ein bwriad i weithredu yn unol â'r camau canlynol:**

1. Parhau i drafod ffyrdd o weithio gydag eraill i gynnig gwasanaeth cynaliadwy â ffocws, gan gynnwys model cyfraniad gwirfoddol ar gyfer gweithgareddau gwerth ychwanegol.
2. Cyflwyno Draft Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell i'r Pwyllgor Gwaith Chwefror 2017.
3. Ymgynghori ar y Draft Strategaeth ym mis Mai 2017 yn dilyn yr etholiad lleol.
4. I adrodd ar y Strategaeth Ddrafft, yng ngoleuni canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2017.
5. Penderfyniad terfynol ar gyfeiriad strategol Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn i'w gytuno gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2017, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| n/a |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| *Er gwybodaeth ar gais penodol gan y Pwyllgor Gwaith* |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| n/a |

| |
|---|
| |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| n/a |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgrwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae pob opsiwn a gyflwynir yn cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Diweddariad ar y cynllun Trawsnewid Gwasanaeth Llyfrgell |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd 2016** |
| **Pwnc:** | **Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ken Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Wyn Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Delyth Wyn Molyneux**<br>**01248 752916**<br>**delythmolyneux@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i bob aelod etholedig** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad**

Derbyn yr adroddiad ar y cynnydd hyd yma.

**Cefndir**

Cafwyd cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith 20 o Orffennaf 2015 i :

1. Adolygu ac ail negydu cytundeb Trinity House i Ynys Lawd erbyn 2017. Arbedion i'w costio'n dibynnu ar delerau.
2. Mynd i mewn i bartneriaeth gyda grwpiau cymunedol neu genedlaethol ar gyfer rhai o'r safleoedd (e.e. Llys a Charchar Biwmares, Melin Llynnon). Arbedion i'w costio'n ddibynnol ar delerau.
3. Mynd i mewn i gytundeb gyda gweithredwr 3ydd parti. Arbedion i'w costio'n dibynnu ar delerau.
4. Cytundebu gweithredwr 3ydd parti. Arbedion i'w costio'n ddibynnol ar delerau.
5. Gwasanaeth awdurdod lleol-arweiniol gyda Sefydliad Datblygu. Arbedion i'w costio'n dibynnu ar delerau
6. Sefydlu corff elusennol annibynnol i weithredu'r gwasanaeth. Arbedion i'w costio'n ddibynnol ar delerau.

**Diweddariad**

<u>Ynys Lawd</u>

Mae rhybudd ffurfiol o 12 mis wedi ei roi i Trinity House yn datgan ein bod yn dod a'r brydles i ben diwedd Mawrth 2017. Rydym yn disgwyl am restr o'r dadfeiliadau gan Trinity House

( landlord) fydd rhaid i'r Cyngor (fel y tenant) gywiro neu dalu i fod wedi datrys dan gyfamodau yn y brydles. Mae hawl gan y landlord hyd at 3 mis ar ôl i'r brydles dod i ben i wneud cais ariannol yn erbyn y Cyngor. Amcangyfrif o'r gost yw 90-100 mil o bunnoedd.

Mae trafodaethau lleol hefyd i'w cynnal gyda'r Cyngor Tref ayyb.

Allanoli Asedau Treftadaeth

Er mwyn darganfod os yn bosib mynd i mewn i bartneriaeth gyda grwpiau cymunedol neu genedlaethol ar gyfer rhai o'r safleoedd gofynnwyd am ddatganiad o ddiddordeb gan bartïon a diddordeb i redeg Oriel Ynys Môn , Safle Melin Llynnon a'r Tai Crynion , Carchar a Llys Beaumaris yn Hydref 2015. Derbyniwyd y datganiadau canlynol :

| Safleoedd | Nifer o ddatganiadau |
|---|---|
| Melin Llynnon a'r Tai Crynion | 5 |
| Oriel Ynys Môn | 3 |
| Carchar a Llys Beaumaris | 3 |

Cytunwyd y Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid yn Ionawr 2016 wahodd ceisiadau ffurfiol gyda chynlluniau busnes gan bartïon gyda diddordeb rhedeg Safle Melin Llynnon a'r Tai Crynion , Carchar a Llys Beaumaris. Penderfynwyd hefyd i gomisiynu adroddiad ar sut i facsimeiddio incwm yr Oriel a peidio cynnwys yr Oriel yn y broses allanoli.

Safle Melin Llynnon a'r Tai Crynion , Carchar a Llys Beaumaris

Gwahoddwyd ceisiadau drwy sell2wales yn Ebrill 2016 yn gofyn i bartion gyda diddordeb gyflwno ceisiadau busnes.Derbyniwyd un cais am safle Melin Llynnon a'r Tai Crynion a datganiad arall o ddiddordeb am y Carchar a Llys Beaumaris.

Cynhaliwyd cyfweliad gyda'r un ymgeisydd am safle Melin Llynnon a'r Tai Crynion ym Mehefin 2016 .Penderfyniad y panel oedd peidio symud ymlaen gyda'r cais ymhellach.

Penderfynodd y Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid ail agor y broses drwy sell2wales eto yn Medi 2016. Erbyn y dyddiad cau ar 11 Tachwedd 2016 mae dau gais am safle Melin Llynnon ag un cais am y Carchar a Llys Beaumaris wedi ei dderbyn.

Oriel Ynys Môn

Yn Ionawr 2016 cafwyd adroddiad ar sut i gynyddu'r incwm ynghyd a chynllun ail strwythuro staff. Mae'r ail strwythuro staff yn gyflawn gyda Uwch Reolwr a Rheolwr Busnes wedi'i apwyntio ym Medi 2016. Blaenoriaeth y Rheolwr Busnes fydd i arwain ar y cynllun uchafu incwm ac ymestyn defnydd o'r Oriel gan y cyhoedd. Cyflwynir Cynllun Busnes i'w gymeradwyo

| |
|---|
| erbyn Ionawr 2017  am dair blynedd gyda ffocws ar uchafu incwm, ehangu'r cynnig a wneir i'r cyhoedd a chryfhau'r agweddau gelfyddydol.Bydd y cynllun busnes hefyd yn rhoi ystyriaeth bellach i ymchwilio i mewn i ddatblygu gwasanaeth awdurdod lleol-arweiniol gyda Sefydliad Datblygu /Sefydlu corff elusennol annibynnol.<br><br><u>Camau nesaf</u><br><br>Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ar yr 20ed o Fawrth 2017 er mwyn penderfynu ar y canlynol:<br><br>• Cytuno ar yr argymhellion ynglŷn ag allanoli'r asedau treftadaeth.<br>• Cymeradwyo'r Cynllun Busnes i Oriel Ynys Môn.<br>• Cymeradwyo'r camau gweithredu gydag Ynys Lawd. |
| |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Diweddariad yw hwn yn unig . |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| ydyw |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodwyd y camau gweithredu yn y Bwrdd Trawsnewid |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd 2016** |
| **Pwnc:** | **Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Ll Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-Bost: | **Karen Roberts, Prif Swyddog Tai**<br>**01248 752290**<br>**klrhp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo mabwysiadu'r Polisi.

**R1** Cymeradwyo mabwysiadu'r Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2016 newydd.

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol fabwysiadu a chyhoeddi polisi ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**1.2** Ar 20 Hydref 2014, daeth Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i rym yng Nghymru a Lloegr, sy'n amlinellu dull newydd, gyda'r pwyslais ar bobl, er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**1.3** Ysgrifennwyd y Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol presennol yn 2010 ac mae angen ei ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol sy'n caniatáu i swyddogion ddefnyddio'r ystod lawn o fesurau sydd ar gael i gefnogi dioddefwyr ac i ddelio â chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**1.4** Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Phlismona 2014 wedi symleiddio'r mesurau sydd ar gael i gyrff proffesiynol ac wedi creu 6 phrif bŵer i gyd-fynd â mesurau eraill sy'n bodoli eisoes, ac a fydd yn parhau i fod ar gael. Rhestrir y 6 phŵer newydd isod. O'r pwerau hyn, mae 1.4.1, 1.4.3, 1.4.5 yn ymwneud â'r swyddogaeth rheoli tai;

- **1.4.1** Gwaharddeb Sifil
- **1.4.2** Gorchymyn Ymddygiad Troseddol
- **1.4.3** Hysbysiad Amddiffyn y Gymuned
- **1.4.4** Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus
- **1.4.5** Grym i Gau
- **1.4.6** Grym i Wasgaru

**1.5** Mae rhestr gynhwysfawr o'r holl fesurau sydd ar gael yn Atodiad 1 y Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2016.

**2.0** Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) wedi ei gwblhau mewn perthynas â'r polisi arfaethedig, sydd yn awgrymu na ni fydd gweithredu'r polisi yn cael effaith andwyol ar y grwpiau a warchodir yn statudol.

**2.1** Ystyrir bod y polisi yn gyfreithlon, angenrheidiol ac yn gymesur.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

1) Nid oes opsiynau eraill i'w hystyried.
   Nid yw peidio diweddaru Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2010 yn opsiwn gan fod y Polisi wedi dyddio ac nid yw'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol nac yn caniatáu i swyddogion dynodedig wneud y defnydd gorau o'r mesurau a gyflwynwyd yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Phlismona 2014 i gefnogi'r rheini sy'n dioddef oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

| |
|---|
| |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith yn llwyr gymeradwyo a chefnogi'r polisi. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| **1)** Mae'n rhaid i bob Landlord Cymdeithasol gael, a chyhoeddi, Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.<br>**2)** Byddai penderfynu peidio a cymeradwyo'r polisi hwn yn golygu na fyddai modd i i'r Cyngor, fel Landlord Cymdeithasol, arfogi ein hunain â'r holl fesurau sydd ar gael o dan y ddeddf newydd, sef Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Phlismona 2014.<br>**3)** Byddai gwrthod y Polisi hwn yn golygu na fyddai'r Gwasanaeth Tai yn gallu cynnig ystod lawn o gefnogaeth i'r rheini sy'n dioddef effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol gan olygu y gallai'r gwasanaeth fod yn agored i her gyfreithiol. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |
| |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Do |
| **2** | **Cyllid / Adran 151 151** (gorfodol) | Do |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Do |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Do |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Na |

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Aelodau Lleol** | Do – dosbarthwyd copi o'r polisi arfaethedig i'r holl aelodau lleol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | ▪ Tîm Rheoli Tai<br>▪ Swyddog Arweiniol Diogelwch Cymunedol<br>▪ Cyfreithiwr y Gwasanaeth Tai<br>▪ Grŵp Ffocws Tenantiaid<br>▪ Swyddogion sy'n ymwneud â chyflenwi'r swyddogaeth rheoli tai<br>▪ Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Oes |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Oes |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Am unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch â Karen Roberts, Prif Swyddog Tai. |

| **FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| ▪ Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2016<br>▪ Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)<br>▪ Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd 2014 |

# Cyngor Sir Ynys Môn - Gwasanaethau Tai

# Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2016

DRAFFT

**CYNNWYS** **TUDALEN**


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Rhagarweiniad** | **3** |
| **2.** | **Datganiad Polisi** | **3** |
| **3.** | **Cyd-destun Strategol** | **4** |
| **4.** | **Fframwaith Cyfreithiol** | **5** |
| **5.** | **Rhanddeiliaid** | **6** |
| **6.** | **Diogelu data a rhannu gwybodaeth** | **6** |
| **7.** | **Ein hymrwymiad a’n gwerthoedd** | **6** |
| **8.** | **Diffiniad o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** | **7** |
| **9.** | **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014** | **8** |
| **10.** | **Dull partneriaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol** | **9** |
| **11.** | **Gwahaniaethu rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans rheoli stad** | **10** |
| **12.** | **Enghreifftiau o'r hyn nad yw efallai’n cael ei ystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol** | **11** |
| **13.** | **Rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol** | **11** |
| **14.** | **Ymateb i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol** | **12** |
| **15.** | **Rôl y Swyddog Rheoli Tai** | **12** |
| **16.** | **Rôl y Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Swyddog YG)** | **14** |
| **17.** | **Cwynion dienw** | **15** |
| **18.** | **Mesurau ataliol** | **15** |
| **19.** | **Cymorth, adsefydlu ac ailsefydlu** | **16** |
| **20.** | **Diogelu a chefnogi staff** | **17** |
| **21.** | **Hyfforddiant** | **17** |
| **22.** | **Anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd** | **18** |
| **23.** | **Sbardun Cymunedol** | **19** |
| **24.** | **Adolygu a monitro’r polisi** | **19** |
| **25.** | **Monitro perfformiad** | **20** |

**ATODIAD 1: Ffyrdd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol** **21**


DRAFFT

## 1. Rhagarweiniad

**1.1.** Mae'r Gwasanaethau Tai yn cydnabod y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gael effaith sylweddol ar fywydau ein tenantiaid a'n preswylwyr.

**1.2.** 'Rydym yn credu bod gan yr holl denantiaid a phreswylwyr hawl i fwynhau heddwch, tawelwch a diogelwch yn eu cartrefi a'r cyffiniau. 'Rydym yn gwerthfawrogi y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gael effaith ofnadwy ar ddioddefwyr ac, i'r perwyl hwn, mae Gwasanaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mor gyflym ac effeithiol ag y bo modd, trwy weithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o asiantaethau a defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ar gael iddo, fel y diffinnir nhw yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

**1.3.** Byddwn yn cymryd pob achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol o ddifrif, gan gynnwys camdriniaeth ddomestig a throseddau casineb ac mi wnawn ni ymdrechu i ymdrin â phob cwyn yn gyflym ac yn gadarn, gan ddarparu cymorth i'r rheini sy'n cael eu heffeithio.

## 2. Datganiad Polisi

**2.1.** Gyda golwg ar leihau effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar denantiaid, preswylwyr a'r gymuned ehangach, amcan y polisi hwn yw nodi'n glir sut y bydd Gwasanaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn yn ymateb i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ein stadau a sut bydd yn delio â'r cwynion hynny.

**2.2.** Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Symleiddio'r ffordd o roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr a / neu achwynwyr.
- Mabwysiadu dull ymyrraeth gynnar ac ataliol.
- Rhoi dioddefwyr yn gyntaf drwy ystyried, o'r cychwyn cyntaf, effaith yr YG ar ddioddefwyr ac unrhyw berygl iddynt. Gwneir hynny drwy ganolbwyntio ar nodi materion bregusrwydd a materion diogelu posibl.
- Ymateb yn gymesur ac mewn modd amserol.
- Ystyried pob achos yn ôl ei haeddiant a defnyddio dulliau datrys problemau o weithredu ar gyfer pob achos y ceir gwybod amdano.
- Gweithio gydag asiantaethau partner i sicrhau'r datrysiad gorau a'i roi ar waith cyn gynted â phosib.
- Ymateb i newidiadau deddfwriaethol a gwneud y defnydd gorau o'r pwerau sydd ar gael i'r Cyngor a phartneriaid eraill sydd â chyfrifoldeb.

DRAFT

## 3. Cyd-destun strategol

**3.1.** Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn rhannu ymrwymiad Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**3.2.** Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr tai cymdeithasol fabwysiadu a chyhoeddi polisïau ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae rolau a chyfrifoldebau landlordiaid cymdeithasol hefyd wedi eu hamlinellu'n glir mewn cyhoeddiad gan y Llywodraeth o'r enw 'Policies and Procedures - Code of Guidance for Local Authorities and Housing Associations (2005)'.

**3.3.** Yn ogystal â'r uchod, mae Gwasanaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo hefyd i ymuno â 'Safon Rheoli Tai Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol' a bennwyd gan Lywodraeth Cymru '(Y Safon) sy'n seiliedig ar saith ymrwymiad craidd sy'n golygu bod landlordiaid ac asiantaethau partner yn medru ymateb yn effeithiol ac yn gyfannol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**3.4.** Rhannau craidd y Safon yw;

- Ymrwymiad, arweinyddiaeth ac atebolrwydd.
- Grymuso a rhoi sicrwydd i drigolion.
- Camau ataliol ac ymyrraeth gynnar.
- Cymorth i fynd i'r afael ag achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gwasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer preswylwyr a chymorth i ddioddefwyr a thystion.
- Diogelu cymunedau trwy gymryd camau gorfodaeth yn gyflym.
- Annog cyfrifoldeb cymunedol.

**3.5.** Mae'r polisi hwn wedi ei ysgrifennu er mwyn sicrhau bod yr hyn a wnawn yn seiliedig ar weledigaeth strategol y Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda'r nod o sicrhau cymunedau cryf a diogel a chwrdd hefyd ag amcanion a nodau strategol Cyngor Sir Ynys Môn o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cwrdd ag anghenion gwirioneddol ein cymuned leol ac sy'n amddiffyn y bobl fwyaf bregus.

DRAFT

## 4. Fframwaith cyfreithiol

**4.1.** Bydd Gwasanaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn bob amser yn gweithio o fewn fframwaith deddfwriaethol ac yn cymryd canllawiau statudol i ystyriaeth. Y prif feysydd deddfwriaeth y byddwn yn eu hystyried wrth weinyddu'r polisi hwn yw:

- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu ac Anhrefn 2014
- Deddfau Tai 1985, 1988, 1996 a 2004
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd a Llesiant 2016
- Deddf Digartrefedd 2002
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Gofal 2014
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993
- Deddf Plant 1989 (Diwygiwyd 2005)
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf Iechyd Meddwl 2007

DRAFFT

## 5. Rhanddeiliaid

**5.1.** Bydd y polisi hwn yn bennaf yn effeithio ar y rhanddeiliaid canlynol;

- Tenantiaid a phreswylwyr sy'n byw mewn anheddau Cyngor neu yn y cyffiniau.
- Busnesau sy'n gweithredu yng nghyffiniau'r anheddau'r Cyngor.
- Swyddogion y Cyngor o bob adran.
- Contractwyr.
- Aelodau lleol a Chynghorwyr Tref.
- Gwirfoddolwyr.
- Heddlu a gweithwyr cyfiawnder ieuenctid.
- Aelodau o'r cyhoedd sy’n â ymweld â stadau.

## 6. Diogelu Data a Rhannu Gwybodaeth.

**6.1.** Bydd yr holl ddata yn cael ei storio yn unol â Chanllawiau’r Cyngor ar gyfer Diogelu Data a glynir wrth ofynion Ddeddf Diogelu Data 1988.

**6.2.** Ni fyddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth a roddir i ni pan gawn wybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol heb ganiatâd yr achwynydd *oni bai fod* y Cyngor yn teimlo bod materion diogelu hollbwysig y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt.

**6.3.** Mae Adran 115 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rhannu gwybodaeth am atal a chanfod trosedd ac anhrefn. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i Brotocol Rhannu Gwybodaeth Gogledd Cymru sy'n cynnwys darpariaeth bod gan yr holl asiantaethau partner rym i ddatgelu gwybodaeth i awdurdodau statudol yn unol â'r protocol y cytunwyd arno.

## 7. Ein Hymrwymiad a’n Gwerthoedd.

**7.1.** Mae Gwasanaeth Tai Cyngor Môn yn ymrwymedig i fod yn hygyrch, yn ddiduedd ac yn deg i bob aelod o'r gymuned wrth fynd i'r afael â chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ein nod yw darparu gwasanaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol cynhwysfawr ac o’r radd flaenaf i'n tenantiaid, lesddeiliaid a a thrigolion.

DRAFFT

**7.2.** Byddwn yn :

- Cymryd pob cwyn o ddifrif.
- Ymateb mewn modd amserol.
- Parchu dymuniadau achwynwyr wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin gyda chydymdeimlad.
- Cytuno ar gynllun gweithredu gydag achwynwyr a sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru'n amserol ar gynnydd.
- Cefnogi dioddefwyr drwy gydol y broses. Trafodir a chytunir y cymorth a roddir gyda'r dioddefwyr a gall gynnwys eu cyfeirio at wasanaethau eraill pe bai angen cymorth arbenigol.
- Ble mae dioddefwyr (neu'r troseddwyr mewn rhai achosion) wedi eu dynodi'n bobl fregus, byddwn yn mabwysiadu dull amlasiantaeth o weithredu i fynd i'r afael ag anghenion cymorth yr unigolyn.
- Ymchwilio i gwynion yn ddiduedd ac mewn ffordd nad yw'n feirniadol.
- Ceisio gweithio gyda'r holl bartïon i ddatrys unrhyw broblemau cyn gynted ag y bo modd gan ddefnyddio'r ystod o ddulliau sydd ar gael i ni a'n hasiantaethau partner.

## 8. Diffiniad o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**8.1.** Mae'r term 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn cwmpasu sbectrwm eang o ymddygiadau a all gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rheini sy'n cael eu heffeithio.

**8.2.** At ddibenion y polisi hwn, mae'r Cyngor yn mabwysiadu'r diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi ei gynnwys yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 sy'n disgrifio ymddygiad gwrthgymdeithasol fel a ganlyn:

- Ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu ofid i unrhyw berson.
- Ymddygiad sy'n gallu achosi niwsans neu annifyrrwch i berson mewn perthynas â phreswyliaeth yr unigolyn hwnnw
- Ymddygiad sy'n gallu achosi niwsans neu annifyrrwch sy'n gysylltiedig â mater tai i unrhyw un.

DRAFT

**8.3.** Isod, ceir enghreifftiau o'r ystod eang o weithgareddau annerbyniol a all gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd dioddefwyr ac aelodau o'r gymuned (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Graffiti.
- Fandaliaeth.
- Cerddoriaeth uchel.
- Niwsans sŵn.
- Tipio anghyfreithlon.
- Niwsans a achosir gan anifail anwes (megis sŵn neu faeddu).
- Ymddygiad troseddol gan gynnwys defnydd anghyfreithlon neu anfoesol o adeiladau preswyl.
- Ymddygiad bygythiol neu dreisgar neu iaith ymosodol neu fygythiol.
- Troseddau casineb (fel troseddau hiliaeth a chasineb crefyddol, troseddau casineb homoffobig a thrawsffobig, troseddau casineb anabledd, troseddau yn erbyn pobl hŷn).
- Troseddau Cyfaill (Pan fo pobl fregus yn cael eu cam-drin gan rywun y maent yn credu eu bod yn ffrind iddynt neu pan fo’r person hwnnw’n cymryd mantais annheg ohonynt - mewn rhai amgylchiadau mae’r rhain yn droseddau casineb anabledd).
- Cam-drin domestig.
- Aflonyddu neu ymddygiad sy’n codi ofn
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau.

DRAFT

## 9. Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014.

**9.1.** Daeth Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i rym ar 20 Hydref 2014 yng Nghymru a Lloegr, ac mae’n amlinellu dull newydd o ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda phwyslais ar roi dioddefwyr yn gyntaf, drwy rymuso dioddefwyr a chymunedau wrth roi mwy o lais iddynt yn y ffordd y mae asiantaethau ymateb yn ymateb i gwynion.

**9.2.** Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi cyflwyno pwerau symlach, mwy effeithiol sy’n galluogi swyddogion i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy amddiffyn dioddefwyr a chymunedau’n well.

**9.3.** Prif nod y ddeddfwriaeth hon yw sicrhau bod yr ymateb i gwynion yn canolbwyntio mwy ar y dioddefwr ac yn symleiddio'r mesurau sydd ar gael i gyrff proffesiynol – ‘roedd 19 o fesurau ar gael yn flaenorol ond bellach maent wedi ei mireinio i ffurfio 6 phŵer newydd sef :

- Gwaharddeb sifil
- Gorchymyn Ymddygiad Troseddol
- Hysbysiad Amddiffyn y Gymuned
- Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus
- Grym i gau
- Grym i wasgaru

**9.4.** Mae manylion am y teclynnau y cyfeirir atynt yn 9.3, ynghyd â ffyrdd eraill sydd ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i'w gweld yn ATODIAD 1 i’r ddogfen hon.

## 10. Dull partneriaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

**10.1.** Gan weithio ar y cyd â phartneriaid priodol a Heddlu Gogledd Cymru, rydym yn ymrwymedig i wneud y mwyaf o'r grymoedd sydd ar gael i ni fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella ansawdd bywyd i denantiaid a thrigolion ar ein stadau Cyngor.

**10.2.** Yn ogystal â chyfarfodydd ad-hoc a drefnir i roi sylw i bryderon penodol fel y bydd angen, rydym hefyd yn cymryd rhan mewn ystod o gyfarfodydd amlasiantaeth a sefydlwyd i drafod achosion ac i chwilio am ddatrysiadau cadarnhaol:

- Cyfarfodydd Partneriaeth Gweithredu Cymunedol.
- MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd)
- MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol)
- Cyfarfodydd Tasgio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Gwynedd a Môn.
- Cyfarfodydd y Panel Atal.

DRAFFT

- Cyfarfodydd VARM (Rheoli Risg i Oedolion Bregus)
- Cyfarfodydd IOM (Rheoli Integredig Troseddwyr)
- Cyfarfodydd Panel Adsefydlu Ymgynghorol Môn a Gwynedd

## 11 Gwahaniaethu rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cyffredinol ar stadau

**11.1.** Er y byddwn yn cymryd pob cwyn o ddifrif ac yn ymdrechu i roi dioddefwyr yn gyntaf bob amser, rydym hefyd yn cydnabod na fydd pob cwyn neu anghydfod rhwng cymdogion yn cynnwys elfen o ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod rhai o'r anghydfodau'n digwydd oherwydd ffyrdd o fyw gwahanol neu ddisgwyliadau personol gwahanol++.

**11.2.** Cydnabyddir bod gan bobl wahanol werthoedd a safbwyntiau a disgwyliadau gwahanol hefyd o ran sut maent yn credu y dylai pobl eraill ymddwyn, ac weithiau gall hyn achosi problemau oherwydd bod gan bobl wahanol ffyrdd o fyw. Gall hynny, yn ei dro, arwain at gwynion a honiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**11.3.** Rydym yn disgwyl i drigolion fod yn ystyriol o'u cymdogion ac *o fewn rheswm,* disgwylir i bawb ddangos goddefgarwch a pharch tuag at wahanol ffyrdd o fyw.

**11.4.** Mae p'un a ydym yn ystyried bod gweithgaredd o natur wrthgymdeithasol ai peidio yn dibynnu ar nifer o bethau, gan gynnwys;

- A ellid ystyried bod yr ymddygiad y cafwyd gwybod amdano yn gyffredinol afresymol.
- Pa mor fregus yw'r dioddefwyr neu'r dioddefwyr honedig.
- Amgylchiadau unigol yr holl bartïon cysylltiedig.
- Pa mor aml y mae'n digwydd.
- Pa mor ddifrifol y mae'n effeithio ar bobl eraill.
- Pa bryd mae'n digwydd.

**11.5.** Ar wahân i'r uchod, byddwn hefyd yn ystyried a yw'r gweithgaredd neu'r ymddygiad yn effeithio ar swyddogaeth rheoli tai'r Cyngor.

**11.6.** Os byddwn yn teimlo, ar ôl ymchwilio, nad yw'r ymddygiad y cwynir amdano'n wrthgymdeithasol, byddwn yn rhoi gwybod i'r achwynydd am ein



DRAFT

penderfyniad ac yn cytuno pa gamau (os o gwbl) y mae'n briodol i'w cymryd i ddatrys y broblem.

## 12. Enghreifftiau o'r hyn nad yw efallai'n cael ei ystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol

**12.1.** Mae'r canlynol yn rhoi arweiniad o ran pa weithgareddau **na** fydd y Cyngor yn ystyried efallai eu bod yn ymddygiad gwrthgymdeithasol - nid yw hwn yn bolisi hollgynhwysol ac ni fydd **unrhyw** benderfyniad yn cael ei wneud nes bod ymchwiliadau wedi eu cynnal a'r ffeithiau llawn wedi eu sefydlu.

- Sŵn a wneir gan blant yn ystod gweithgareddau chwarae arferol, oni bai y gellid ystyried ei fod yn amharu ar bobl yn eithriadol.
- Sŵn arferol a glywir mewn cartref pob dydd fel agor a chau drysau, symud o fewn y cartref (grisiau).
- Anghydfodau teuluol (oni bai eu bod yn amharu'n ormodol neu'n eithriadol o swnllyd neu fod tebygolrwydd o gamdriniaeth).
- Partïon neu ddathliadau unigol.
- Ffordd wahanol o fyw megis gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith shifft.
- Mân-wahaniaethau personol megis 'edrych yn gas' neu blant yn cweryla.
- Anghytundebau ynghylch materion parcio oni bai bod llecynnau parcio dynodedig yn cael eu camddefnyddio (nid yw hyn yn cynnwys hawl ganfyddedig i barcio mewn man penodol).
- Gwaith DIY neu waith yn yr ardd os caiff ei wneud ar adeg resymol.
- Mân-waith trwsio ar geir.
- Cwynion i ddial am rywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

## 13 Rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**13.1.** Ein nod yw sicrhau ei bod cyn hawsed â phosib i ddioddefwyr ac achwynwyr roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol

**13.2.** Gall achwynwyr roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy unrhyw un o'r dulliau canlynol;

- E-bostio'r pryderon i ADRANTAI@ynysmon.gov.uk
- Ffonio Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Gwasanaeth Tai ar 01248 752200.
- Mynd at un o'n Tîm Tai a all fod ar y stad.



DRAFT

- Mynd i brif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni a siarad ag un o'n swyddogion Cyswllt Môn, neu mynd i’r swyddfa dai leol yng Nghanolfan J E O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB.
- Ysgrifennu at y Gwasanaethau Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.
- Drwy drydydd parti, h.y. Cynghorydd Lleol.

## 14 Ymateb i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**14.1.** Pan dderbynnir cwyn, bydd y Cyngor yn ystyried difrifoldeb y gŵyn ar y cychwyn a pha gamau sydd fwyaf priodol. I fod yn effeithiol yn ein dull o weithredu, rydym yn credu bod angen taro cydbwysedd rhwng gwaith atal, gorfodi a mesurau cefnogol.

**14.2.** Byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, gan wneud y defnydd gorau o'r pwerau sydd ar gael i ni yn ogystal â defnyddio ein hadnoddau mewnol ein hunain yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## 15 Rôl y Swyddog Rheoli Tai (SRhT).

**15.1.** Mae gan y Gwasanaeth Tai dîm o dri SRhT ac yn y mwyafrif o achosion, bydd y SRhT yn delio â'r gŵyn gychwynnol.

**15.2.** Maes gwaith y SRhT yw ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel, ymddygiad niwsans ac achosion cyffredinol o dorri amodau tenantiaeth. Bydd yn gwneud hynny drwy ddefnyddio amrywiaeth o fesurau sy’n addas ar gyfer delio â’r gŵyn benodol, megis rhybuddion llafar, llythyrau rhybuddio, cyfryngu, cyhoeddi Contractau Ymddygiad Derbyniol ac ymestyn tenantiaethau rhagarweiniol. Gellir datrys y rhan fwyaf o achosion gyda'r SRhT fel y swyddog arweiniol.

**15.3.** Unwaith y derbynnir cwyn fe’i rhoddir mewn un o bedwar categori penodol sydd gan y Cyngor ar gyfer materion YG. Mae'r tabl isod yn rhoi arweiniad ar sut y gallai cwynion gael eu categoreiddio. Fodd bynnag, nid yw'r rhestrau yn hollgynhwysol a bydd pob cwyn yn cael ei hystyried yn ôl ei haeddiant cyn penderfynu ar ei difrifoldeb.

| **Categori 1** | **Y mathau mwyaf difrifol o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n arwain at drais gwirioneddol neu fygythiad o drais.** |
|---|---|
| **Ymateb o fewn 24 awr** | Ymosodiad |
| | Cam-drin domestig |
| | Defnyddio ymddygiad neu iaith fygythiol |
| | Troseddau casineb |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Troseddau 'cyfaill'<br>Gangiau'n bygwth a brawychu |
| **Categori 2**<br><br>**Ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith** | **Ymddygiad gyda'r nod o fygwth ac a allai fod wedi bod yn digwydd dros gyfnod o amser ac y gellir ei ystyried ei fod yn aflonyddu.**<br>Cam-drin geiriol<br>Ymddygiad bygythiol (gall hefyd gynnwys defnyddio anifeiliaid anwes)<br>Gweithgaredd sy'n gysylltiedig ag alcohol neu gyffuriau<br>Sŵn<br>Difrod i eiddo neu gerbydau |
| **Categori 3**<br><br>**Ymateb o fewn 7 diwrnod gwaith** | **Ymddygiad a allai gael ei ystyried yn wrthgymdeithasol ond nad yw'n fwriadol.**<br><br>Plant / pobl ifanc yn ymgynnull mewn mannau cymunedol<br>Defnydd amhriodol o ardaloedd cymunedol / systemau drws mynediad<br>Sŵn<br>Trin cerbydau<br>Cerbydau sydd wedi eu gadael<br>Gerddi blêr<br>Rhedeg busnes o'r annedd |
| **Categori 4**<br><br>**Ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith** | **Materion sy'n codi oherwydd ffordd o fyw gwahanol ond lle gallai pobl fod yn ymddwyn mewn modd anystyriol ond heb dorri amodau tenantiaeth.**<br>Sŵn cyffredinol yn y cartref<br>Plant yn chwarae<br>DIY<br>Parcio anystyriol |

**15.4.** Bydd y SRhT yn trafod y gŵyn yn fanwl gyda'r achwynydd ac yn cytuno ar gynllun gweithredu a fydd yn cynnwys;

- Cofnodi a chategoreiddio'r gŵyn.
- Trafod yr opsiynau posibl sydd ar gael i fynd i'r afael â'r mater.

- Gofyn am farn a sylwadau'r achwynydd neu'r dioddefwr ynghylch sut mae'n dymuno i'r Cyngor ddelio â'r gwyn.
- Gwneud yr achwynydd yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt i helpu'r Cyngor i symud ymlaen gyda'r gŵyn h.y. efallai y bydd gofyn iddynt gadw taflen ddyddiadur yn manylu ar ddigwyddiadau pellach.
- Cytuno ar gynllun gweithredu hyblyg sy'n amlinellu'r pryderon a'r camau y cytunwyd arnynt.
- Gyda chaniatâd yr achwynydd, gwneud unrhyw gyfeiriadau angenrheidiol i unrhyw ddarparwr cymorth, corff proffesiynol neu sefydliad cymorth i ddioddefwyr.
- Cytuno pa mor aml y bydd y Cyngor yn cysylltu â'r achwynydd ac yn ei ddiweddaru ynglŷn â chynnydd, a chytuno ar y dull mwyaf priodol o gysylltu â'r dioddefwr.

## 16 Rôl y Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Swyddog YG)

**16.1.** Mae gan y Gwasanaeth Tai Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol pwrpasol i fynd i'r afael ag achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol neu barhaus sy'n cynnwys tenantiaid y Cyngor.

**16.2.** Mae gan y Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol rôl orfodaeth a phan fo'n briodol, gall ddefnyddio pwerau newydd a roddwyd o dan y Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, lle mae atebion llai ffurfiol wedi methu datrys mater sydd angen sylw, neu pan ystyrir bod y gŵyn rhy ddifrifol ar gyfer ymyrraeth lefel isel a bod angen cymryd camau gorfodi mwy ffurfiol.

**16.2** Os bydd achos yn cael ei drosglwyddo i'r Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, bydd ganddynt fynediad at nodiadau diweddaraf yr achos.

**16.4.** Bydd y Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ymweld â'r achwynydd (fel arfer gyda'r SRhT) i drafod y broses uwchgyfeirio a'r pwerau ychwanegol sydd ar gael i fynd i'r afael â'r mater. Gall hyn gynnwys cychwyn achos ceisio meddiant, gwneud cais am waharddeb, gwneud cais am rybudd cau neu, gyda'r achosion mwyaf difrifol, fe ellir gwneud cais am orchymyn meddiant llwyr.

**16.5.** Os yw ymyrraeth y swyddog YG wedi arwain at gytundeb ( ffurfiol neu anffurfiol), caiff yr achos ei ailgyfeirio i'r SRhT a fydd yn monitro cydymffurfiaeth â'r cytundeb. Os bydd angen, gellir uwchgyfeirio'r achos ar gyfer cymryd camau pellach os nad yw'r partïon yn cydymffurfio â'r cytundeb.



DRAFFT

## 17 Cwynion dienw

21 perthynas)

**17.1.** Er y byddwn yn derbyn cwynion dienw, gallai hyn gyfyngu faint o ymholiadau y gallwn eu gwneud a chyfyngu'r camau gweithredu sydd ar gael i ni i fynd i'r afael â'r gŵyn.

**17.2.** Os oes digon o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i symud ymlaen â'r gŵyn byddwn yn trin y gŵyn yn yr un modd â phob cwyn arall a wneir.

## 18. Mesurau ataliol

**18.1** Mae ystod o fesurau eraill ar gael i'r Cyngor i liniaru risg ac neu effaith yr ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- **Polisi Gosod Tai**

Gall y Cyngor ddewis defnyddio ei bwerau o dan y Polisi Gosod Tai Cyffredin i atal ymgeiswyr a gafwyd yn euog o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Byddai'n rhaid ymchwilio'n llawn i bob cais unigol a byddai'r *math* o ymddygiad yn ffactor o bwys wrth benderfynu a fyddai'n briodol i atal ymgeisydd.

Caiff ymgeiswyr eu hatal fel arfer am hyd at 12 mis gyda darpariaeth i adolygu'r sefyllfa ar ôl 6 mis. Byddai gan ymgeiswyr sydd wedi eu hatal yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

Mae gan y Cyngor y pŵer, mewn amgylchiadau eithriadol, i wahardd unigolion o'r gofrestr dai gyffredin os ydynt yn, neu cafwyd nhw'n euog o gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol.

**DS** mae'r prawf i wahardd ymgeisydd o'r gofrestr tai yn hynod gaeth; byddai'n rhaid i'r ymddygiad fod wedi bod yn ddigon difrifol i'r landlord fedru cael meddiant llwyr o'r eiddo pe bai'r achos wedi mynd i lys barn (yn seiliedig ar fod yr ymgeisydd yn denant i awdurdod lleol).

- **Cytundeb Tenantiaeth.**

Rydym yn disgwyl i'n tenantiaid gadw at delerau ac amodau'r cytundeb tenantiaeth, sy'n gontract cyfreithiol ac sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan bob tenant.

Mae tenantiaid yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain, yn ogystal ac ymddygiad aelodau eraill o'r aelwyd, holl ymwelwyr ac anifeiliaid anwes yn y cartref.

- **Tenantiaethau Rhagarweiniol**

DRAFT

Ers 1998 mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu trefn tenantiaethau prawf ar gyfer pob tenant newydd, sef ‘Tenantiaethau Rhagarweiniol’ . Ymwelir â phob tenant newydd ar adegau penodol a drefnwyd ymlaen llaw, (neu'n amlach os oes angen) drwy gydol y cyfnod prawf i fonitro cydymffurfiaeth â'r cytundeb tenantiaeth.

Bydd y Swyddog Rheoli Tai yn mynd trwy'r cytundeb tenantiaeth gyda phob tenant newydd yn fanwl iawn, gan amlinellu disgwyliadau'r Cyngor a sicrhau bod tenantiaid yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel tenantiaid.

Gellir ymestyn cyfnodau tenantiaethau rhagarweiniol os nad yw tenantiaid yn cadw at y telerau a'r amodau.

- **Cynorthwyo Tenantiaid**

Rydym yn ceisio nodi unrhyw anghenion cymorth sydd gan denantiaid newydd cyn i’r denantiaeth ddechrau a byddwn yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi o'r cychwyn cyntaf, naill ai gan Dîm Cymorth Tai mewnol y Cyngor neu drwy i un o’n sefydliadau partner (statudol a/neu gwirfoddol) gynnig cymorth fel y bo angen.

Mae Swyddogion Rheoli Tai hefyd yn chwarae rôl werthfawr o ran monitro llwyddiant tenantiaethau ac maent yn gweithio'n agos gyda darparwyr cymorth.

- **Gwaith Amgylcheddol / Gwella Stadau**

Lle bynnag y bo'n bosibl, wrth wneud gwelliannau i'n heiddo a’n stadau, byddwn yn eu dylunio fel eu bod yn atal troseddau, a hynny drwy roi sylw i’r trefniadau goleuo a gwella diogelwch anheddau megis fflatiau a chael gwared ar fannau lle gallai pobl ymgynnull ac ati.

## 19 Cymorth, Adsefydlu ac Ailsefydlu

**19.1.** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan mai ‘atal neu rwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol tra'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol' ddylai fod prif nod landlordiaid cymdeithasol.

**19.2.** Mae’r Strategaeth Dai, y Strategaeth Ddigartrefedd, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl oll yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau hyblyg a fframweithiau cymorth, a hynny er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth uchaf bosib yn y gymuned ar gyfer rhoi sylw i anghenion cymorth tymor byr neu lefel isel pobl fregus er mwyn sicrhau eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosib yn y gymuned.



DRAFT

**19.3.** Tra'n cefnogi dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau'r troseddwr, gan gynnwys p'un a ydynt yn fregus eu hunain ac a oes ganddynt unrhyw anghenion iechyd meddwl sylfaenol neu broblemau camddefnyddio sylweddau neu unrhyw anawsterau eraill a all fod yn cyfrannu at yr ymddygiad andwyol.

**19.4.** Os gwelir bod problemau o'r fath byddwn yn ceisio gwneud defnydd o wasanaethau asiantaethau partner (statudol a gwirfoddol) gyda golwg ar sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol.

## 20. Diogelu a Chefnogi Staff

**20.1.** Mae'r Gwasanaethau Tai yn cymryd iechyd a diogelwch pob aelod o staff ac is-gontractwr yn hynod o ddifrif ac ni fyddwn yn goddef cam-drin geiriol, brawychu, na thrais na bygythiadau o drais gan denantiaid, aelodau o'u cartref na'u hymwelwyr yn erbyn staff neu gontractwyr .

**20.2.** Mae Polisi a Gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer Pobl sy'n Gweithio ar eu Pennau eu Hunain yn berthnasol i bob aelod a bydd pob un ohonynt yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol yn y maes hwn.

**20.3.** Os bydd tenant, aelod o'r aelwyd neu ymwelydd ag eiddo'r Cyngor yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol tuag at aelod o staff neu gontractwyr, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i roi rhybudd ffurfiol i'r tenant (iaid), hysbysu Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cyngor a gosod marciwr rhybudd yn erbyn yr eiddo. Gellir cyfeirio'r mater at yr Heddlu hefyd ar gyfer ymchwiliadau pellach.

**20.4.** Yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad, gall y Cyngor hefyd benderfynu defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 a cheisio datrysiad cyfreithiol.

## 21. Hyfforddiant

**21.1.** Er mwyn darparu gwasanaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol effeithiol rydym yn rhoi pwys mawr ar sicrhau bod staff yn cael digon o hyfforddiant i allu cyflawni eu dyletswyddau.

**21.2.** Mae'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd delio'n gyflym â digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt a sut i ddarparu cymorth a chefnogaeth ymarferol i ddioddefwyr, gan fod yn sensitif i faterion amrywiaeth, cynaliadwyedd a digartrefedd.

**21.3.** Bydd yr holl staff sy'n delio â chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol oll wedi derbyn hyffordiant ar y pwerau sydd ar gael iddynt o dan Ddeddf Ymddygiad



DRAFT

Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 a bydd ganddynt fynediad i ddiweddariadau cyfreithiol a chyfraith achos yn y maes ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**21.4.** Oherwydd eu bod yn mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd amlasiantaeth lle trafodir dulliau o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae gan staff gyfle i drafod a rhannu enghreifftiau o arfer da a allai fod o fudd.

## 22. Anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth a ddarperir

**22.1.** Byddwn bob amser yn ceisio gwneud ein gorau i ddarparu safon gyson uchel o wasanaeth ond rydym yn derbyn na fyddwn yn medru cwrdd â'r safon hon bob amser.

**22.2.** Os bydd pethau'n mynd o chwith, byddwn yn anelu at eu cywiro ac yn ceisio dysgu o'n camgymeriadau.

**22.3.** Diffiniad y Cyngor o gŵyn yw:

- Mynegiant o anfodlonrwydd neu bryder;
- Naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar neu a wneir trwy unrhyw ddull arall o gyfathrebu;
- Wedi ei gwneud gan un neu ragor o aelodau o'r cyhoedd;
- Am rywbeth a wnaed neu na chafodd ei wneud gan y Cyngor;
- Am safon y gwasanaeth a ddarperir.

**22.4.** Os bydd cwsmer yn anfodlon gyda'r gwasanaeth, mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Bolisi Pryderon a Chwynion sydd ar gael ar-lein yn: http://www.anglesey.gov.uk/empty-nav/compliments-or-complaints/

**22.5.** Mae'r Polisi yn seiliedig ar y Polisi Enghreifftiol a ddatblygwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel system gyffredin ar gyfer delio â chwynion ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n nodi tri cham ar gyfer datrys cwynion yn seiliedig ar:

- **Cam 1:** datrys yn anffurfiol, gyda phryderon yn cael eu datrys yn y pwynt cyswllt
- **Cam 2:** ymchwilio i gwynion yn fewnol

DRAFT

- **Cam 3:** gall gynnwys atgyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

**22.6.** Gallwch hefyd ofyn i gael siarad â'r Swyddog Gofal Cwsmer yn yr Adain Gyfreithiol, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW, neu gallwch gysylltu drwy anfon e-bost i cwynion@ynysmon.gov.uk

## 23. Sbardun cymunedol

**23.1.** Cyflwynwyd Sbardun Cymunedol fel rhan o'r Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014, ac mae'n caniatáu i unigolion, busnesau neu grwpiau cymunedol (neu drydydd parti sydd wedi cael caniatâd i gynrychioli'r dioddefwyr) sydd wedi bod yn cwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol ofyn am adolygiad o'r ffordd y mae'r achos wedi cael ei drin os ydynt yn credu nad oes unrhyw gamau wedi'u cymryd ynghylch eu cwyn.

**23.2.** Gellir defnyddio'r Sbardun Cymunedol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r achwynydd wedi rhoi gwybod am 3 achos ar wahân o ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r Cyngor, yr heddlu, darparwr tai cofrestredig neu'r bwrdd iechyd lleol yn y 3 mis diwethaf.

  a

- Rhaid bod wedi rhoi gwybod am bob achos cyn pen mis iddo ddigwydd a rhaid iddo fod wedi ei gofnodi'n swyddogol.

  a

- Rhaid i'r cais i ddefnyddio'r Sbardun Cymunedol fod wedi cael ei wneud cyn pen 6 mis i gael gwybod am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**23.3.** I ofyn i gael gweithredu'r Sbardun Cymunedol dylai'r achwynydd gysylltu â Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Cyngor yn ADRANTAI@ynysmon.gov.uk am ragor o wybodaeth.

## 24. Adolygu a Monitro'r Polisi.

**24.1** Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu'r polisi hwn yn flynyddol, gyda golwg ar sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas a'n bod yn ymdrin ag unrhyw

newidiadau mewn deddfwriaeth a phwerau rheoleiddio, a’n bod yn cyflawni ein hamcanion Polisi.

**24.3** Byddwn yn casglu data i fonitro ein perfformiad yn y maes ymddygiad gwrthgymdeithasol a bydd yn cael ei feincnodi yn erbyn perfformiad sefydliadau eraill drwy Housemark.

## 25. Monitro Perfformiad

**25.1** Byddwn yn monitor ein perfformiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ffyrdd canlynol;

- Adroddiadau perfformiad chwarterol i’r Tîm Rheoli Tai yn manylu ;
  - Nifer yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd yn ôl math, yn ystod y chwarter.
  - Nifer o achosion a cafodd eu cau yn ystod y chwarter.
  - Dadansoddiad o’r camau a gymerwyd i ddelio gyda’r cwynion.
  - Nifer o arolygon boddhad cwsmeriaid cafodd eu cwblhau a dadansoddiad o’r ymatebion.
- Adroddiad blynyddol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Tai.
- Sefydlu panel craffu tenantiaid a fydd yn ymgynnull pob 6 mis i fonitro perfformiad yn y maes gwasanaeth yn erbyn y meini prawf uchod.

DRAFT

**ATODIAD 1: Ffyrdd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Gellir mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn nifer o wahanol ffyrdd ar hyn o bryd.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi amlinelliad o'r mesurau sydd ar gael ac o dan ba amgylchiadau maent yn debygol o gael eu defnyddio.

- **Datrysiadau ac eithrio rhai cyfreithiol (a ddefnyddir fel arfer gan y Swyddog Rheoli Tai).**

| Dull | Ar gyfer |
|---|---|
| **Rhybuddion llafar.** | Gellir rhoi rhybuddion llafar ar gyfer mân- ddigwyddiadau, ac fel arfer anfonir llythyr wedyn yn cadarnhau bod rhybudd llafar wedi cael ei anfon ac fe'i cedwir ar ffeil. |
| **Llythyrau Rhybudd** | Bydd llythyrau ffurfiol yn cael eu hanfon at y rheini sydd heb gymryd sylw o'r rhybudd llafar ac sy'n parhau i dorri amodau eu cytundebau tenantiaeth. |
| **Contractau Ymddygiad Derbyniol (CYD)** | Contractau gwirfoddol rhwng y partïon yw'r rhain sy'n nodi pa ymddygiad sy'n dderbyniol a pha ymddygiad sydd ddim. Nid yw'r rhain yn gyfreithiol rwymol ond anogir partïon i'w harwyddo i ddangos ymrwymiad i beidio ag ymddwyn yn annerbyniol. |
| **Cyfryngu** | Mae cyfryngu diduedd yn ddefnyddiol mewn achosion YG lefel isel ac mae'n caniatáu i'r partïon perthnasol drafod eu problemau mewn amgylchedd a reolir. Nod cyfryngu yw datrys problemau mewn modd sy'n dderbyniol gan bawb. |
| **Cyfiawnder adferol** | Byddai'r math hwn o weithredu yn cael ei arwain gan yr Heddlu, gyda'r bwriad o ddod â'r rheini a effeithir gan drosedd wyneb yn wyneb â'r person neu'r bobl sy'n gyfrifol am y drosedd. Byddai disgwyl i'r rheini sy'n gyfrifol am y drosedd wynebu canlyniadau eu gweithredoedd a gwneud iawn. |
| **Datrysiad cymunedol** | Yn cael ei arwain gan yr Heddlu ac yn debyg i egwyddorion cyfiawnder adferol. Fe'i defnyddir i fynd i'r afael â throseddwyr tro cyntaf mewn achosion lle mae'r YG yn llai difrifol. Anogir y troseddwyr i wynebu'r dioddefwr a chanlyniadau eu gweithredoedd a gwneud iawn am y niwed y maent wedi'i achosi. |
| **Defnyddio offer Monitro Sŵn** | Pan fo'r gŵyn yn ymwneud â niwsans sŵn, gall y Gwasanaeth Tai gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd a gofyn i gael gosod offer monitro sŵn i fesur y sŵn a gynhyrchir. Mae data a gesglir yn cael ei ddadansoddi a gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth os oes angen cymryd camau gorfodi mwy ffurfiol. Bydd hyn fel arfer ar ffurf gorchymyn atal sŵn yn y lle cyntaf ac o bosib gellir cyflwyno Rhybudd Ceisio Meddiant. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Prosiectau Ymyriadau Teuluol (PYT)** | Dull o weithredu amlasianaethol yw Prosiectau Ymyriadau Teuluol ac fe'u cynlluniwyd i roi cymorth dwys i deuluoedd sydd â mwy nag un broblem, gan gadw plant allan o'r system ofal ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| **Contractau rhianta** | Mewn cysylltiad ag asiantaethau perthnasol, mae gan y Cyngor yr opsiwn o wneud cytundeb gwirfoddol gyda rhiant neu warcheidwad plentyn neu berson ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Pwrpas y contractau hyn yw annog oedolyn cyfrifol i gymryd cyfrifoldeb am ymddygiad y plentyn neu'r plant gyda'r bwriad o atal rhagor o gwynion. Wrth lofnodi'r contract, mae'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn cytuno i gydymffurfio â gofynion penodol am gyfnod penodol o amser. |
| **Defnyddio Tystion Proffesiynol** | Mewn rhai achosion, efallai y bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio gwasanaethau tyst proffesiynol i fonitro lleoliadau lle cafwyd gwybod bod YG yn digwydd. Mae achosion o'r fath yn brin ac nid yw cymryd y fath gamau'n briodol bob amser. |

- **Datrysiadau cyfreithiol (y gwneir cais amdanynt fel arfer gan y Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol).**

| Dull: | Ar gyfer: |
|---|---|
| **Gorchymyn Israddio (ar gyfer tenantiaid diogel)** | Gall yr Awdurdod Lleol wneud cais am orchmynion israddio mewn achosion lle mae tenant, preswylydd neu ymwelydd wedi ymddwyn neu wedi bygwth ymddwyn mewn ffordd sy'n gallu achosi niwsans ac sy'n effeithio ar reolaeth tai yn yr ardal. Byddai'r Cyngor yn dechrau achos yn y Llys Sirol am orchymyn israddio a fyddai'n dwyn y denantiaeth ddiogel i ben ac yn creu tenantiaeth sydd wedi ei hisraddio ac sy'n gostwng hawliau'r tenant. Os nad yw ymddygiad y tenant yn gwella yna bydd y Cyngor yn gallu cymryd camau i geisio meddiant o'r eiddo a throi'r tenant allan. |
| **Ymestyn Tenantiaeth Ragarweiniol** | Gellir ymestyn tenantiaethau 12 mis rhagarweiniol am gyfnod prawf arall o 6 mis arall i ganiatáu i'r tenantiaid ddangos eu bod yn gallu addasu eu hymddygiad. |
| **Cyflwyno Rhybudd Ceisio Meddiant (RhCM) a Rhybudd o Achos Meddiant (RhAM)** | Os yw tenantiaid yn parhau i dorri amodau eu cytundeb tenantiaeth ac yn methu â chydymffurfio â rhybuddion i addasu eu hymddygiad, gall y Cyngor gyflwyno RhCM neu RhAM (yn dibynnu ar y math o denantiaeth) a fydd yn parhau i fod yn ddilys am 12 mis. Dyma'r cam cyntaf wrth i'r Cyngor gychwyn achos ceisio meddiant. |
| **Gwaharddebau Sifil** | Gwaharddebau sifil yw gorchmynion llys a wneir gan y llysoedd sifil naill ai atal i ymddygiad penodol a / neu i orfodi rhai camau penodol. Gellir gofyn am waharddeb sifil yn erbyn unrhyw berson 10 oed a hŷn |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | lle achoswyd niwsans ac annifyrrwch i amgylchiadau tai unigolyn ac mewn amgylchiadau lle achoswyd aflonyddwch, braw a gofid. |
| **Gorchymyn Ymddygiad Troseddol** | Cyhoeddir gorchmynion ymddygiad troseddol gan lys troseddol yn erbyn person a gafwyd yn euog o drosedd, a hynny er mwyn mynd i'r afael ag unigolion syn ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn gyson ac sydd hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol. Bydd y gorchymyn yn cynnwys gwaharddiadau i atal yr ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond gall hefyd gynnwys gofynion positif i gael y troseddwr i roi sylw i'r hyn sydd wrth wraidd yr ymddygiad. |
| **Gorchymyn Gwasgaru** | Mae Gorchymyn Gwasgaru yn ei gwneud yn ofynnol i berson neu bersonau sy'n cyflawni neu sy'n debygol o gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd neu anhrefn i adael ardal am hyd at 48 awr. Mae'r pwerau gwasgaru yn cael eu defnyddio gan yr Heddlu. |
| **Hysbysiad Diogelu Cymunedol (HDC)** | Gellir cyhoeddi rhybudd diogelu cymunedol i unigolyn neu fusnes i ymdrin â phroblem benodol sy'n cael effaith negyddol ar y gymuned. Gellir defnyddio'r rhybudd i fynd i'r afael ag ystod o wahanol fathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, er enghraifft graffiti, sbwriel, baw cŵn. |
| **Hysbysiadau Cosb Benodedig** | Gellir cyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig i ddelio â throseddau amgylcheddol fel: taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon, troseddau rheoli cŵn, graffiti, cerbydau wedi'u gadael. |
| **Gorchmynion Rhianta** | Mae Gorchymyn Rhianta yn orchymyn dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Dyluniwyd y Gorchymyn Rhianta yn bennaf i helpu a chefnogi rhieni pan fydd eu plant yn mynd i helynt. Gall llys gyflwyno Gorchymyn i riant neu Warcheidwad person ifanc a gafwyd yn euog o drosedd. |
| **Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus (GAMC)** | Bwriedir Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus i ddelio â niwsans neu broblem arbennig mewn ardal benodol sydd yn niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol, drwy osod amodau ar y defnydd o'r ardal honno sy'n berthnasol i bawb. Bydd cynghorau yn gyfrifol am wneud y gorchmynion newydd hyn. |
| **Hysbysiad Cau** | Mae hysbysiad cau yn ymyriad cyflym dros gyfnod cyfyngedig i stopio neu i rwystro defnyddio adeiladau r gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu weithgarwch troseddol. Gall yr Heddlu a / neu'r Cyngor ddefnyddio'r rhybudd hwn i gau safle am 24 awr neu 48 awr. Rhaid cyflwyno cais i'r Llys Ynadon am orchymyn cau pan gyhoeddir rhybudd cau. |
| **Gorchymyn Cau** | Rhoddir Gorchymyn Cau gan y Llys Ynadon pan fydd yn fodlon bod safleoedd yn cael eu defnyddio neu'n debygol o gael eu defnyddio ar gyfer ymddygiad anhrefnus, ffiaidd neu droseddol. Gellir defnyddio'r Gorchymyn i gyfyngu pob mynediad i'r eiddo dan sylw ac mae'n cau'r eiddo i lawr i bob pwrpas. Gall y gorchymyn fod mewn grym am 3 mis |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | a gellir ei ymestyn am hyd at 6 mis. |
| **Achosion Cymryd Meddiant** | Os yw’r dulliau o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cael eu defnyddio ond bod yr ymddygiad yn parhau, fel dewis olaf gall y Cyngor wneud cais i'r Llys am orchymyn ceisio meddiant. Os rhoddir y gorchymyn bydd y Llys yn pennu dyddiad i’r tenant adael yr adeilad. |
| **Sail Absoliwt ar gyfer Meddiant** | Mae sawl newid wedi'u gwneud i’r rhesymau dros geisio meddiant sydd wedi eu cynnwys yn Neddfau Tai 1985 a 1988.<br><br>Y newid mwyaf a ddaeth yn sgil Deddf 2014 yw cyflwyno sail orfodol newydd ar gyfer meddiant lle bu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol. Mae'r Deddfau yn nodi nifer o amodau a fydd, os profir nhw, (ac yn amodol ar unrhyw amddiffyniad cymesuredd hawliau dynol y gall y tenant ei godi) yn arwain at wneud gorchymyn meddiant llwyr. |

DRAFT

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)

# Rhan A – Asesiad Cychwynnol o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Dyddiad cychwyn: Dyddiad cwblhau:

## RHAN A – Cam 1: Paratoi

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Beth sy’n cael ei asesu? | Y Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sef polisi yr argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2016. |
| 2. | Ydy’r polisi yma’n un newydd neu’n un sy’n bodoli eisoes? | Mae’r polisi hwn yn diwygio polisi sy'n bodoli eisoes yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth yn sgil gweithredu Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 a ddaeth i rym ar 20 Hydref 2014. |
| 3. | Beth yw nodau a phwrpas y polisi hwn? | Er mwyn sicrhau bod polisi ar waith sy'n:<br>▪ Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.<br>▪ Yn esbonio sut y bydd y Gwasanaethau Tai yn mynd i'r afael â chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>▪ Yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau perthnasol i sicrhau y darganfyddir y datrysiad gorau a’i fod yn cael ei weithredu cyn gynted â phosib<br>▪ Yn rhoi gwybodaeth am y gwahanol fesurau sydd ar gael i'r Gwasanaeth Tai fel landlord cymdeithasol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>▪ Amlinellu rolau a chyfrifoldebau swyddogion sy’n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| 4. | Pwy sy’n gyfrifol am y polisi sy’n cael ei asesu? | Y Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn |
| 5. | Pwy yw’r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr AEC yma? | Y Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Pwy arall sy’n cymryd rhan yn yr AEC yma? | Rachel Smith, Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| 7. | Oes yna gyswllt rhwng y polisi yma a pholisïau/meysydd gwaith eraill? | Oes<br><br>▪ Swyddogaeth tai strategol y Cyngor.<br>▪ Polisi Gosod Tai Cyffredin y Cyngor (a ddaeth i rym ar 4 Gorffennaf 2016).<br>▪ Cytundeb(au) tenantiaeth y Gwasanaethau Tai, gan fod disgwyl i denantiaid y Cyngor lynu wrth delerau ac amodau mewn perthynas ag ymddygiad derbyniol. |
| 8. | Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol? | ▪ Tenantiaid y Cyngor.<br>▪ Trigolion sy'n byw ar stadau'r Cyngor<br>▪ Ymwelwyr i stadau’r Cyngor.<br>▪ Ymgeiswyr ar y gofrestr dai gyffredin<br>▪ Gweithwyr ac isgontractwyr y Cyngor.<br>▪ Aelodau Lleol a Chynghorwyr Tref.<br>▪ Tîm Diogelwch Cymunedol<br>▪ Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid statudol ac anstatudol eraill |

| 9 - Ydy’r polisi’n berthnasol i sut mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy’n cael eu gwarchod ar sail oed; anabledd; rhyw; newid rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, ethnigrwydd neu genedligrwydd; crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu | ✓ | |
| Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | ✓ | |
| Meithrin perthynas dda | ✓ | |
| Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | ✓ | |

**RHAN A – Cam 2: Casglu gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| 10 - A yw'r polisi / maes gwaith yma'n sicrhau cydraddoldeb i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor? | Ydi<br><br>Rhaid i'r polisi gydymffurfio gyda Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor a Safonau Iaith Gymraeg 2016 |
| 11 - Oes cyfle drwy'r polisi / maes gwaith i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Ydi<br><br>Yn unol â'r polisi, rhaid i 'r swyddogaeth gosod tai a gwasanaethau / gwybodaeth gysylltiedig fod ar gael yn y Gymraeg. |
| 12 - Pa gyfraniad posibl sy'n cael ei gynnig drwy'r polisi / maes gwaith yma tuag at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn ffynnu ac yn llwyddo? | Dim yn berthnasol i'r polisi hwn. |
| 13 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol?<br>Os oes, beth yw'r materion yma?<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol sydd yn y Ddeddf Hawliau Dynol wedi'u rhestru yn Atodiad 1) . | O bosib.<br><br>Gall cwsmeriaid fod o'r farn y gallai rhai mathau o gamau gorfodi amharu ar eu Hawliau Dynol oherwydd y gall bod raid iddynt ymatal rhag rhai mathau o ymddygiad (Erthygl 8).<br><br>Bydd yn rhaid i Swyddogion sy'n gweinyddu'r polisi sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i gwynion yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu, er mwyn sicrhau nad ydynt yn torri Erthygl 14 Deddf Hawliau Dynol 1988. |
| 14 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r polisi yma? | ▪ Sefydlwyd grŵp ffocws ar gyfer tenantiaid i weithio gyda swyddogion wrth greu'r polisi.<br>▪ Cyflwynwyd y Polisi drafft i Banel Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn fel rhan o ymgynghoriad gyda chwsmeriaid ar gyfer sylwadau a chymeradwyaeth.<br>▪ Anfonwyd y Polisi at Reolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn ar gyfer sylwadau a chymeradwyaeth. |

| | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | |

**RHAN A – Cam 3: Ystyried yr effaith debygol**

*Ar gyfer pob un o'r nodweddion a warchodir, manylwch yn y golofn ar y dde yn y tabl isod, os gwelwch yn dda:
(1) unrhyw adroddiadau, ystadegau, gwefannau, linciau ayyb sy'n berthnasol i'ch dogfen / cynnig ac sydd wedi cael eu defnyddio fel rhan o'ch asesiad; a/neu
(2) unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth neu staff; a/neu
(3) unrhyw wybodaeth arall sydd wedi'i gynnwys yn eich asesiad o'r effaith debygol

**Er mwyn penderfynu beth yw'r effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda:
Negyddol - uchel; Negyddol - canolig; Negyddol - isel; Niwtral; Cadarnhaol - isel; Cadarnhaol - canolig; Cadarnhaol – uchel; Dim effaith/ddim yn berthnasol

| Y grŵp a warchodir | **Yr effaith debygol | *Manylion |
|---|---|---|
| Oed | Niwtral | Nid yn seiliedig ar ddata.<br><br>Disgwylir i denantiaid o bob oed gadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth ac i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi anawsterau neu'n amharu ar hawl preswylwyr i fwynhad tawel neu ar gyfer trigolion eraill, ymwelwyr neu swyddogion. |
| Anabledd | Cadarnhaol isel | Dywed Adran 19.3 7 a 19.4 o'r polisi y byddwn, wrth ymateb i gwynion, yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau'r troseddwr yn ogystal â'r dioddefwr ac y byddwn yn ystyried a ydynt yn fregus ynddynt eu hunain.<br><br>Os yw'r ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ei gyflawni gan rywun o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn fregus oherwydd anabledd a allai fod ganddynt, byddwn yn ceisio defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau partner perthnasol er mwyn sicrhau eu bod hwythau hefyd yn cael cefnogaeth. |
| Rhyw | Niwtral | Disgwylir i denantiaid, waeth beth fo'u rhyw, i gadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth ac i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi anawsterau neu'n amharu ar hawl preswylwyr i fwynhad tawel neu ar gyfer trigolion eraill, ymwelwyr neu swyddogion. |
| Newid Rhyw | Niwtral | Disgwylir i denantiaid, waeth beth fo'u rhyw, i gadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth ac i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi anawsterau neu'n amharu ar hawl preswylwyr i fwynhad tawel neu ar gyfer |

| Y grŵp a warchodir | **Yr effaith debygol | *Manylion |
|---|---|---|
| | | trigolion eraill, ymwelwyr neu swyddogion. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Niwtral | Disgwylir i denantiaid, p'un a oes ystyriaethau beichiogrwydd / mamolaeth ai peidio, gadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth ac i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi anawsterau neu'n amharu ar hawl preswylwyr i fwynhad tawel neu ar gyfer trigolion eraill, ymwelwyr neu swyddogion. |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | Niwtral | Disgwylir i denantiaid, waeth beth fo'u hil / ethnigrwydd a chenedligrwydd, gadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth ac i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi anawsterau neu'n amharu ar hawl preswylwyr i fwynhad tawel neu ar gyfer trigolion eraill, ymwelwyr neu swyddogion |
| Crefydd neu Gred | Niwtral | Disgwylir i denantiaid, waeth beth fo'u crefydd neu eu credoau, gadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth ac i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi anawsterau neu'n amharu ar hawl preswylwyr i fwynhad tawel neu ar gyfer trigolion eraill, ymwelwyr neu swyddogion |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Niwtral | Disgwylir i denantiaid, waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol, gadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth ac i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi anawsterau neu'n amharu ar hawl preswylwyr i fwynhad tawel neu ar gyfer trigolion eraill, ymwelwyr neu swyddogion |
| Yr iaith Gymraeg | Niwtral | Amherthnasol |
| Hawliau Dynol | Niwtral | Disgwylir i bob tenant gadw at delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth ac i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi anawsterau neu'n amharu ar hawl preswylwyr i fwynhad tawel neu ar gyfer trigolion eraill, ymwelwyr neu swyddogion |

**RHAN A – Cam 4: Canlyniad yr asesiad cychwynnol**

| | |
|---|---|
| Ydy Canlyniad yr asesiad cychwynnol yn golygu bod angen symud ymlaen i gynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb? | **Nac ydi** |
| | **Nodwch y rhesymau dros y penderfyniad:**<br><br>Nid oes unrhyw arwydd y bydd gweithredu'r polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol (canolig neu uchel) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig statudol. |
| Os na, oes yna unrhyw faterion sydd angen sylw? | **Nac Oes** |
| | **Nodwch y manylion**:<br><br>Ysgrifennwyd y polisi i fod yn deg a chyfiawn i bawb.<br>Mae'n ofynnol i bobl sy'n dymuno byw mewn llety Cyngor lynu wrth yr un amodau a thelerau a drwy lofnodi'r cytundeb tenantiaeth, sy'n gontract cyfreithiol, maent yn cytuno i gadw at y telerau hynny. |

Os ydych wedi penderfynu **bod angen cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb,** ewch ymlaen i **Rhan B** os gwelwch yn dda.

Os ydych wedi penderfynu **peidio symud ymlaen i gynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb,** ewch ymlaen i **Rhan C – Adrodd ar y Canlyniad.**

# Rhan B - I’w ddefnyddio ar gyfer Asesiad Effaith Cydraddoldeb Llawn yn unig

**RHAN B – Cam 1: Archwilio’r wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | A oes gennych chi wybodaeth ddigonol?<br>Cyfeiriwch at Rhan 2 : Casglu Gwybodaeth – am gymorth | |
| 2. | A oes modd i chi symud ymlaen gyda’r polisi yn ystod yr AEC? | |
| 3. | Ydy’r wybodaeth a gasglwyd yn berthnasol i bob un o’r grwpiau a warchodir? | |
| 4. | Pa wybodaeth ychwanegol (os hynny) sydd angen? | |
| 5. | Sut rydych chi am gasglu unrhyw wybodaeth ychwanegol angenrheidiol?<br>Nodwch pa gyrff cynrychiolaethol neu sefydliadau eraill y byddwch yn cysylltu â nhw er mwyn cyflawni hyn | |

**Rhan B – Cam 2: Barnu/asesu'r effaith posibl**

| Rhowch fanylion isod am yr effaith yr ydych wedi ei adnabod | | | |
|---|---|---|---|
| Y grŵp a warchodir | Negyddol | Cadarnhaol | Disgrifiwch yma pa dystiolaeth neu wybodaeth arall a ddefnyddiwyd gennych (ee cyfraniadau gan randdeiliaid) er mwyn canfod natur a graddfa unrhyw effaith debygol |
| Oed | | | |
| Anabledd | | | |
| Rhyw | | | |
| Newid Rhyw | | | |
| Beichiogrwydd & Mamolaeth | | | |
| Hil | | | |
| Crefydd/Cred | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | |
| Iaith Gymraeg | | | |
| Hawliau Dynol | | | |

**Rhan B – Cam 3: Ystyried opsiynau eraill**

Rhowch ystyriaeth i unrhyw newidiadau i'r polisi a fyddai'n lleihau, gwaredu neu liniaru unrhyw effaith niweidiol (sydd wedi ei adnabod yn Cam 2)

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Disgrifiwch unrhyw weithrediadau a gymerwyd i leihau effaith negyddol / niweidiol | |
| 2. | Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | |
| 3. | Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed i wneud y mwyaf o gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb, ee: newidiadau i'r polisi, rheoleiddio, arweiniad, cyfathrebu, monitro neu adolygu | |
| 4. | Pa newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad i gynnal yr AEC yma? | |

Ewch ymlaen i **Rhan C – Adroddiad ar y Canlyniad**.

# Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) – CANLYNIAD

## RHAN C – Cam 1: Adroddiad ar y Canlyniadau

<table>
<tr><td>Sefydliad:</td><td>Cyngor Sir Ynys Môn</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Beth sy’n cael asesiad:<br>(Rhan A – cam 1)</td><td>Y Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sef polisi yr argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2016.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Amlinelliad byr o’r nodau ac amcanion:<br>(Rhan A – cam 1)</td><td>Er mwyn sicrhau bod polisi ar waith sy'n:<br>▪ Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.<br>▪ Yn esbonio'n sut y bydd y Gwasanaethau Tai yn mynd i'r afael â chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>▪ Yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau perthnasol i sicrhau y darganfyddir y datrysiad gorau a’i fod yn cael ei weithredu cyn gynted â phosib<br>▪ Yn rhoi gwybodaeth am y gwahanol fesurau sydd ar gael i'r Gwasanaeth Tai fel landlord cymdeithasol ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Amlinellu rolau a chyfrifoldebau swyddogion sy’n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="2">A symudwyd ymlaen i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn o ganlyniad i’r asesiad cychwynnol?<br>(RHAN A – Cam 4)</td><td>Naddo</td></tr>
<tr><td>Nodwch y rhesymau dros y penderfyniad:<br><br>Nid oes unrhyw arwydd y bydd gweithredu'r polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol (canolig neu uchel) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig statudol.</td></tr>
<tr><td>Os na, oes yna unrhyw faterion sydd angen sylw?</td><td>Nid oes unrhyw arwydd y bydd gweithredu'r polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol (canolig neu uchel) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig statudol</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Ystyrir bod y polisi yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur. |
| | |
| Os do, beth oedd canlyniad yr asesiad llawn? | Amherthnasol |
| | |
| A fydd y polisi’ n cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd.<br><br>Pwyllgor Gwaith y Cyngor. |
| | Os na, nodwch, os gwelwch yn dda, beth yw’r rheswm dros hynny, ynghyd ag unrhyw weithredu pellach sydd angen ei wneud:<br><br>Amherthnasol |
| | |
| Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw’r trefniadau hynny? | Oes<br><br>Byddwn yn monitro ein perfformiad ar faterion Ymddygiad Gwrthgymdeitasol yn y ffyrdd canlynol;<br><br>▪ Adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Tîm Rheoli Tai.<br><br>▪ Byddwn yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Tai.<br><br>▪ Byddwn yn sefydlu panel sgriwtini tenantiaid a fydd yn ymgynnull bob 6 mis i fonitro perfformiad yn y maes gwasanaeth yn erbyn y meini prawf uchod |
| | |

| | | |
|---|---|---|
| Pwy yw'r Swyddog Arweiniol? | Enw: | Shan L Williams |
| | Teitl: | Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| | Adran: | Gwasanaethau Tai |
| Dyddiad adolygu’r polisi a’r asesiad effaith: | Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu'r polisi hwn yn flynyddol, gyda golwg ar sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i’r pwrpas a’n bod yn ymdrin ag unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth neu’r pwerau rheoleiddio, a’n bod yn cyflawni’r nodau polisi.<br><br>Ar ôl i’r Pwyllgor Gwaith ei fabwysiadu, adolygir y polisi 12 mis o’r dyddiad y daeth i rym. | |

| Enwau’r holl bartion a gymerodd rhan yn yr asesiad yma | Enw | Teitl |
|---|---|---|
| | Karen Roberts | Prif Swyddog Tai |
| | Rachel Smith | Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |

Noder os gwelwch yn dda: Dylid atodi Cynllun Gweithredu i’r Adroddiad hwn ar y Canlyniadau cyn ei gwblhau.

**RHAN C – Cam 2 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r AEC. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Camau y bwriedir eu cymryd | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 01 | Monitro cydymffurfiaeth â'r polisi newydd yn fisol mewn cyfarfodydd goruchwylio staff | Prif Swyddog Tai | Yn fisol o'r dyddiad y daeth i rym |
| 02 | Casglu data ystadegol am gwynion a'r camau a gymerwyd yn unol â meini prawf meincnodi Housemark | Prif Swyddog Tai | Yn fisol o'r dyddiad y daeth i rym |
| 03 | Sefydlu Panel Sgriwtini Tenantiaid fel rhan o'r gwaith i fonitro perfformiad a chydymffurfiaeth â'r polisi | Prif Swyddog Tai | Rhagfyr 2016 (cyfarfod cyntaf) |

## ATODIAD 1 – HAWLIAU DYNOL

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:



(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***Adroddiad:*** **Model ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori ar fudd-daliadau lles yn Ynys Môn i'r dyfodol**
***Report: Model for delivering welfare benefit advice services for the future in Anglesey***

| Paragraff(au) 14, 17<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Byddai'r cyhoedd efo ddiddordeb i wybod y manylion a'r cefndir i ystyriaethau'r penderfyniad i newid model darparu gwasanaeth budd-daliadau lles. / The public would be interested to know the background details and considerations of the decision to change the service delivery model of welfare benfits. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gan ddatgelu peth o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad yma gall rhagfarnu materion ariannol y Cyngor. / Revealing some of the information contained in this report could prejudice the financial affairs of the Council.<br><br>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at rhai materion ariannol gan gynnwys y grant i'r CAB fel trydydd parti. / The report refers to financial information including details of a grant to the CAB as a third party. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank